EARLY INTERVENTION FOUNDATION



# Arwain a darparu gwasanaethau plentyndod cynnar

## 10 mewnwelediad o 20 o leoedd ledled Cymru a Lloegr

Chwefror 2022

**Ben Lewing, Jean Gross a Donna Molloy**

## Diolchiadau

Mae'r adroddiad hwn yn benllanw blwyddyn o waith a oedd yn cynnwys cyfraniadau pwysig gan lawer o wahanol bobl. Hoffem ddiolch iddynt i gyd, yn arbennig: y cydlynwyr lleol a reolodd y broses matrics aeddfedrwydd ar lefel leol, ac a gynhyrchodd y dysgu y seiliwyd yr adroddiad hwn arno; tîm o gymdeithion EIF a gefnogodd y gwaith, gan gynnwys yr arweinwyr dilysu Becky Fisk, Andrea Richardson, a Kate Freeman; Rhiannon Griffiths a Robyn Tulloch a gadwodd y gwaith i fynd, a Helen Burridge a wnaeth synnwyr o'r data; ein cyfaill beirniadol Dan Bristow yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; a chydweithwyr yn yr Adran Addysg ac yn Llywodraeth Cymru am eu brwdfrydedd, eu cefnogaeth a'u hamynedd wrth i'r prosiect ddatblygu.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn y Saesneg yn: https://www.eif.org.uk/report/leading-and-delivering-early-childhood-services-10-insights-from-20-places-across-england-and-wales

Lawrlwythwch y fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn fel PDF di-dâl yn: https://www.eif.org.uk/files/pdf/leading-and-delivering-early-childhood-services-10-insights-from-20-places-across-england-and-wales-english.pdf

## EIF

Mae'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (EIF – Early Intervention Foundation) yn elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2013 i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ymyrraeth gynnar effeithiol i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o brofi canlyniadau gwael. Mae ymyrraeth gynnar effeithiol yn gweithio i atal problemau rhag digwydd, neu i'w trin yn uniongyrchol pan fydd hynny'n digwydd, cyn i broblemau waethygu. Mae hefyd yn helpu i feithrin set gyfan o gryfderau a sgiliau personol sy'n paratoi plentyn ar gyfer bywyd fel oedolyn. Mae EIF yn elusen ymchwil, sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a galluogi ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at ymyrraeth gynnar. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y materion datblygiadol sy'n gallu codi yn ystod bywyd plentyn, o enedigaeth i 18 oed, gan gynnwys eu datblygiad corfforol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol ac emosiynol. O ganlyniad, mae ein gwaith yn cwmpasu ystod eang o feysydd polisi a gwasanaeth, gan gynnwys iechyd, addysg, teuluoedd a phlismona.

**Early Intervention Foundation** Evidence Quarter, Albany House, Petty France, Westminster, London SW1H 9EA

W: www.EIF.org.uk
E: info@eif.org.uk
T: @TheEIFoundation
P: +44 (0)20 3542 2481

Mae EIF yn elusen gofrestredig (1152605) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (8066785).

MAE EIF YN FALCH O FOD YN AELOD O'R RHWYDWAITH WHAT WORKS

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gyntaf ym mis Chwefror 2022.
© Early Intervention Foundation 2022

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn gyntaf ym mis Chwefror 2022. © Early Intervention Foundation 2022 Nod yr adroddiad hwn yw cefnogi llunwyr polisi, ymarferwyr a chomisiynwyr i wneud dewisiadau gwybodus. Rydym wedi adolygu data o ffynonellau awdurdodol ond rhaid ystyried y dadansoddiad hwn fel atodiad i farn broffesiynol, yn hytrach na dadansoddiad a ddylai gymryd lle'r farn honno. Nid yw Rhwydwaith *What Works* yn gyfrifol am unrhyw ddadansoddiad a gynhyrchir neu a ddyfynnir yma, ac nid yw'n gallu gwarantu ei gywirdeb Lawrlwytho Mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho fel PDF am ddim yn

https://www.eif.org.uk/report/leading-and-delivering-earlychildhood-services-10-insights-from-20-places-acrossengland-and-wales

**Caniatâd i rannu**
Cyhoeddir y ddogfen hon o dan drwydded creative commons: Attribution-NonCommercial-NoDerivs 2.0 UK http://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/2.0/uk/

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Ar gyfer defnydd masnachol, cysylltwch ag info@eif.org.uk

# Cynnwys

**Astudiaethau achos byr: Mynegai** ..... 4

**Crynodeb** ..... 6

**Rhagymadrodd** ..... 9

- Cynllunio gwasanaethau plentyndod cynnar ..... 9
- Anghyfartaledd yn ystod y pandemig ac adferiad ..... 11
- Rôl tystiolaeth wrth gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau ..... 12
- Y matrics aeddfedrwydd a thystiolaeth ..... 13
- Cyd-destun polisi ..... 14
- Cysylltu â rhanddeiliaid ..... 16

**Cynllunio: Sut mae ardaloedd lleol yn bwrw ymlaen â strategaeth, comisiynu a chynllunio'r gweithlu** ..... 18

- Mewnwelediad 1: Ysgogi ansawdd cynllunio strategol lleol ..... 19
- Mewnwelediad 2: Cynllunio gyda'r adnodd lleol cyfan mewn golwg ..... 26

**Arwain: Sut mae ardaloedd lleol yn sefydlu trefniadau llywodraethu, ac yn ymgysylltu ag arweinwyr a'r gymuned ehangach** ..... 33

- Mewnwelediad 3: Cael yr arweinyddiaeth yn gywir ..... 34
- Mewnwelediad 4: Cefnogi cymunedau i ysgogi newid ..... 39

**Darparu: Sut mae ardaloedd lleol yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau, ac yn rhannu gwybodaeth** ..... 43

- Mewnwelediad 5: Cael y gorau o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ..... 44
- Mewnwelediad 6: Gwneud i waith amlasiantaeth weithio ..... 48
- Mewnwelediad 7: Wynebu'r her o rannu data personol ..... 55
- Mewnwelediad 8: Gwybodaeth i deuluoedd: hawl nid rhodd ..... 59

**Gwerthuso: Sut mae ardaloedd lleol yn deall effaith ac yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth** ..... 62

- Mewnwelediad 9: Gwneud mwy i fesur canlyniadau a phrofiad ..... 63
- Mewnwelediad 10: Datblygu partneriaeth ymarfer ymchwil ..... 70

**Symud ymlaen** ..... 74

- Cynllunio systemau lleol ..... 74
- Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant ar lefel genedlaethol ..... 79

**Atodiad A: Sut y gweithiodd EIF gydag ardaloedd lleol** ..... 83

**Atodiad B: Data ar lefelau cynnydd y Matrics Aeddfedrwydd** ..... 85

# Astudiaethau achos byr: Mynegai


**Mewnwelediad 1: Ysgogi ansawdd cynllunio strategol lleol ... 19**

Caerffili: Gweledigaeth ar gyfer newid ... 19

Islington: Ffactorau straen a gwytnwch ... 20

Warrington: Dechrau o dystiolaeth yr ymchwil ... 20

Newham: Y 50 Cam at fwrdeistref iachach ... 21

Sir Gaerfyrddin a Cheredigion: System integredig blynyddoedd cynnar ... 22

Islington: Proffil *Bright Start* ... 23

Gogledd Cymru: Asesiad anghenion poblogaeth rhanbarthol ... 25

**Mewnwelediad 2: Cynllunio gyda'r adnodd lleol cyfan mewn golwg ... 26**

Casnewydd: Mapio asedau lleol ... 26

Kirklees: Partneriaeth Iechyd a Lles ... 27

Dwyrain Swydd Gaer: Canolfannau Iechyd Plant ... 27

Sir y Fflint: Creu diwylliant dysgu ... 29

Caerdydd: Dadansoddiad anghenion hyfforddi ... 31

Tower Hamlets: Hyfforddiant aml-asiantaeth ... 31

Dwyrain Swydd Gaer: Therapyddion lleferydd ac iaith ... 32

Wrecsam a Sir y Fflint: CAMHS yn hyfforddi'r gweithlu ehangach ... 32

**Mewnwelediad 3: Cael yr arweinyddiaeth yn gywir ... 34**

Tower Hamlets: Mamolaeth a llywodraethu'r blynyddoedd cynnar ... 34

Ynys Môn: Bwrdd y blynyddoedd cynnar ... 35

Islington: Partneriaethau ardaloedd lleol ... 35

Caerffili: Partneriaethau lleol a rhanbarthol ... 36

Dwyrain Swydd Gaer: Modelu arweinyddiaeth ... 37

Dyfnaint: Rolau arwain ... 38

**Mewnwelediad 4: Cefnogi cymunedau i ysgogi newid ... 39**

Kirklees: Cyd-ddylunio a chymorth cymheiriaid ... 39

Ceredigion: Datblygu ymdeimlad o gymuned ... 40

Tower Hamlets: Rhieni yn gwirfoddoli ... 40

Hammersmith a Fulham: Pencampwyr cymunedol ... 41

Sir Gaerfyrddin: Cysylltwyr Cymunedol ... 41

**Mewnwelediad 5: Cael y gorau o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ... 44**

Caerffili: Cynnig craidd, nid dewislen o ymyriadau ... 46

Dyfnaint: Mapio ymyrraeth ... 46

Torfaen: Data mapio gwasanaethau ... 47

Sir y Fflint: Cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ffyddlon ... 47

**Mewnwelediad 6: Gwneud i waith amlasiantaeth weithio....48**
Dwyrain Swydd Gaer: Y Daith Rhianta .... 51
Ceredigion: Cymorth amlddisgyblaethol i deuluoedd.... 51
Dyfnaint: Llwybr Beichiogrwydd Agored i Niwed .... 52
Casnewydd: Gweithwyr allweddol a sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig'.... 52
Torfaen: Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.... 53
Warrington: Her gan Gymheiriaid ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar .... 54
Islington: Gofal mamolaeth .... 54
**Mewnwelediad 7: Wynebu'r her o rannu data personol ....55**
Dwyrain Swydd Gaer: Cytundebau rhannu gwybodaeth.... 56
Ceredigion: Protocol rhannu gwybodaeth .... 57
Tower Hamlets: Datblygu hyder i rannu .... 57
Caerdydd: Llwyfan data amlasiantaeth .... 58
Islington: Cymorth busnes integredig.... 58
**Mewnwelediad 8: Gwybodaeth i deuluoedd: hawl nid rhodd ....59**
Wrecsam: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd .... 60
Ceredigion: Canllaw i rieni ar ddatblygiad y blynyddoedd cynnar ....61
Dwyrain Swydd Gaer: 'Dim ap i gymryd lle eich glin'....61
**Mewnwelediad 9: Gwneud mwy o fesur canlyniadau a phrofiad....63**
Tower Hamlets: Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau .... 64
Bro Morgannwg: Data lefel gwasanaeth ar y pellter a deithiwyd gan deuluoedd.... 65
Solihull: Cerdyn sgorio perfformiad 'y ryg tartan' .... 65
Caerdydd: Gweithredu ar adborth arferol .... 69
Calderdale a Kirklees: Defnyddio adborth ar wasanaethau mamolaeth.... 69
**Mewnwelediad 10: Datblygu partneriaeth ymarfer ymchwil....70**
Caerdydd: Dilyn carfan Dechrau'n Deg .... 71
Islington: Casglu data ansoddol.... 72
Caerffili: Cynyddu dysgu.... 72
Tower Hamlets: Partneriaeth ymarfer / ymchwil .... 73

# Crynodeb

Mae'r achos dros gefnogi teuluoedd yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn, o'u cenhedlu hyd at bump oed, yn gryf. Mae plentyndod cynnar yn cael ei gydnabod fel cyfnod tyngedfennol, sy'n pennu datblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac ymddygiadol mewn ffyrdd sy'n cael effeithiau gydol oes. Gallai'r cymorth cywir i deuluoedd yn ystod y cyfnod hwn newid bywydau yn sylfaenol.

Ond mae tirwedd gwasanaethau cymorth ym maes mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn gymhleth ac yn aml yn dameidiog. Mae gan awdurdodau lleol, ynghyd â'u GIG a phartneriaid lleol eraill, y dasg o ddod â gwasanaethau a chymunedau lleol ynghyd i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael yr ymyrraeth gywir ar yr adeg gywir gan bobl sydd â'r lefel gywir o arbenigedd.

Mae tystiolaeth yn bwysig i wella gwasanaethau. Mae tystiolaeth yn helpu i ddewis ymyriadau sy'n debygol o wella canlyniadau plant. Gall ddangos effaith, ac a yw hyn oherwydd rhywbeth a wnaethoch chi yn hytrach na ffactorau eraill. Mae hefyd yn eich helpu i ddeall eich cyd-destun lleol, a pha fath o gefnogaeth sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer teuluoedd lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi deg mewnwelediad ar wasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar blaenllaw, yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r 20 ardal leol yng Nghymru a Lloegr a ddefnyddiodd offeryn cynllunio matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar EIF yn 2021. Darlunnir y negeseuon gyda dros 50 o enghreifftiau lleol ymarferol.

| | |
|---|---|
| **Mewnweledіad 1** | Ysgogi ansawdd cynllunio strategol lleol |
| **Mewnweledіad 2** | Cynllunio gyda'r adnodd lleol cyfan mewn golwg |
| **Mewnweledіad 3** | Cael yr arweinyddiaeth yn gywir |
| **Mewnweledіad 4** | Cefnogi cymunedau i ysgogi newid |
| **Mewnweledіad 5** | Cael y gorau o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth |
| **Mewnweledіad 6** | Gwneud i waith amlasiantaeth weithio |
| **Mewnweledіad 7** | Wynebu'r her o rannu data personol |
| **Mewnweledіad 8** | Gwybodaeth i deuluoedd: hawl nid rhodd |
| **Mewnweledіad 9** | Gwneud mwy i fesur canlyniadau a phrofiad |
| **Mewnweledіad 10** | Datblygu partneriaeth ymarfer ymchwil. |

Daw'r adroddiad i ben drwy nodi sut y dylai rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol ymateb wrth iddynt gynllunio ar gyfer adferiad Covid-19 a cheisio gwella gwasanaethau ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar:

## 1. Cynllunio systemau lleol

Mae yna rai nodweddion allweddol wrth wraidd cynllunio amlasiantaeth lleol effeithiol ar gyfer systemau mamolaeth a blynyddoedd cynnar, y dylid eu hymgorffori yn y trefniadau lleol:

- **dealltwriaeth dda o ble rydych chi'n dechrau**, gan ddefnyddio asesiad o anghenion y boblogaeth, asesiad o systemau lleol, a dadansoddiad o dystiolaeth ac ymchwil arall sy'n bodoli
- **strwythurau a phrosesau partneriaeth clir a chynhwysol** ar gyfer cyflawni strategaeth partneriaethau lleol, gan bwysleisio cyfranogiad teuluoedd a chymunedau
- **dulliau cyffredin sy'n cefnogi gweithio cydgysylltiedig,** gan gynnwys ffocws ar lwybrau cymorth amlasiantaeth, prosesau cyffredin, rhannu data personol, gwybodaeth i deuluoedd, datblygu'r gweithlu a chysoni adnoddau
- **dulliau cyffredin o ddysgu, ac o fesur gwelliant,** gan gynnwys canlyniadau diffiniedig, offer mesur dilys a dibynadwy, cydweithredu ar werthuso, a chreu diwylliant dysgu lleol.

## 2. Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant ar lefel genedlaethol

Mae llawer o'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn yn anodd eu datrys drwy weithredu lleol yn unig. Mae rôl bwysig i lywodraethau cenedlaethol o ran dileu rhwystrau i ddatblygu systemau lleol effeithiol, a chreu'r amodau sy'n galluogi'r gwaith o gynllunio systemau lleol yn dda drwy:

- **feithrin gallu lleol** trwy ganolbwyntio'n benodol ar y swyddogaethau a'r rolau allweddol sy'n llywio'r gwaith o gynllunio systemau lleol; ac ymrwymiad i gyllid ar draws y blynyddoedd ariannol er mwyn galluogi recriwtio lleol da a sefydlogrwydd ymysg y gweithlu
- **cael gwared ar rwystrau** drwy ddarparu arweiniad cenedlaethol ar asesu anghenion y boblogaeth, cynllunio'r gweithlu, rhannu gwybodaeth, a chanlyniadau
- **canolbwyntio ar dystiolaeth** trwy gymell y defnydd o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, hyrwyddo llwybrau cymorth, rhoi'r Rhwydwaith What Works ar waith, trefnu perthnasoedd â phartneriaid academaidd, hyrwyddo'r defnydd o offer mesur dilys a dibynadwy, ac ystyried sut y gallai fframweithiau arolygu a rheoleiddio wneud mwy i atgyfnerthu defnydd lleol o dystiolaeth
- **codi a chynnal proffil** mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar mewn polisi cenedlaethol, gan ddangos pwysigrwydd y cysylltiad rhwng mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a'r berthynas â pholisi teuluol ehangach; symleiddio'r fanyleb, y cyllid a'r gofynion adrodd ar fentrau ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar; a'i gwneud yn ofynnol i ardaloedd lleol gyhoeddi strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol sy'n ymateb i bolisi cenedlaethol, ac sydd wedi'i seilio ar y ffactorau llwyddiant ar gyfer cynllunio systemau lleol.

Mae hwn yn asesiad gonest o rai o'r cryfderau a'r heriau sy'n wynebu ardaloedd lleol wrth iddynt geisio adnewyddu gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yng nghyd-destun pandemig byd-eang a degawd o fuddsoddiad cyfyngedig.

Mae partneriaid lleol yn aml yn angerddol ac yn arloesol fel y dengys yr enghreifftiau lleol niferus. Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar yn ymrwymiad oes i lawer o'r bobl a gymerodd ran wrth ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd, o Ynys Môn i Warrington, ac o Calderdale i Wrecsam.

Ac eto mae partneriaid lleol hefyd dan bwysau ac yn wynebu symptomau lleol heriau cenedlaethol. Mae problemau sylfaenol i ymdrin â nhw ar lefel genedlaethol os yw ardaloedd lleol i ymateb yn effeithiol i gyd-destun heriol parhaus anghydraddoldebau, cyfyngiadau ar adnoddau a chanlyniadau'r pandemig.

Os ydym am wireddu potensial ymyrraeth gynnar yn y cyfnod holl bwysig hwn yn natblygiad plentyn, yna bydd angen ymateb cydgysylltiedig, hirdymor gydag adnoddau priodol, gan weithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol.

# Rhagymadrodd

> *Buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yw un o'r pethau doethaf y gallai gwlad ei wneud. Mae profiadau plentyndod cynnar yn cael effaith ddofn ar ddatblygiad yr ymennydd – gan effeithio ar ddysgu, iechyd, ymddygiad ac yn y pen draw, ar gyfleoedd gydol oes.*
>
> **Banc y Byd**[1]

Mae'r achos dros gefnogi teuluoedd yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn, o'r cenhedlu hyd at bump oed, yn gryf. Caiff plentyndod cynnar ei gydnabod fel cyfnod tyngedfennol, sy'n pennu datblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol, ac ymddygiadol mewn ffyrdd sy'n cael effeithiau gydol oes. Gallai'r cymorth cywir i deuluoedd yn ystod y cyfnod hwn newid bywydau yn sylfaenol.

Ond mae tirwedd gwasanaethau cymorth ym maes mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn gymhleth ac yn aml yn dameidiog. Bydd bron pob teulu yn dod i gysylltiad â bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac ymarferwyr mewn lleoliadau addysg gynnar a gofal plant. Bydd rhai yn dod i gysylltiad â chefnogwyr sy'n gymheiriaid, sefydliadau gwirfoddol, canolfannau plant, neu ganolfannau teulu. Efallai y bydd angen cymorth mwy arbenigol ar rai hefyd, er enghraifft rhieni neu blant sy'n wynebu risg, sy'n cael trafferth gydag iechyd meddwl, neu sydd angen cymorth gyda thai neu gyflogaeth.

Mae gan awdurdodau lleol, ynghyd â'u GIG a phartneriaid lleol eraill, y dasg o ddod â gwasanaethau lleol a chymunedau ynghyd i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael yr ymyriad cywir ar yr adeg gywir gan bobl sydd â'r lefel gywir o arbenigedd. Mae gwneud i'r system leol hon weithio'n dda i blant a'u teuluoedd yn dibynnu ar drefniadau cydgysylltiedig ar gyfer strategaeth a chynllunio, gan arwain newid, darparu cymorth effeithiol, a dysgu o gynnydd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi 10 mewnwelediad ar wasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar blaenllaw yng Nghymru a Lloegr, yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o 20 ardal leol yng Nghymru a Lloegr a ddefnyddiodd offeryn cynllunio matrics[2] aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar EIF yn 2021.

## Cynllunio gwasanaethau plentyndod cynnar

Mae gan EIF ddiddordeb hirsefydlog mewn cefnogi ardaloedd lleol i ddefnyddio tystiolaeth i wella ymyrraeth gynnar effeithiol ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.

Yn 2018 fe wnaethom gyhoeddi ein dadansoddiad[3] ynghylch pam nad yw'r DU wedi sylweddoli'n gyson eto y manteision y mae ymyrraeth gynnar yn eu cynnig i deuluoedd. Fe wnaethom nodi sut y gallai'r DU ddatblygu system sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar drwy fynd i'r afael â phum rhwystr arbennig o anhyblyg rhag gweithredu ymyrraeth gynnar ar raddfa fawr: cyllid annigonol; cyllid tymor byr; cyfrifoldeb tameidiog; peidio â chyflawni'r hyn sy'n gweithio; a bylchau mewn tystiolaeth.

Y flwyddyn ganlynol lansiwyd Academi Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar[4] i ymateb yn uniongyrchol i'r rhwystrau hyn ar lefel leol. Cefnogodd yr Academi dimau o arweinwyr mamolaeth

1 Ar gael yn https://www.worldbank.org/en/topic/earlychildhooddevelopment#1
2 Gweler https://www.eif.org.uk/resource/eif-maturity-matrix-maternity-and-early-years
3 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/realising-the-potential-of-early-intervention
4 Gweler https://www.eif.org.uk/resource/early-years-transformation-academy-prospectus-201920

a blynyddoedd cynnar i wneud yr achos lleol dros pam mae buddsoddiad tymor canolig i hirdymor mewn gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar mor bwysig, ac i nodi ffyrdd o gydgysylltu a chryfhau cymorth i deuluoedd. Cyhoeddwyd gwerthusiad ffurfiannol, annibynnol gennym[5] oedd yn pwysleisio pwysigrwydd dealltwriaeth eang o dystiolaeth, sy'n mynd y tu hwnt i'r 'prawf' calonogol o werthuso effaith ymyrraeth o ansawdd uchel, i dystiolaeth leol am anghenion cymunedol, profiad teuluol, sgiliau'r gweithlu, ansawdd gweithredu ymyriadau, a gwybodaeth ymarferwyr.

Yn ystod yr un cyfnod buom yn gweithio gyda 27 o ardaloedd awdurdodau lleol yn Lloegr fel rhan o raglen her cymheiriaid blynyddoedd cynnar y Gymdeithas Llywodraeth Leol,[6] gan helpu rhanddeiliaid lleol i gwblhau hunanasesiad o systemau gan ddefnyddio matrics aeddfedrwydd a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad cynnar sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Yn 2020 cyhoeddwyd yr adolygiad cyntaf yn ein cyfres Cynllunio Plentyndod Cynnar, ar ddysgu o ymarfer ac ymchwil am ganolfannau plant a hybiau teulu[7] yn Lloegr. Dangosodd yr adolygiad sut y parhaodd y rhwystrau a nodwyd yn 2018 i effeithio ar drefniadau lleol ar gyfer ymyrraeth gynnar yn y blynyddoedd cynnar, gyda thystiolaeth ymchwil gyfoes gyfyngedig ar ganolfannau a hybiau plant; arbrofi ac arloesi lleol eang ond diffyg metrigau cyson i farnu effeithiolrwydd; a chynnydd yn y defnydd o ymyriadau ar sail tystiolaeth oedd mewn perygl oherwydd pwysau ariannu a diffyg gwerthuso lleol cadarn.

Nododd adolygiad 2020 yr angen i gefnogi cynllunio systemau lleol, yn enwedig i helpu ardaloedd lleol i archwilio sut mae eu dulliau presennol yn cyflawni a nodi sut i gynyddu effaith leol eu gwasanaethau. Mae hyn wedi dylanwadu ar ddyluniad y Broses Datblygu Canolfannau Teulu[8] sy'n cael ei ddefnyddio gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hybiau Teulu i gefnogi ardaloedd lleol yn Lloegr i greu hybiau teulu. Amlygodd adolygiad 2020 hefyd yr angen am fetrigau cyffredin ar gyfer asesu'r system leol, a allai gefnogi meincnodi a chreu llinell sylfaen ar gyfer asesu cynnydd yn sgil Covid-19.

Datblygwyd y Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gan EIF fel ymateb i'r heriau hyn, ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi partneriaid lleol i asesu eu system blynyddoedd cynnar a nodi meysydd i'w gwella.

## Gosod llinell sylfaen wedi ei dilysu

Ym mis Tachwedd 2020 gwahoddodd EIF ardaloedd lleol yng Nghymru a Lloegr i ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar i gefnogi eu gwaith wrth gynllunio gwasanaethau plentyndod cynnar, ac i osod llinell sylfaen leol a oedd yn ystyried effaith y pandemig. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r themâu allweddol sy'n codi o'r gwaith hwn.

Darparodd EIF arolwg ar-lein ar gyfer casglu barn rhanddeiliaid lleol, cyngor ar sut i gysylltu â rhanddeiliaid, a phroses yn cynnwys panel annibynnol gyda chyffyrddiad ysgafn ar gyfer dilysu hunanasesiadau lleol. Cymerodd ugain o ardaloedd lleol ran; deg yn Lloegr a deg yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r ugain o hunanasesiadau ardal lleol i roi mewnwelediad ar aeddfedrwydd systemau mewn gwasanaethau plentyndod cynnar ledled Cymru a Lloegr. Mae'n nodi'r heriau i gynnydd a adroddwyd gan yr ardaloedd lleol ac yn nodi enghreifftiau o arfer sy'n dangos sut mae ardaloedd lleol unigol wedi ymateb i'r heriau hyn.

Bwriedir i'r adroddiad fod yn ddefnyddiol i arweinwyr lleol sy'n ceisio datblygu dull mwy effeithiol ac integredig o ymdrin â'u trefniadau cymorth ar gyfer plentyndod cynnar. Mae ganddo oblygiadau

5 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/evaluation-of-the-early-years-transformation-academy

6 Gweler https://www.local.gov.uk/about/news/local-government-early-years-peer-review-programme-hailed-independent-evaluation

7 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

8 Gweler https://www.nationalcentreforfamilyhubs.org.uk/toolkits/the-family-hub-development-process/

hefyd ar gyfer llunio polisïau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr o ran sut y gallai llywodraeth greu'r amodau i newid lleol lwyddo.

## Anghyfartaledd yn ystod y pandemig ac adferiad

Ni chafodd profiadau'r ugain ardal leol a gymerodd ran eu diffinio gan bandemig Covid-19, ond cafodd effaith sylweddol ar y cyd-destun yr oeddent yn gweithredu ynddo, gan gynnwys ar gapasiti ar gyfer cynllunio strategol a'r galw am gymorth i deuluoedd, ac argaeledd y cymorth hwnnw.

Mae'n amlwg fod y pandemig wedi cael canlyniadau anghyfartal i deuluoedd a chymunedau o ran iechyd, a ffactorau economaidd a chymdeithasol. Mae rhai plant mewn perygl o effeithiau hirdymor ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, yn enwedig pan fyddant yn byw gyda lefelau uchel o bryder neu brofedigaeth, neu mewn amgylchiadau o anhrefn teuluol, cam-drin, neu galedi economaidd. Ond nid yw effaith hirdymor yn anochel, oherwydd gallai'r mathau cywir o addasiadau dros dro a chymorth parhaus liniaru hyn a darparu cyfleoedd i blant difreintiedig ddal i fyny.

Nid tasg syml yw darparu'r newidiadau a'r gefnogaeth gywir. Roedd anghydraddoldebau'n codi cyn i'r pandemig daro. Roedd cyfraddau tlodi plant yn ôl i'w lefelau cyn 2010 gyda thros bedair miliwn o blant wedi'u heffeithio, ac roedd cyfraddau tlodi plant ar eu huchaf ar gyfer plant oedd yn byw mewn teuluoedd di-waith – mwy na 70 y cant.[9] Roedd gwahaniaethau mawr (a chynyddol) rhwng plant mewn ardaloedd mwy a llai difreintiedig ar draws llawer o ddangosyddion iechyd, gan gynnwys marwolaethau babanod, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, pydredd dannedd, a gordewdra.[10] Effeithiodd salwch cyfyngol hirdymor, gan gynnwys asthma, epilepsi, a diabetes ar fwy na miliwn o blant yn Lloegr.[11] Roedd risgiau teuluol i ddatblygiad cynnar plant fel camddefnyddio sylweddau, trais domestig ac anhwylderau iechyd meddwl yn fwy cyffredin mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan dlodi ac amddifadedd,[12] a chanfu Mynegai Plant Agored i Niwed y Comisiynydd Plant fod 830,000 o blant wedi profi cam-drin domestig yn eu cartrefi'r llynedd. Roedd cyfradd amledd anawsterau iaith cynnar yn y DU rhwng 5% ac 8% o'r holl blant, a thros 20% ar gyfer y rhai a oedd yn cael eu magu mewn cartrefi incwm isel.[13] Cyn-Covid, roedd un o bob pump o blant 2.5 oed yn colli eu harchwiliad datblygiad cyffredinol, y bwriedir iddo nodi anghenion iechyd sy'n dod i'r amlwg a chynnig cymorth amserol.[14]

Mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus lleol yn cynllunio gwasanaethau plentyndod cynnar yn holl bwysig o ystyried y cyd-destun hwn o anghydraddoldebau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, a phryderon hirdymor y sector ynghylch adnoddau ar draws llywodraeth leol, y GIG, ysgolion a lleoliadau. Mae'r pandemig yn gwaethygu'r heriau ac yn creu brys newydd, ond mae hanfodion cynllunio a darparu system famolaeth a blynyddoedd cynnar leol gydlynol yn aros yr un fath.

9 Marmot, M. et al. (2020) Health Equality in England: The Marmot Review 10 Years On. Llundain: Institute of Health Equality http://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/marmot-review-10-years-on/the-marmot-review-10-years-on-full-report.pdf

10 Marmot, M. et al. (2020) Health Equality in England: The Marmot Review 10 Years On. Llundain: Institute of Health Equality. http://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/marmot-review-10-years-on/the-marmot-review-10-years-on-full-report.pdf ; gellir gweld ardaloedd lleol a gwahaniaethau o ran amddifadedd yn ystadegau PHE yma https://fingertips.phe.org.uk/profile/child-health-profiles/supporting-information/early-years

11 Gweler https://www.childrenscommissioner.gov.uk/vulnerability-in-numbers/groups/children-with-a-limiting-longstanding-illness/

12 Gweler https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/03/CCO-Health-Inequalities-Briefing.pdf

13 Gweler https://www.eif.org.uk/report/language-as-a-child-wellbeing-indicator

14 Er y barnwyd nad oedd 16% o'r plant yn yr archwiliad wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad ar gyfer yr oedran hwn https://www.gov.uk/government/statistics/child-development-outcomes-at-2-to-2-and-a-half-years-2019-to-2020

# Rôl tystiolaeth wrth gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau

Mae tystiolaeth yn bwysig i wella gwasanaethau. Mae tystiolaeth yn dangos a ydych wedi cael effaith, ac a yw hyn oherwydd rhywbeth a wnaethoch yn hytrach na ffactorau eraill. Mae'n eich helpu hefyd i ddeall eich cyd-destun lleol, a pha fath o gefnogaeth sy'n debygol o fod yn addas ar gyfer teuluoedd lleol.


Ceir gwahanol fathau o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r her o geisio gwella gwasanaethau lleol. Mae'r cwestiwn o beth sy'n gweithio i wella canlyniadau plant yn dibynnu ar sefydlu achosiaeth yn drylwyr trwy ddulliau arbrofol fel hap-dreialon rheoledig (RCTs) neu ddyluniadau lled-arbrofol. Mae'r math hwn o dystiolaeth effaith yn bwysig. Mae plant a theuluoedd sy'n derbyn ymyriadau y dangoswyd trwy brofion trylwyr eu bod wedi gwella canlyniadau yn fwy tebygol o elwa, ac i raddau mwy, na'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau eraill.

Ond nid yw gwella gwasanaethau mor syml â 'gwneud yr hyn sy'n gweithio'. Mae angen mathau eraill o dystiolaeth hefyd os yw ardaloedd lleol i gynnig gwasanaethau effeithiol i blant a theuluoedd, megis data am anghenion y boblogaeth leol, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gwasanaethau pwy sy'n eu cyrraedd neu pa rai sydd ar goll, a sut beth yw cymorth o safbwynt teuluoedd. Efallai na fydd y mathau hyn o dystiolaeth yn 'profi' yr hyn sy'n gweithio, ond ni ellir cael prawf na gwelliant heb y dystiolaeth gyd-destunol hon.

Mae triongli gwahanol ffynonellau gwybodaeth o fewn barn broffesiynol strwythuredig yn rhan hanfodol o wneud penderfyniadau mewn perthynas ag arfer uniongyrchol a chomisiynu a dylunio gwasanaethau.

**FFIGUR 1**

Defnyddio a chynhyrchu tystiolaeth – cyfuno canfyddiadau ymchwil a data lleol



# Y matrics aeddfedrwydd a thystiolaeth

Offeryn cynllunio system ymyrraeth gynnar amlasiantaeth yw'r matrics aeddfedrwydd sy'n gofyn i randdeiliaid lleol adolygu tystiolaeth leol ar gyfer effeithiolrwydd eu trefniadau lleol i wella canlyniadau plant, a defnyddio eu profiad i gyrraedd consensws am heriau lleol a blaenoriaethau ar gyfer gwella.


Mae matricsau aeddfedrwydd EIF wedi'u cynllunio i helpu ardaloedd lleol i ganolbwyntio ar sut y maent yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth i gyflwyno system ymyrraeth gynnar effeithiol. Weithiau mae hyn yn ymwneud â chymhwyso canfyddiadau ymchwil datblygiad plant i'r cyd-destun lleol, neu gomisiynu ymyriad sydd wedi dangos trwy werthusiad cadarn y gallai wella canlyniadau plant. Yr un mor bwysig yw'r hyn y mae rhanddeiliaid lleol yn ei wneud i gasglu tystiolaeth leol am sut y defnyddir adnoddau, pa grwpiau poblogaeth sy'n gwneud waethaf, neu farn teuluoedd am y trefniadau lleol. Mae'r broses o ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd yn rhoi strwythur ar gyfer cynllunio systemau lleol sy'n tynnu ar yr holl wahanol fathau o dystiolaeth, ac sy'n pwysleisio profiad byw a gwybodaeth broffesiynol.

Mae'r matrics yn nodi pedwar dimensiwn system ymyrraeth gynnar leol sy'n gweithio'n dda:

1. **CYNLLUNIO:** Y trefniadau ar gyfer cynllunio'r system cymorth lleol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio data am anghenion y boblogaeth, ac adnoddau ariannol a dynol.
2. **ARWAIN:** Sut mae strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael ei llywio gan drefniadau partneriaeth strategol a sut mae'r gymuned leol yn cael ei chynnwys.
3. **CYFLWYNO:** Sut mae gwasanaethau gweithredol yn cael eu trefnu mewn ffordd gydlynol i ddarparu cymorth effeithiol i deuluoedd.
4. **GWERTHUSO:** Sut mae cynnydd mewn canlyniadau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael ei fesur, sut brofiad yw cymorth o safbwynt teuluoedd, a sut mae partneriaid lleol yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth.

**FFIGUR 2**

Matrics aeddfedrwydd EIF: offeryn cynllunio system ymyrraeth gynnar




Gellir defnyddio'r matrics i osod llinell sylfaen ac olrhain cynnydd dros amser. Gan weithio ar y cyd, mae rhanddeiliaid lleol sy'n cynrychioli gwasanaethau a'r gymuned yn cwblhau hunanasesiad, gan ddefnyddio disgrifyddion i nodi lefelau cynnydd o'r sylfaenol i'r aeddfed.

**FFIGUR 3**

Lefelau cynnydd ar draws matrics aeddfedrwydd EIF

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| **CYNNYDD SYLFAENOL** | **CYNNYDD DECHREUOL** | **CYNNYDD SYLWEDDOL** | **AEDDFED** |
| Yr egwyddor wedi'i derbyn ac ymrwymiad i weithredu | Datblygiad dechreuol | Cyflawnwyd y canlyniadau dechreuol ac mae deilliannau cadarnhaol yn amlwg | Arfer da wedi'i wreiddio, a phobl eraill yn dysgu o'r hyn a gyflawnwyd |

Mae fersiynau o'r Matrics Aeddfedrwydd Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar wedi'u datblygu ar gyfer cyd-destun Cymru a Lloegr, ac maent am ddim i unrhyw ardal leol eu defnyddio.[15]

## Cyd-destun polisi

Mae gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth polisi yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru diffinnir y blynyddoedd cynnar fel y cyfnod o fywyd o'r cyfnod cyn geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed. Yn Lloegr mae'n cynnwys plant hyd at ddiwedd y flwyddyn ysgol pan fyddant yn troi'n 5 oed.

Yng Nghymru, mae'r blynyddoedd cynnar yn un o bum blaenoriaeth drawsbynciol a enwir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru Ffyniant i bawb (2017), gyda strategaeth genedlaethol wedi'i nodi gyntaf yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013).

Ail-gadarnhawyd ymrwymiad i raglen hirsefydlog Dechrau'n Deg yn *Rhaglen Lywodraethu 2021-26*,[16] sydd, ochr yn ochr â Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar[17] a Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, yn gosod datganiad clir o bwyslais cenedlaethol ar ddefnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddarparu ymyrraeth gynnar gydgysylltiedig i blant. Mae fframwaith polisi cenedlaethol Cymru yn cynnwys Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.[18]

Yn Lloegr, mae Cynllun Hirdymor y GIG yn gofyn am ganolbwyntio ar ansawdd gofal a gwella canlyniadau ar gyfer iechyd plant, gan ragweld 'dechrau cryf mewn bywyd i blant'. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wella canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant hyd at 5 oed er mwyn cynyddu symudedd cymdeithasol, ac mae wedi cyhoeddi gweledigaeth 'dechrau bywyd'[19] gan addo ffocws newydd ar wasanaethau integredig yn ystod beichiogrwydd a dwy flynedd gyntaf bywyd plentyn.

Mae Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd yn Lloegr yn cynnwys dangosyddion sy'n berthnasol i feichiogi hyd at 5 oed, gan gynnwys canlyniadau iechyd plant a datblygiad plant yn 2 a hanner oed, ac yn 5 oed. Gallai ardaloedd lleol ddefnyddio pa bynnag raglenni a ddewisant, gyda llai o argymhellion canolog nag yng Nghymru.

Mae strategaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn ymrwymo adnoddau i'r blynyddoedd cynnar trwy eu Rhaglenni Plant Iach.

15 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/resource/eif-maturity-matrix-maternity-and-early-years

16 Ar gael yn https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad

17 Gweler https://www.exchangewales.org/cy/

18 Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/early-years-outcomes-framework.pdf

19 Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-best-start-for-life-a-vision-for-the-1001-critical-days

## Mentrau a pholisïau mamolaeth a blynyddoedd cynnar allweddol yn Lloegr

**Trawsnewid Mamolaeth GIG Lloegr:** ei nod yw darparu gofal o ansawdd uwch, mwy diogel a mwy personol i fenywod, yn ogystal â gwella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

**Partneriaeth rhwng Nyrsys a Theuluoedd:** rhaglen ddwys o ymweliadau cartref a gomisiynwyd gan rai awdurdodau lleol, gydag uned gymorth genedlaethol a ariennir gan y llywodraeth.

**Y Dechrau Gorau i Fywyd:** cynlluniau newydd ar gyfer integreiddio a gwella gwasanaethau ar gyfer y 1001 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn; mae'n cynnwys gofyniad i bob ardal leol ddatblygu strategaeth Dechrau am Oes.

**Rhaglen Plant Iach:** gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol a ddarperir gan dimau o ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol, wedi'u comisiynu gan awdurdodau lleol. Mae'n darparu o leiaf bum archwiliad gan ymwelydd iechyd cyn i'r plentyn gyrraedd 2 a hanner oed. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn eu hardal.

**Canolfannau Plant Cychwyn Cadarn:** mannau lleol y mae gwasanaethau plentyndod cynnar yn cael eu darparu ynddynt neu eu cyfeirio atynt, gan gynnwys addysg gynnar a gofal plant; swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol; gwasanaethau iechyd; hyfforddiant a gwasanaethau cyflogaeth; a gwasanaethau gwybodaeth a chyngor.

**Dysgu cynnar a gofal plant:** a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer y plant 2 oed mwyaf difreintiedig, ac i blant 3 oed ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio.

**Cwricwlwm Newydd Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar:** ar waith ym mhob lleoliad blynyddoedd cynnar o fis Medi 2021.

**Rhaglen Cefnogi Teuluoedd** (*Troubled Families* gynt)**:** yn cefnogi teuluoedd ag anghenion lluosog, gan gynnwys yn ystod cyfnod y beichiogrwydd a phlant dibynnol hyd at 18 oed.

**Rhaglen Hybiau Teuluol:** Rhaglen gan y llywodraeth i greu hybiau teuluol ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn gwella mynediad at gymorth a chefnogaeth i deuluoedd, cryfhau'r cysylltiad rhwng gwahanol wasanaethau, a blaenoriaethu perthnasoedd a chryfderau teuluol. Cefnogir y rhaglen gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Hybiau Teuluol, ac mae hefyd yn cynnwys Tyfu i Fyny'n Dda, sy'n archwilio ffyrdd o wella'r gwaith o rannu gwybodaeth.

**Rhaglen Lleihau Gwrthdaro ymysg Rhieni:** mae'n cefnogi'r defnydd o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau gwrthdaro o dan drothwy cam-drin domestig.

**Cynllun Gweithredu Symudedd Cymdeithasol y Llywodraeth:** gwaith ar leferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ymgyrch *Hungry Little Minds* sy'n wynebu rhieni, rhaglen grantiau'r sector gwirfoddol, Llwybr SLC integredig model Iechyd Cyhoeddus Lloegr, ac offeryn newydd ar gyfer nodi anghenion SLC plant 2 oed.

## Mentrau a pholisïau mamolaeth a blynyddoedd cynnar allweddol yng Nghymru

**Gofal Mamolaeth yng Nghymru – Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol 2019-24:** Mae hon yn rhagweld timau amlbroffesiynol sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y teulu, ac mae'n cynnwys llwybrau clinigol ar gyfer Cymru gyfan yn ymwneud â gofal iechyd meddwl amenedigol.

**Y 1000 Diwrnod Cyntaf:** rhaglen wella genedlaethol a arweinir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n ceisio lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a sicrhau canlyniadau gwell i blant yn y cyfnod rhwng eu cenhedlu a dwy flwydd oed.

**Rhaglen Plant Iach Cymru:** rhaglen gyffredinol o dan arweiniad ymwelyddion iechyd sy'n cynnig isafswm o naw ymweliad â theuluoedd cyn bod y plentyn yn 4 oed. Mae'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ymwelwyr iechyd ar gyfer eu rhanbarthau.

**Rhaglen Dechrau'n Deg:** mae hon yn darparu ymweliadau iechyd manylach, gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 flwydd oed, a rhianta, a rhaglenni lleferydd ac iaith i deuluoedd mewn ardaloedd lleol difreintiedig. Mae'n cynnwys rhywfaint o allgymorth i deuluoedd ag anghenion a nodwyd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.

**Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar (EYITP):** prosiect cyd-adeiladu a ariennir gan y llywodraeth sy'n archwilio sut y gellir ad-drefnu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn lleol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Mewn naw o ardaloedd lleol *Pathfinder* i ddechrau, gyda'r bwriad o gyflwyno dysgu fesul cam ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Dysgu cynnar a gofal plant:** hawl gyffredinol i addysg gynnar ar gyfer plant 3-4 oed cyn oedran ysgol statudol. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu a yw'r ddarpariaeth hon mewn meithrinfeydd sy'n cael eu cynnal gan y wladwriaeth, sydd fel arfer yn gysylltiedig ag ysgolion, neu mewn meithrinfeydd yn y sector preifat neu'r trydydd sector.

**Cwricwlwm Pob Oed Cymru 2022:** canllawiau i'r cwricwlwm newydd sydd ar gael o Ionawr 2020, yn disodli Fframwaith y Cyfnod Sylfaen presennol ar gyfer plant 3 i 7 oed.

**Rhaglen lywodraethu 2021-26:** mae'n addo cefnogaeth barhaus i raglenni blaenllaw Dechrau'n Deg, gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer mwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar.

**Ymgyrch ac adnoddau 'Magu plant. Rhowch amser iddo' y Llywodraeth:** mae'n darparu gwybodaeth a chymorth cyffredinol i deuluoedd.

**Beth am Siarad â Fi:** rhaglen genedlaethol a lansiwyd ym mis Tachwedd 2020, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu; gwella'r gwaith o adnabod anghenion SLC mewn plant 0 i 4 oed ac 11 mis oed; diweddaru canllawiau ar y dystiolaeth ar gyfer ymyriadau SLC; uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ymdrin ag anghenion SLC; ac ymgorffori SLC ym mholisïau Llywodraeth Cymru.

**Teuluoedd yn Gyntaf:** rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar a gweithio amlasiantaeth. Mae'n canolbwyntio ar gymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion.

# Cysylltu â rhanddeiliaid

Gan ymrwymo i ddefnyddio matrics aeddfedrwydd EIF mae'n ddatganiad pwysig o fwriad ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar i blant a theuluoedd ym mhob un o'r 20 ardal leol a gymerodd ran. Mae'n dangos cydnabyddiaeth o ba mor bwysig yw blynyddoedd cynnar bywyd i iechyd a lles gydol oes, a sut y gallai ymyrryd yn gynnar leihau ffactorau risg a chynyddu ffactorau amddiffynnol ym mywyd plentyn.

Mae hefyd yn dangos ymrwymiad lleol i gymryd camau amlasiantaeth wrth gynllunio, arwain, darparu a gwerthuso'r system leol. Cwblhaodd yr ardaloedd lleol eu hymgysylltiad â rhanddeiliaid rhwng Rhagfyr 2020 a Mai 2021, er gwaethaf cyfyngiadau symud, cadw pellter cymdeithasol a blaenoriaethau brys oedd yn cystadlu â'i gilydd.

Mae systemau plentyndod cynnar yn gymhleth. Maent yn cynnwys llawer o wahanol randdeiliaid, gwasanaethau a sefydliadau ar draws addysg gynnar, gofal plant, iechyd, cymorth i deuluoedd, hyfforddiant a chyflogaeth, a gwybodaeth a chyngor.

## Sut roedd yn gweithio'n ymarferol

Cymerodd yr awdurdod lleol rôl cydlynydd ym mhob un o'r 20 ardal a gymerodd ran. Roedd y rôl hon yn cynnwys nodi rhanddeiliaid allweddol i gwblhau fersiwn arolwg ar-lein o'r matrics yn unigol; cynnull gweithdai rhanddeiliaid amlasiantaeth i adolygu canlyniadau'r arolwg ar-lein a chytuno ar gyfraddau cynnydd ar gyfer pob elfen o'r matrics; a chwblhau gweithlyfr y matrics i'w gyflwyno i EIF.

Roedd cyfranogiad yn y gwahanol gamau yn amrywio'n fawr ar draws yr ardaloedd lleol. Cwblhaodd rhai nifer fach o arolygon ar-lein ond roeddent yn cynnwys set ehangach o randdeiliaid yn y gweithdai; casglodd eraill nifer fawr o ymatebion unigol a mireinio hyn gyda grŵp gweithdy llai.

Rhan bwysicaf y broses oedd y gweithdai, a gynlluniwyd i ddod ag ystod o bobl ynghyd gyda phrofiadau a safbwyntiau gwahanol ar y system leol, gan ddefnyddio setiau amrywiol o dreiddgarwch i greu darlun llawnach. Anogwyd ardaloedd lleol i ddod â staff o rolau gweithredol a strategol at ei gilydd, ac i ddod o hyd i ffyrdd o gynrychioli safbwynt y rhieni a'r teulu.

Yng nghyd-destun y pandemig, roedd cyfraddau cyfranogiad yn y broses hunanasesu a chynllunio yn uchel. Yn gyffredinol, cwblhaodd 679 o bobl yr arolwg ar-lein a chymerodd 353 ran mewn gweithdai lleol a thrafodaethau grŵp. Er y collwyd rhai o fanteision gweithdai wyneb yn wyneb, roedd yn ymddangos bod cyfarfodydd ar-lein yn hwyluso ymgysylltu ehangach i rai.

Ledled Cymru a Lloegr, roedd cynrychiolaeth dda o'r rhai oedd yn gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar allweddol, gan gynnwys y gwasanaeth ymwelwyr iechyd, bydwreigiaeth a chanolfannau plant / Dechrau'n Deg a'r rhai oedd yn gweithio yn y sector gwirfoddol neu gymunedol.

Roedd yn llai tebygol y byddai uwch arweinwyr yn cymryd rhan weithredol, yn enwedig yng Nghymru. Dim ond mewn un o'r 20 ardal leol yr oedd rhieni'n ymwneud â'r cam hwn yn y broses. Roedd arweinwyr iechyd y cyhoedd hefyd yn amlwg yn absennol, gan adlewyrchu eu rôl allweddol mewn gwaith yn ymwneud ag adferiad o'r pandemig a'u gallu cyfyngedig ar gyfer gwaith cynllunio ehangach.

Mae rhai o'r themâu hyn yn cael eu codi yn y dadansoddiad diweddarach, yn arbennig rôl arweinwyr strategol fel uwch noddwyr a rôl llais y gymuned o fewn cynllunio lleol.

**TABL 1**

Cynrychiolaeth mewn gweithdai rhanddeiliaid

| | Cymru a Lloegr | | Cymru | | Lloegr | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rôl** | **Amlder** | **%** | **Amlder** | **%** | **Amlder** | **%** |
| Strategydd iechyd cyhoeddus | 4 | 20 | 1 | 10 | 3 | 30 |
| Cyfarwyddwr gwasanaethau plant / gofal cymdeithasol / addysg | 3 | 15 | 0 | 0 | 3 | 30 |
| Comisiynu gan awdurdodau lleol | | | | | 7 | 70 |
| Rheolwr awdurdod lleol / arweinydd tîm | 20 | 100 | 10 | 100 | 10 | 100 |
| Ymarferydd awdurdod lleol | 9 | 45 | 6 | 60 | 3 | 30 |
| Ymwelydd iechyd | 13 | 65 | 7 | 70 | 6 | 60 |
| Bydwraig / mamolaeth | 12 | 60 | 6 | 60 | 6 | 60 |
| Therapydd iaith a lleferydd | 9 | 45 | 6 | 60 | 3 | 30 |
| Grŵp comisiynu clinigol | | | | | 4 | 40 |
| Arweinwyr iechyd eraill | 12 | 60 | 6 | 60 | 6 | 60 |
| Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol | 15 | 75 | 6 | 60 | 9 | 90 |
| Canolfan plant / Canolfan i deuluoedd / Dechrau'n Deg | 14 | 70 | 10 | 100 | 4 | 40 |
| Ysgolion (gan gynnwys meithrinfeydd ysgol) | 8 | 40 | 4 | 40 | 4 | 40 |
| Lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill | 7 | 35 | 3 | 30 | 4 | 40 |
| Rhieni | 1 | 5 | 0 | 0 | 1 | 10 |
| Teuluoedd yn Gyntaf | | | 2 | 20 | | |

# Cynllunio

## Sut mae ardaloedd lleol yn bwrw ymlaen â strategaeth, comisiynu a chynllunio'r gweithlu


Mae dimensiwn matrics aeddfedrwydd y Cynllunio yn canolbwyntio ar y weledigaeth leol, y strategaeth a'r cynllun ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar gan gwmpasu tair elfen graidd:

1. beth yw'r weledigaeth, y strategaeth a'r cynllun lleol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a pha mor dda y mae anghenion y gymuned yn cael eu deall a'u defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu;
2. sut mae asiantaethau lleol yn mapio, cysoni a chyfuno adnoddau i gyflawni'r strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a blynyddoedd cynnar; a'r
3. trefniadau lleol ar gyfer sicrhau bod gan y gweithlu amlasiantaeth y sgiliau a'r gallu cywir i gyflawni'r strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a blynyddoedd cynnar.

Roedd mwyafrif yr ardaloedd lleol ar gamau sylfaenol neu gynnar eu taith gynllunio. Roedd hanner yr ardaloedd lleol a oedd yn defnyddio'r matrics aeddfedrwydd ar y lefel sylfaenol gan adlewyrchu eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn ac wedi ymrwymo i weithredu, ond nad oeddent wedi dechrau symud ymlaen eto. Cafodd mwyafrif y lleill eu graddio fel cynnydd cynnar, felly'n dechrau gweithredu ond heb weld y canlyniadau eto.

**FFIGUR 4**

Graddfeydd cynnydd y matrics aeddfedrwydd ar gyfer yr 20 ardal leol (Cymru a Lloegr) a gymerodd ran ar draws elfennau'r dimensiwn Cynllunio



# Mewnweledlad 1: Ysgogi ansawdd cynllunio strategol lleol

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried a yw strategaeth amlasiantaeth leol ar gyfer mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael ei datblygu neu yn ei lle; beth yw cwmpas strategaeth leol, ac i ba raddau y mae'n ystyried tystiolaeth ac anghenion y boblogaeth, gan gynnwys ar gyfer y rheini â nodweddion gwarchodedig; a yw'n gysylltiedig â strategaethau lleol ehangach; ac a yw'n cael ei chyflawni gan gynllun gweithredu.

Mae'r cwestiynau allweddol ar gyfer strategaeth leol yn ymwneud â swyddogaeth yn hytrach na ffurf: a oes dadansoddiad clir o ble mae pethau'n gweithio'n dda a lle mae angen iddynt wella? Beth mae cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn meddwl sydd bwysicaf? A yw penderfynwyr perthnasol wedi cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer newid, a sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r rhain? A oes trefniadau cadarn ar waith ar gyfer olrhain cynnydd a deall effaith? Ac a yw'r strategaeth leol yn cael ei chyfleu i'r set ehangach o randdeiliaid y mae'n berthnasol iddynt, a'i deall ganddynt?

Gallai strategaeth ysgrifenedig fod yn ffordd effeithiol o ddwyn ynghyd yr atebion i bob un o'r cwestiynau hyn. Ond y camau i ateb y cwestiynau hyn sy'n hanfodol er mwyn i strategaeth leol weithio. Mae hyn yn cynnwys:

- partneriaid a chymunedau yn cydweithio ar ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth
- asesiad o system bartneriaeth, trefniadau llywodraethu diffiniedig
- proses i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu
- cynllun gweithredu
- proses ar gyfer mesur a gwerthuso cynnydd
- a chynllun ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol.

Dyma gydrannau strategaeth leol effeithiol, a gallai cyhoeddi crynodeb cryno a hygyrch o'r rhain ar ffurf dogfen strategaeth ysgrifenedig eu hategu drwy ddangos pwysigrwydd yr agenda hon.

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Caerffili: Gweledigaeth ar gyfer newid

Bu Caeffili'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu Model Rhesymeg Blynyddoedd Cynnar a ddefnyddiodd strwythur theori newid i ddisgrifio'r heriau presennol a nodi dull integredig newydd o wella gwasanaethau a chanlyniadau.

Roedd y dull yn ymateb i adborth gan deuluoedd am yr angen am gymorth mwy unigolyddol, a phryderon lleol am anghydraddoldeb, diffyg cysondeb a gweithio mewn seilos.

Disgrifiodd Model Rhesymeg y Blynyddoedd Cynnar weledigaeth o un tîm gwasanaethau blynyddoedd cynnar a oedd yn rhannu data a gwneud penderfyniadau, ac yn canolbwyntio ar nodi ac ymdrin ag anghenion yn gynnar, a chefnogi teuluoedd i reoli penderfyniadau. Disgrifiodd hefyd fanteision hirdymor i deuluoedd, staff, ac effeithiolrwydd systemau yn ehangach.

ASTUDIAETH ACHOS

## Islington: Ffactorau straen a gwytnwch

Roedd gan Islington weledigaeth amlasiantaeth ar gyfer gwasanaethau plentyndod cynnar, yn seiliedig ar leihau straen a meithrin gwytnwch i deuluoedd er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Disgrifiwyd elfennau oedd yn achosi straen fel 'ffactorau a allai wneud magu plant, perthnasoedd a datblygiad iach yn fwy anodd', a ffactorau gwytnwch fel y rhai sy'n 'grymuso a galluogi teuluoedd i gydweithio ag eraill i reoli'r anawsterau yn eu bywydau.' Ysbrydolwyd y dull hwn gan waith *Better Start Blackpool*.

ASTUDIAETH ACHOS

## Warrington: Dechrau o dystiolaeth yr ymchwil

Roedd dull system gyfan Warrington o wella'r broses o nodi a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr, wedi'i ddogfennu o dystiolaeth ymchwil sy'n dangos pwysigrwydd enfawr y 17 mis cyntaf wrth bennu iaith ddiweddarach, a rôl y dysgu yn y cartref. Roedd tystiolaeth ymchwil hefyd yn effeithio ar y dewis o offer asesu.

Ar draws yr 20 ardal leol gan ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd, ychydig oedd â strategaethau amlasiantaethol ysgrifenedig cyfredol yn benodol ar gyfer plentyndod cynnar yn yr ardal leol. Roedd rhai meysydd yn gwneud cynnydd da heb hyn, ond i lawer roedd diffyg strategaeth benodol yn arwydd o ddiffyg eglurder ynghylch blaenoriaethau neu ddiffyg data am sut roedd pethau'n gweithio ar hyn o bryd.

- *'Mae yna ddiwylliant o wneud pethau'n gyflym, yn hytrach na chymryd amser i gamu'n ôl, deall yr angen, myfyrio a gweld beth sy'n digwydd ar draws y system i ddiwallu'r anghenion ac osgoi dyblygu.'*
- *'Gall y Bartneriaeth Gofal Integredig ganolbwyntio'n ormodol ar oedolion, er enghraifft, y meysydd blaenoriaeth a nodir yw diabetes ac eiddilwch – nid oes yr un ohonynt yn canolbwyntio ar y plentyn.'*
- *'Mae cynllunio ar gyfer canlyniadau blynyddoedd cynnar a mamolaeth da yn cael ei ystyried yn bwysig. Mae cyfathrebu a chydweithio rhwng y blynyddoedd cynnar a mamolaeth wedi gweld gwelliant gwirioneddol ac mae blaenoriaethau wedi'u cysoni. Mae llawer o waith yn cael ei wneud. Ond nid oes gennym un strategaeth gynhwysfawr. O ganlyniad, efallai nad yw partneriaid ehangach ar hyn o bryd mor wybodus am y gwaith sy'n cael ei gynllunio a'i wneud.'*
- *'Perygl o orlwytho gyda gormod o strategaeth a diffyg cydgysylltu. Mae angen mapio strategaethau.'*
- *'Mae'r strategaeth, fel y mae'n bodoli, yn eistedd o dan y bwrdd partneriaeth, ac felly'n ddarostyngedig i anghenion y bwrdd hwnnw. Mae'n debyg fod angen strategaeth benodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sy'n ymdrin ag anghenion teuluoedd a phlant (yn hytrach nag anghenion y sefydliadau). Un flaenoriaeth amlwg yw cael cynllun strategol ar y cyd, wedi'i seilio ar asesiadau lleol o anghenion teuluoedd, sy'n bwydo i mewn i fframwaith ar gyfer cynllunio.'*
- *'Mae angen cael partneriaid i gytuno ar un strategaeth, blaenoriaethau a nod – anodd blaenoriaethu'r gwaith hwn gyda'r pandemig presennol.'*
- *'Ddim yn cael ei yrru o lefel strategol uchel ar hyn o bryd. Gwahanol flaenoriaethau a chymhellion i bob partner'.*

Nododd y rhan fwyaf o ardaloedd lleol y byddai creu strategaeth ysgrifenedig yn gam cadarnhaol ymlaen. Yn ôl hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF,[20] gallai 17 o'r 20 ardal leol elwa o ganolbwyntio ar ddatblygu strategaeth leol. Roedd angen i 12 egluro eu nodau strategol, ac angen i 11 symud drwy'r dilyniant o gamau a fyddai'n arwain at strategaeth leol benodol. Roedd y dilyniant hwn yn cynnwys, er enghraifft, cadarnhau'r trefniadau llywodraethu a fyddai'n goruchwylio cynnydd, defnyddio data lleol cyfredol ar draws partneriaid i ddeall anghenion newidiol y boblogaeth – yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig – a chysylltu â rhanddeiliaid wrth adolygu data a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

## Gyrwyr polisi cenedlaethol

Mae strategaethau partneriaeth lleol yn ymateb yn gyffredinol i ddisgwyliadau a osodir yn genedlaethol, boed hynny ar gyfer strategaethau iechyd a lles,[21] strategaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc[22] neu strategaethau cymorth cynnar.[23, 24]

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Newham: Y 50 Cam at fwrdeistref iachach

Y flaenoriaeth gyntaf yn Strategaeth Iechyd a Lles Newham ar gyfer 2020 – 2023* yw galluogi'r dechrau gorau drwy feichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar, ac mae'n cynnwys pum 'cam':

- hyrwyddo a chefnogi beichiogrwydd iach, genedigaeth a gofal ôl-enedigol i rieni
- rhoi'r dechrau gorau i fywyd i bob plentyn yn Newham
- gwella cyfraddau imiwneiddio plant
- cefnogi parodrwydd pob plentyn i fynd i'r ysgol
- cryfhau partneriaethau ar draws awdurdodau lleol, grŵp comisiynu clinigol, y sectorau mamolaeth a gwirfoddol, cymunedol a ffydd er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o gefnogi teuluoedd.

Disgrifir y 50 Cam fel galwad i bartneriaid, y cyngor a'r gymuned ehangach gydweithio. Caiff ei ategu gan asesiad o anghenion y boblogaeth,+ ac fe'i cefnogir gan gynllun gweithredu a fframwaith canlyniadau.

* Gweler https://50steps.co.uk/wp-content/uploads/2021/02/50-Steps-Health-and-Wellbeing-Strategy-Final-0221.pdf

\+ *The Evidence for Change*: https://50steps.co.uk/wp-content/uploads/2021/01/50-Steps-Evidence-Base-Final_compressed.pdf

20 Adolygwyd pob cyflwyniad llyfr gwaith gan banel dilysu o staff EIF a chymdeithion i gadarnhau graddau cynnydd, cadarnhau cryfderau, a nodi ffyrdd o gyflymu gwelliant.

21 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012; a'r Adran Iechyd (2013) Canllawiau Statudol ar Asesiadau Anghenion Strategol ar y Cyd a Strategaethau Iechyd a Lles ar y Cyd

22 GIG Lloegr, cynlluniau trawsnewid iechyd meddwl plant a phobl ifanc: https://www.england.nhs.uk/mental-health/cyp/transformation/

23 Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn pwysleisio cydweithrediad rhyngasiantaethol ar gymorth cynnar, gan nodi y dylai'r cymorth cynnar a gynigir dynnu ar unrhyw asesiad lleol o angen, gan gynnwys JSNA a'r dystiolaeth ddiweddaraf o effeithiolrwydd rhaglenni cymorth cynnar…dylid gwneud hyn o fewn strwythur strwythuredig, fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys adolygiad rheolaidd i sicrhau bod cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud.'

24 OFSTED, Guidance on Inspecting Local Authority Children's Services (diweddarwyd Rhagfyr 2021) yn sôn am 'y strategaeth cymorth cynnar, unrhyw gynllun gweithredu cysylltiedig a gwybodaeth reoli berthnasol am ansawdd, amseroldeb ac effaith y cymorth cynnar a ddarperir i blant a'u teuluoedd.'

Roedd tystiolaeth o ddylanwad blaenoriaethau polisi cenedlaethol ar strategaethau lleol mewn rhai ardaloedd lleol, yn enwedig yng Nghymru oherwydd rhaglenni seiliedig ar ardal fel Dechrau'n Deg a Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a oedd yn fwy eglur ynghylch eu huchelgeisiau cyffredin i wella gwasanaethau plentyndod cynnar mewn ardaloedd daearyddol penodol, gyda'r bwriad y byddai dysgu o'r ardaloedd hyn yn cael ei ehangu ar draws yr ardal ehangach.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Sir Gaerfyrddin a Cheredigion: System integredig blynyddoedd cynnar

Bu Cynghorau Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydweithio i greu rhaglen i 'drawsnewid y ddarpariaeth o wasanaethau blynyddoedd cynnar o'r rhai sydd wedi'u rhannu, ac wedi'u halinio ar hyd ffiniau statudol, i'r rhai sy'n defnyddio dull seiliedig ar leoliad'. Fe wnaeth y cynllun busnes nodi'r gwerthoedd arweiniol, rhoi dadansoddiad o'r cyd-destun strategol, yr achos dros newid (gan gynnwys buddion, allbynnau a chanlyniadau), a sut y gellir cynnal a graddio'r dull gweithredu.

Cyhoeddodd pob ardal awdurdod lleol hefyd gynllun peilot braenaru yn disgrifio sut y byddent yn defnyddio'r rhaglen hon ar lefel fwy lleol, gan er enghraifft flaenoriaethu'r capasiti a'r cymysgedd sgiliau mewn timau ymwelyddion iechyd a chanolfannau teulu yng Ngheredigion; a sefydlu tîm integredig blynyddoedd cynnar ar gyfer Cwm Gwendraeth yn Sir Gaerfyrddin.

### *Best Start For Life*: Gweledigaeth ar gyfer y 1001 o ddyddiau tyngedfennol

Cyhoeddodd Adolygiad Datblygiad Iach y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth San Steffan weledigaeth ar gyfer babanod a phlant iau ym mis Mawrth 2021 a fu wedyn yn ddylanwadol yn Adolygiad Gwariant 2021 a ddyrannodd £500m i blant a theuluoedd.

Nododd gweledigaeth *Best Start For Life* chwe maes gweithredu:

- **Cefnogaeth ddi-dor i deuluoedd:** cynnig Dechrau am Oes sydd ar gael i bob teulu.
- **Hyb croesawgar i deuluoedd:** Hybiau Teulu fel lle i deuluoedd gael mynediad at wasanaethau Dechrau am Oes.
- **Y wybodaeth sydd ei hangen ar deuluoedd pan fydd ei hangen arnynt:** dylunio cynigion digidol, rhithwir a dros y ffôn o amgylch anghenion y teulu.
- **Gweithlu Dechrau am Oes grymus:** datblygu gweithlu modern, medrus i ddiwallu anghenion newidiol teuluoedd.
- **Gwella'r cynnig Dechrau am Oes yn barhaus:** gwella data, gwerthuso, canlyniadau ac arolygu cymesur.
- **Arweinyddiaeth ar gyfer newid:** sicrhau atebolrwydd lleol a chenedlaethol a datblygu'r achos economaidd.

Roedd y sbardunau cenedlaethol ar gyfer strategaeth y blynyddoedd cynnar yn Lloegr yn llai clir, ac roedd diffyg strategaeth leol benodol ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn awgrymu diffyg blaenoriaeth ar gyfer hyn mewn polisi cenedlaethol. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o newid o ganlyniad i Adolygiad Datblygiad Iach y Blynyddoedd Cynnar[25] y disgwylir iddo arwain at fwy o bwyslais mewn cynllunio lleol ar y 1001 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn.

25 Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/973085/Early_Years_Report.pdf

Mae gan Gymru a Lloegr weledigaeth genedlaethol glir ar gyfer datblygu gofal mamolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng hyn a system y blynyddoedd cynnar sy'n dilyn wedi'i ddiffinio mor glir, ac mae'n ymddangos bod y diffyg cysylltiad hwn yn cael ei adlewyrchu ar lefel leol.

## Deall anghenion y boblogaeth

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried yn benodol sut mae partneriaid lleol yn rhannu ac yn dadansoddi data ar lefel y boblogaeth am anghenion a chanlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac yn defnyddio hyn i nodi grwpiau sy'n agored i niwed.

Cam allweddol tuag at greu strategaeth leol yw casglu tystiolaeth leol am ba grwpiau o deuluoedd sy'n cael trafferth, pa blant sy'n llai tebygol o ffynnu a pham, ac yna defnyddio hyn i greu consensws ymhlith partneriaid ynghylch yr angen am newid. Er mwyn nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer gwella mae angen i ddata poblogaeth fod yn ddigon gronynnog am wahanol

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Islington: Proffil *Bright Start*

Roedd asesiad anghenion blynyddoedd cynnar penodol yn sail i ddatblygiad darpariaeth ardal integredig *Bright Start* yn Islington. Cwblhawyd y Proffil *Bright Start* cyntaf yn 2018 a chafodd ei ddiweddaru yn 2021. Mae'n cwmpasu ystod o ddangosyddion sy'n cyd-fynd â model Islington o straenachoswyr a ffactorau gwytnwch, gyda setiau data ar lefel ardal a bwrdeistref. Cynhwysir amrywiaeth eang o ffactorau, megis tlodi bwyd, blaenoriaethau iechyd allweddol fel risgiau i iechyd oedolion o ganlyniad i'w ffordd o fyw a phwysau plant, ac argaeledd lleoedd meithrin, a chanlyniadau plant 5 oed.

Darperir gwasanaethau plentyndod cynnar yn Islington mewn tair ardal (*Bright Start* y Gogledd, y De a'r Canol) sy'n cyd-ffinio â ffiniau wardiau. Roedd hyn yn golygu y gellid tynnu llun o anghenion ym mhob ardal. Er bod lefelau anfantais gyffredinol yn debyg ym mhob un, roedd gan *Bright Start* y De, er enghraifft, fwlch cyflawniad ychydig yn is yn 5 oed nag ardaloedd eraill.

Cwblhawyd arolwg o foddhad teuluoedd gyda'r holl wasanaethau a ddarparwyd fel rhan o'r cynnig plentyndod cynnar gan dros 200 o deuluoedd. Yn ychwanegol, parhaodd y gwasanaeth ymwelyddion iechyd gyda'r Prawf Teulu a Ffrindiau cenedlaethol.

Cwblhawyd nifer o asesiadau anghenion eraill oedd yn canolbwyntio ar feysydd penodol y rhaglen plant iach, er enghraifft yr asesiad o anghenion iechyd meddwl amenedigol a ddaeth â data ynghyd o'r holl wasanaethau perthnasol a oedd ar gael yn y cyfnod amenedigol. Defnyddiodd yr adolygiad ddata cenedlaethol i ragfynegi lefel debygol yr angen a chymharodd hyn â'r niferoedd gwirioneddol oedd yn defnyddio gwasanaethau. Roedd hefyd yn cynnwys archwiliad manwl o 50 o achosion i archwilio asesiad, darpariaeth, profiad y defnyddiwr ac effaith. Arweiniodd yr asesiad o anghenion at gynlluniau ar gyfer ystod o gymorth i gyfateb i angen o'r ysgafn i'r canolig i'r acíwt, gan gynnwys datblygu swydd arbenigol yn y tîm ymwelyddion iechyd.

Mae asesiadau o anghenion eraill yn cynnwys yr adolygiad o anghenion dwys a wneir gan ymwelyddion iechyd, gyda ffocws ar gyfran mewnbwn ymwelwyr iechyd i'r cynnig cyffredinol, yn erbyn cymorth ychwanegol, ac adolygiad o ordewdra yn y grŵp oedran 0–4, sydd ill dau wedi arwain at ragor o waith datblygu ar strategaeth a phartneriaeth.

grwpiau poblogaeth ac ardaloedd lleol, ac effeithiau sy'n gwaethygu anghydraddoldeb, yn ogystal â newidiadau demograffig yn y dyfodol.

Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ardaloedd lleol a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael trafferth cael mynediad at ddata digonol neu gyfredol am anghenion poblogaeth teuluoedd sy'n disgwyl plant, neu gyda phlant ifanc:

- *'Nid oes proses ffurfiol i gynnal asesiad anghenion ar draws y sir gyda gwahanol asiantaethau, mae gan bob asiantaeth eu rhai eu hunain i ryw raddau, sy'n seiliedig ar y gwasanaethau a ddarperir ar y pryd. Mae angen cefnogaeth gan bartneriaid strategol a phrif weithredwyr ar draws y gwahanol asiantaethau ar gyfer un asesiad. Darn mawr o waith a neb i'w arwain.'*
- *'Nid yw Dechrau'n Deg wedi'i gysylltu â systemau i gasglu data poblogaeth. Os oes angen data arnom, mae'n rhaid i ni ddod o hyd iddo ein hunain – nid oes swyddog data yn y cyngor.'*
- *'Teimlir bod data poblogaeth yn llethol'.*
- *'Mae angen diweddaru JSNA [asesiad ar y cyd o anghenion strategol] ond nid oes capasiti i wneud hyn ar hyn o bryd.'*
- *'Mae rhannu data ar draws sefydliadau yn anaeddfed ac nid oes un darlun clir o faterion allweddol i ganolbwyntio arnynt. Nid oes unrhyw JSNA wedi'i gyhoeddi ers fersiwn 2016 a oedd yn canolbwyntio ar ordewdra ymhlith plant.'*

Daeth y capasiti sydd ei angen i gynnal asesiadau o anghenion i'r amlwg fel problem gyffredin. Nododd rhai ardaloedd lleol nad oedd ganddynt ddigon o staff i gasglu data ar draws asiantaethau. Yng Nghymru, roedd asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asesiadau rhanbarthol o anghenion y boblogaeth[26] yn rhai eang ac yn dueddol o beidio â bod â gwybodaeth fanwl neu leol am fabanod a phlant ifanc. Yn Lloegr, roedd Asesiadau ar y Cyd o Anghenion Strategol yn yr un modd yn aml yn canolbwyntio mwy ar oedolion na phlant neu nid oedd ganddynt y manylion angenrheidiol ar gyfer cynllunio strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar.

Roedd llawer o gyflwyniadau'r matrics aeddfedrwydd yn cyfeirio at ddiffyg cyfranogiad arweinwyr gweithredol mewn asesiadau anghenion. Roedd cyfranwyr yn aml yn gweld y broses fel ymarferiad data o bell a oedd yn cael ei chynnal ar lefel uchel. Nid oeddent yn glir pa ddata oedd yn cael ei goladu ar draws y system, a sut y gallai gefnogi eu gwaith.

Amharwyd ar ymgysylltiad timau iechyd cyhoeddus lleol sy'n aml yn gyfrifol am arwain y gwaith hwn mewn ardaloedd lleol oherwydd galwadau'r pandemig ar arbenigwyr iechyd y cyhoedd. Ond mae'r gallu i ddefnyddio data poblogaeth i dargedu cymorth a deall sut mae anghenion y boblogaeth yn newid hyd yn oed yn bwysicach nag erioed i effeithiolrwydd lleol.

» *Gweler Astudiaeth Achos* ***Gogledd Cymru***

26 Gweler, er enghraifft, https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/

ASTUDIAETH ACHOS

## Gogledd Cymru: Asesiad o anghenion poblogaeth rhanbarthol

Cyhoeddodd Canolfan Gydweithredu Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru asesiad poblogaeth rhanbarthol yn 2017, ac adolygiad cyflym yn 2020* i ystyried effaith Covid-19 ar bobl sy'n derbyn gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys plant.

### Children and young people

We looked at the impact on:

- **children with disabilities and/or illness**
- **children who are care experienced**
- **children in need of care and support**
- **children at risk of becoming looked after**
- **children with emotional and behavioural needs**

**Some of our findings:**

- children's health services were reduced
- many appointments and surgeries were cancelled
- some children's staff were moved to adult services
- some children with long-term conditions missed therapies
- waiting times for referrals and assessments grew
- speech and language sessions were missed
- some children were more worried
- some children worried less
- some parents found they preferred the online support
- demands on charities increased but incomes have been reduced
- there was a lack of ante-natal, postnatal and home visits for new mums
- children in care felt more isolated and lonely
- face-to-face counselling stopped
- some foster carers found lockdown challenging because of behavioural issues
- other foster carers found the children were more settled
- vulnerable children faced more risks during lockdown
- more families needed to use food banks
- domestic abuse increased during lockdown
- Parentline had four times as many calls
- children at risk were less visible to professionals
- children with mental health issues said their symptoms got worse during lockdown
- waiting lists have increased and there may be delays for assessments and services
- the Children's Commissioner is concerned Covid-19 rules harm children's mental and physical health, and their right to play.

* Gweler er enghraifft https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

## Mewnwelediad 2: Cynllunio gyda'r adnodd lleol cyfan mewn golwg

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried sut mae adnoddau ariannol a dynol lleol yn cyd-fynd i gefnogi strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys defnyddio offer comisiynu strategol yn Lloegr.[27] Mae'r ffocws ar ddata da (ar draws partneriaid), ar ba adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan wasanaethau cyhoeddus ac eraill i gefnogi teuluoedd ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, ac ar ddefnyddio'r data hwn i nodi sut y gellir cysoni adnoddau a'u cysylltu'n well er mwyn cael mwy o effaith a llenwi unrhyw fylchau.

Elfen allweddol o strategaeth leol effeithiol yw nodi a chydweddu adnoddau ar draws y system i gyflawni blaenoriaethau cytûn ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r adnoddau sy'n sail i'r system plentyndod cynnar lleol yn  cael eu 'perchnogi' gan lawer o wahanol sefydliadau neu gan gymunedau eu hunain. Mae creu ymagwedd gyffredinol gydlynol sy'n cael yr effaith fwyaf yn dibynnu ar gael dealltwriaeth dda o'r darlun cyfan.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Casnewydd: Mapio asedau lleol

Cymerodd partneriaid a rhanddeiliaid allweddol yng Ngwent (gan gynnwys y rheini yng Nghasnewydd) ran mewn ymarferiad mapio chwe diwrnod dwys i ddeall yn well y daith gyffredinol i deulu a'u profiadau bywyd, gan gynnwys pryd a sut y daethant i gysylltiad â gwasanaethau. Cyfwelwyd teuluoedd a staff rheng flaen ac astudiwyd cofnodion teulu er mwyn cael darlun o brofiad gwirioneddol teuluoedd. Roedd yr ymarferiad mapio yn cynnwys, ymhlith eraill, iechyd, addysg, datblygiad plant, gofal plant, cymorth i deuluoedd, magu plant ac iechyd meddwl. Roedd yn ystyried gwasanaethau 'hyper-leol' a ddarperir gan y trydydd sector. Tynnodd sylw at ddyblygu gwasanaethau a bylchau.

Cynhyrchodd yr ymarfer mapio set o egwyddorion ar gyfer rhaglen trawsnewid y blynyddoedd cynnar Casnewydd:

1. Datblygu ar gryfderau, sgiliau a diddordebau'r unigolyn, a rhwydweithiau cyfredol a hanesyddol; *a dim ond wedyn*
2. defnyddio asedau cymunedol; *a dim ond wedyn*
3. defnyddio gwasanaethau statudol neu wasanaethau wedi'u comisiynu.

Roedd yr ymarferiad mapio yn bwerus iawn o ran nodi ac amlygu bylchau mewn gwasanaethau a dyblygu ar gyfer uwch arweinwyr ac aelodau etholedig, gan gefnogi'r egwyddor o 'gymorth iawn ar yr adeg iawn', a helpu i drefnu adnoddau'n well ar draws asiantaethau.

27 Nid yw comisiynu yn derm a ddefnyddir yn gyffredin yng Nghymru.

ASTUDIAETH ACHOS

## Kirklees: Partneriaeth Iechyd a Lles

Comisiynodd Cyngor Kirklees a dau grŵp comisiynu clinigol Kirklees bartneriaeth newydd yn 2017 i ddarparu rhaglen integredig plant iach yn Kirklees. Mae'r bartneriaeth, a elwir bellach yn 'Thriving Kirklees', yn cynnwys sefydliadau'r GIG a'r sector gwirfoddol, ac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i ffynnu a bod yn iach, gan gynnwys iechyd meddwl, ymwelyddion iechyd, nyrsys ysgol, a chymorth teulu dan arweiniad gwirfoddolwyr.

Diben rhaglen integredig plant iach Kirklees oedd trawsnewid y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd, gan newid yn y pen draw y ffordd yr oedd cymunedau Kirklees yn derbyn ac yn rhyngweithio â'r gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Roedd y contract cychwynnol am bum mlynedd, gyda darpariaeth ar gyfer estyniad am bum mlynedd.

Rhan allweddol o'r weledigaeth ar gyfer *Thriving Kirklees* yw datblygu mentrau a arweinir gan y sector gwirfoddol, ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws cymunedau amrywiol ac ymylol a chynnig cyfleoedd i bobl leol wirfoddoli. Mae cynllun grantiau cymunedol, a weithredir ac a reolir mewn partneriaeth ag Arweinwyr y Trydydd Sector Kirklees, yn rhoi cyllid i dreialu a datblygu prosiectau iechyd a lles a arweinir gan y gymuned.

ASTUDIAETH ACHOS

## Dwyrain Swydd Gaer: Hybiau Iechyd Plant

Mae gan Ddwyrain Swydd Gaer grŵp a strategaeth comisiynu ar y cyd i blant, sy'n cynnwys y grwpiau comisiynu clinigol, yr awdurdod lleol, ymddiriedolaethau iechyd, iechyd y cyhoedd, cynrychiolwyr o'r fforwm rhieni, a phobl ifanc a gefnogir gan dîm cyfranogi.

Un comisiwn ar y cyd fu'r Hybiau Iechyd Plant. Nod rhaglen yr hybiau, a ddyfeisiwyd gan y Bartneriaeth Gofal Integredig, gan weithio gyda phediatregwyr, meddygon teulu, a Gwasanaeth *Early Start* yr awdurdod lleol mewn canolfannau plant, yw gwella mynediad a phrofiad plant a theuluoedd ar draws y system bediatrig.

Roedd data'n dangos bod rhieni'n mynd â phlant i ysbytai pan ellid bod wedi osgoi hynny. Ar ôl gwrando ar farn teuluoedd, lleolwyd rhai gwasanaethau mewn canolfannau plant, ac mae dau Hyb bellach, un ar gyfer pob ymddiriedolaeth ysbyty, lle mae uwch ymarferwyr nyrsio yn darparu clinigau ar gyfer babanod sy'n methu setlo, clinig clefyd melyn, a chanolfan galw heibio am brofion gwaed. Gwneir defnydd da iawn o'r gwasanaethau, ac maent yn rhoi cyfle i hyrwyddo'r ddarpariaeth ehangach o Ganolfannau Plant i deuluoedd. Mae meddygon teulu hefyd wedi dod yn fwy ymwybodol o'r hyn a gynigir gan y Ganolfan Plant ac maent yn gwneud mwy i gyfeirio teuluoedd ati.

Nid yw Dwyrain Swydd Gaer yn ystyried bod cyllidebau cyfun na swyddi comisiynu a rennir yn hanfodol. Yn hytrach, eu dull yw defnyddio data a phrofiad defnyddwyr i nodi bylchau mewn gwasanaethau, ac yna gweld pa bartneriaid sydd yn y sefyllfa orau i dynnu ar grantiau cenedlaethol neu gronfeydd eraill o arian i ddiwallu anghenion.

Er bod rhai ardaloedd lleol a oedd yn defnyddio'r matrics aeddfedrwydd yn mapio gwasanaethau ac yn trefnu adnoddau, prin oedd yr enghreifftiau o adolygu'n systematig yr holl adnoddau oedd ar gael ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ar draws partneriaid, ac ystyried sut y gellid defnyddio buddsoddiad yn well i gefnogi blaenoriaethau strategaeth. Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau'r panel EIF, byddai 18 o'r 20 ardal leol yn elwa o gasglu data am adnoddau ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a defnyddio hyn i nodi cyfleoedd ar gyfer mwy o gysoni.

O'r sampl o ardaloedd lleol yn Lloegr, er gwaethaf enghreifftiau o gomisiynu ar y cyd yn ehangach ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, mae'n ymddangos nad yw comisiynu gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar ar y cyd ar draws partneriaid y GIG ac awdurdodau lleol yn gyffredin. Roedd y rhai a oedd yn cwblhau hunanasesiadau'n aml yn diffinio comisiynu ar y cyd fel pennu a chaffael un gwasanaeth ar y cyd, yn hytrach na dulliau mwy systemig fel cydweithio ar reoli'r farchnad neu fapio'r adnoddau sydd ar gael:

- *'Ar hyn o bryd rydym yn comisiynu fel asiantaethau unigol, ac nid oes gennym ni drefniadau comisiynu ar y cyd ar draws gwasanaethau mamolaeth a phlentyndod cynnar. Ond y mae enghreifftiau o brosiectau a rolau a ariennir ar y cyd yn eu lle, a chynlluniau ar y cyd yn ymwneud â SEND [*Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd*].'*
- *'Teimlir bod comisiynu yn rhwystr i ddatblygu gweledigaeth / strategaeth. Mae yna deimlad o 'bellter' o ran comisiynwyr arweiniol: ansicrwydd ynghylch pwy sy'n arwain yng ngoleuni newidiadau parhaus. Mae angen bod yn fwy agored ac yn fwy eglur.'*
- *'Mae'r gofyniad parhaus i wneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn cael effaith ar gynllunio gwasanaethau a'r hyn a gynigir yn y tymor hir. Fel rhan o'r rhaglen cymorth cynnar byddwn yn nodi ffyrdd y gallwn ddatblygu modelau darparu cynaliadwy yn y tymor hir.'*
- *'Dim comisiynu ar y cyd ar waith, felly bydd bylchau a dyblygu. Mae llawer o wasanaethau a gomisiynir yn y blynyddoedd cynnar sydd â manylebau gwasanaeth, blaenoriaethau, canlyniadau a dyddiadau terfyn contractau gwahanol. Nid yw contractau gwasanaethau a gomisiynir gan CCG wedi'u halinio i'w hymgorffori yn y system blynyddoedd cynnar ac maent yn croesi dros olion traed gwahanol. Mae diwylliant yr awdurdod lleol yn tueddu'n drwm tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar gaffael yn hytrach na diwallu anghenion y boblogaeth.'*

Soniwyd yn gyffredin am broblemau ariannu: diffyg adnoddau, ffrydiau ariannu lluosog, a chyllid anhyblyg nad oedd o reidrwydd yn cyfateb i ddemograffeg. Yng Nghymru, disgrifiwyd yr anawsterau a gyflwynir gan gyllid tymor byr fel rhai a oedd yn ei gwneud yn anodd i hwyluso'r trawsnewid a'r integreiddio strategol a gweithredol a oedd yn gofyn am gynllun tymor hwy.

- *'Yn aml yn rhy brysur yn mynd ar ôl yr arian – mae llawer o ymdrech yn mynd i mewn i gyflwyno cynigion tymor byr am gyfleoedd ariannu ar y funud olaf.'*
- *'Ansicr ynghylch yr adnoddau lleol sydd ar gael i gefnogi'r strategaeth ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar a sut y gallai hyn gynyddu effaith. Mae cymhlethdod y cyllid, rhybudd o gyllid, a chyllid tymor byr yn rhwystrau i effaith wirioneddol.'*
- *'Mae cyllid grant yn rhywbeth dros dymor byr ac yn gyfyngedig o ran amser, ac mae gwahanol flaenoriaethau o ran defnyddio'r cyllid.'*

## Cynllunio'r gweithlu

Mae'r matrics aeddfedrwydd hefyd yn canolbwyntio ar sut mae partneriaid lleol yn cynllunio ar gyfer defnydd effeithiol o'u buddsoddiad a'u defnydd o bobl. Mae'n ystyried pa mor dda y deellir anghenion presennol y gweithlu ar draws y system mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, a sut mae materion capasiti a gallu yn cael eu rheoli.

Mae cynllunio'r gweithlu yn broses fusnes raddedig i ddeall y gweithlu presennol, ei gymharu â gofynion gweithlu'r dyfodol i gyflawni strategaeth sefydliadol, a gweithredu ffyrdd o gau'r bwlch rhwng y ddau. Yn ôl y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, mae cynllunio'r gweithlu yn ymwneud â 'chael y nifer iawn o bobl gyda'r sgiliau cywir yn cael eu cyflogi yn y lle iawn ar yr amser iawn, ar y gost iawn ac ar y contract iawn i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hir unrhyw sefydliad.'

Mae cynllunio'r gweithlu yn gadarnach hefyd yn bwysig i sut mae sefydliadau yn blaenoriaethu ymddiriedaeth a pherthnasoedd rhwng ymarferwyr a theuluoedd. Gallai atgyfnerthu dulliau gweithredu sy'n bwysig ar gyfer datblygu perthnasoedd, megis: meithrin gallu i dimau ac ymarferwyr fod yn fwy hyblyg ac ymatebol gyda'u hamser; rheoli achosion sy'n gwerthfawrogi cysondeb neu barhad gofal; a chadw cymwyseddau perthynas mewn cof wrth recriwtio a goruchwylio staff.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Sir y Fflint: Creu diwylliant dysgu

Roedd Sir y Fflint wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth i gynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu ar gyfer pawb oedd yn gweithio gyda phlant cyn eu geni hyd at 7 oed. Daeth y grŵp â phartneriaid o feysydd iechyd, awdurdodau lleol, gofal plant a'r trydydd sector ynghyd, ac adroddodd i Bartneriaeth Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar. Ei nod oedd dadansoddi a deall anghenion y gweithlu, ymdrin â bylchau o ran capasiti drwy hyfforddi staff, ailgynllunio gwasanaethau neu recriwtio, a rhoi ar waith gynnig hyfforddiant a goruchwyliaeth o ansawdd uchel y cytunwyd arno sy'n cefnogi'r gweithlu i gymhwyso'r dystiolaeth a'r polisi diweddaraf i'w hymarfer. Roedd disgwyl i'r allbynnau gynnwys Matrics Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar yn nodi anghenion ar draws y system, a map ffordd yn nodi'r camau nesaf dros gyfnod o ddwy i dair blynedd.

Disgwylir i'r gwaith gynnwys mapio'r cynnig hyfforddiant presennol, a bydd yn archwilio sut y gellir ei ail-gyflunio, gan ddatblygu ar gryfderau a sicrhau'r cyllid mwyaf posibl drwy gyllidebau cyfun. Un o'r nodau allweddol yw creu diwylliant dysgu lle mae rhwydweithio ac adborth yn llywio hyfforddiant ac arfer yn y dyfodol, a rhoi fframwaith ar waith ar gyfer gwerthuso effaith gweithgareddau datblygu'r gweithlu ar ymarfer. Mae'r grŵp yn bwriadu gweithio gydag ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth i gyflwyno'u safbwyntiau ar anghenion a gweithgareddau hyfforddi a datblygu.

Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd lleol a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio ar hyfforddi'r gweithlu yn hytrach na chynllunio'r gweithlu. Roedd hunanasesiadau yn llai tebygol o ystyried y cymwyseddau craidd oedd eu hangen i gyflawni'r strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol, a oedd y capasiti a'r gallu cywir ar draws swyddogaethau allweddol, a'r camau oedd eu hangen i recriwtio, ailfodelu neu ddatblygu'r gweithlu fel ei fod yn gallu darparu strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn lleol. Prin oedd yr ardaloedd oedd â data da am y capasiti a'r gallu amlasiantaeth presennol i ddatblygu strategaeth gweithlu leol o'u cwmpas, ac roedd 19 o'r 20 ardal leol yn debygol o elwa o gryfhau yma, yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF:

- *‘Yn aml edrychir ar gynllunio’r gweithlu mewn seilos ac nid mewn dull cydgysylltiedig. Mae rhannau unigol o’r system yn ceisio datrys rhannau eu hunain yn hytrach na mynd i bwynt canolog, gan gymryd hyfforddiant sy’n cael ei gynnig yn aml yn hytrach nag ystyried a yw’n briodol neu’n seiliedig ar dystiolaeth.’*
- *‘Mae hyfforddiant fel arfer yn cael ei drefnu mewn meysydd gwasanaeth – mae rhai enghreifftiau o hyfforddiant i bawb o faes iechyd y cyhoedd, ac ati, ond yn gyffredinol does dim llawer o hyfforddiant ar y cyd. A oes gennym ni gofnodion hyfforddi? Beth yw’r sgiliau craidd sydd eu hangen? Beth mae’r data yn ei ddweud wrthym sy’n flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau 0–5? Mae angen cysylltu hyfforddiant â chanlyniadau allweddol yn strategaeth y blynyddoedd cynnar ac ychwanegu cynllunio gweithlu at yr agenda.’*

Mae hyn yn teimlo’n arbennig o bwysig yn y cyd-destun a ddisgrifiwyd gan lawer o ardaloedd lleol lle cafwyd heriau wrth recriwtio a chadw rolau gweithredol megis ymwelyddion iechyd, a rolau strategol fel arweinwyr trawsnewid; ac wrth ddeall sut i integreiddio staff peilot neu staff prosiect o fewn trefniadau’r system ehangach, fel y dangosir gan y berthynas rhwng ymwelyddion iechyd Dechrau’n Deg ac ymwelwyr iechyd ‘cyffredinol’ yng Nghymru:

- *‘Mae recriwtio’n anodd mewn rhai ardaloedd oherwydd diffyg staff cymwys. Mae cyllid grant yn anochel yn golygu mai cyllid tymor byr sydd ar gael. Nid yw’r safon ofynnol o staff bob amser yn dymuno cael secondiad chwe mis. Mae cyllid tymor byr hefyd yn golygu ei bod yn anodd iawn cynllunio’r gweithlu yn y tymor hir.’*
- *‘Gallai symud llwythi achosion rhwng staff chwalu perthnasoedd â theuluoedd a chymunedau.’*

Yn gyffredinol, roedd yna neges fod problemau o ran recriwtio a chadw gweithlu lleol yn anodd eu datrys yn lleol a bod angen eu datrys trwy strategaeth gweithlu genedlaethol.

## Cynnig hyfforddiant

Er gwaethaf yr anawsterau yr oedd llawer o ardaloedd lleol yn eu profi o ran cynllunio’r gweithlu, roedd ganddynt gynigion hyfforddi cryf yn aml ynghylch sgiliau sylfaenol a oedd yn berthnasol i gefnogi teuluoedd yn ystod mamolaeth a’r blynyddoedd cynnar.

Roedd rhai ardaloedd lleol wedi creu rhaglenni dysgu a oedd yn cyfuno hyfforddiant â chymorth gan arbenigwyr ymarfer lleol i gymhwyso dysgu mewn lleoliadau ymarfer. Roedd hon yn ffordd effeithiol o ddefnyddio sgiliau proffesiynol arbenigwyr o fewn y gweithlu lleol i gefnogi’r gwaith o ddatblygu sgiliau ar draws y gweithlu ehangach.

Roedd rhai yn systematig wrth gasglu data amlddisgyblaethol ar anghenion hyfforddi’r gweithlu a defnyddio hyn i greu rhaglenni sgiliau craidd, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant penodol i’r sefydliad neu’r ymyriad.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Caerdydd: Dadansoddiad o anghenion hyfforddi

Cynhelir dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi ar draws y sector cymorth cynnar yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys y gweithlu ymyrraeth gynnar, gan gynnwys partneriaid gwaith Teuluoedd yn Gyntaf, ymarferwyr Dechrau'n Deg, a staff mewn addysg a gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal plant nas cynhelir. Defnyddir y canlyniadau i ddatblygu rhaglenni hyfforddi ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn.

Mae rhaglen graidd o hyfforddiant ar gael i'r holl staff cymorth cynnar, sy'n cynnwys:

- deall rolau gwahanol wasanaethau, fel Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd, Timau Rhianta Caerdydd a Thîm Cynghori Dechrau'n Deg
- arferion perthynol a seiliedig ar ymlyniad
- datblygu sgiliau cyfathrebu plant
- cefnogi bwydo ar y fron a deall cyfrifoldebau'r gwasanaeth ymwelyddion iechyd
- bwyta'n dda yn y blynyddoedd cynnar
- anghenion dysgu ychwanegol
- diogelu plant.


Mae'r rhaglen graidd hefyd ar gael i bartneriaid ledled Caerdydd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, gan gynnwys staff mewn ysgolion, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a thai.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Tower Hamlets: Hyfforddiant aml-asiantaeth

Yn Tower Hamlets mae staff o gefndiroedd proffesiynol gwahanol (gan gynnwys ymarferwyr blynyddoedd cynnar, staff canolfannau plant a theuluoedd, ymwelyddion iechyd, gweithwyr cymorth i deuluoedd, staff ysgol, a staff sy'n gweithio ym maes cymorth cynnar) yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni hyfforddi amlasiantaeth fel rhaglen hyfforddiant genedlaethol *Every Child a Talker*.

Mae yna gynlluniau i greu rhaglen gyffredinol o hyfforddiant traws-sefydliadol sy'n cysylltu cyfleoedd dysgu i'r rhai sy'n gweithio gyda phob teulu yn ogystal â'r rhai sydd angen cymorth mwy arbenigol.



ASTUDIAETH ACHOS

## Dwyrain Swydd Gaer: Therapyddion iaith a lleferydd

Defnyddiodd Dwyrain Swydd Gaer gynllun peilot buddsoddi-i-arbed dwy flynedd i brofi effaith cyflogi therapyddion iaith a lleferydd i weithio gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar wedi'u targedu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roeddent yn darparu hyfforddiant i staff ac yn cefnogi'r defnydd o offeryn asesu ac ymyrryd. Dangosodd gwerthuso fod hyn wedi cael effaith gref ar ddeilliannau, nid yn unig o ran cyfathrebu ac iaith ond hefyd o ran datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol. O ganlyniad mae'r rhaglen wedi'i phrif ffrydio.

ASTUDIAETH ACHOS

## Wrecsam a Sir y Fflint: CAMHS yn hyfforddi'r gweithlu ehangach

Mae gwasanaeth y Blynyddoedd Cynnar (0–7 oed) o fewn CAMHS Gogledd-ddwyrain Cymru (Wrecsam a Sir y Fflint) yn dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnig cymorth arbenigol ar gyfer iechyd meddwl babanod, plant a rhieni, ac ar gyfer perthnasoedd rhwng y rhiant a'r baban/plentyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu asesiad ac ymyrraeth seicolegol arbenigol, hyfforddiant ac ymgynghoriad ar gyfer y gweithlu lleol, ynghyd â chyngor i arweinwyr gwasanaeth.

Mae CAMHS wedi blaenoriaethu gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau gweithlu ehangach y blynyddoedd cynnar. Bu CAMHS yn cydweithio ag awdurdodau lleol Sir y Fflint a Wrecsam i ddatblygu Canllawiau Rhyngweithio Fideo (VIG) mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar draws y ddwy sir, gyda CAMHS yn arwain hyfforddiant lleol i ymarferwyr VIG. Mae dau seicolegydd clinigol o CAMHS wedi cael eu hariannu gan Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint i ddod yn oruchwylwyr achrededig ar gyfer dwy garfan o ymarferwyr VIG dan hyfforddiant. Yn Wrecsam mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ariannu carfan ychwanegol o ymarferwyr VIG dan hyfforddiant. Mae CAMHS yn hwyluso grwpiau goruchwylio cymheiriaid lleol rheolaidd a elwir yn '*intervisions*' ac yn gwerthuso data canlyniadau ymyriadau.

Mae CAMHS hefyd wedi datblygu sesiynau ymgynghori rheolaidd i grwpiau ar gyfer ymarferwyr rhianta lleol sy'n gweithio o fewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Mae'r rhain yn cael eu harwain gan seicolegydd clinigol, ac yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau, gwybodaeth a hyder trwy gefnogi ymarferwyr trwy broses datrys problemau a rennir. Dywed ymarferwyr a rheolwyr gwasanaeth sydd wedi cymryd rhan eu bod yn teimlo'n fwy medrus o ran y ffordd y maent yn cefnogi teuluoedd.

# Arwain

## Sut mae ardaloedd lleol yn sefydlu trefniadau llywodraethu, ac yn cysylltu ag arweinwyr a'r gymuned ehangach


Mae dimensiwn arweiniol y matrics aeddfedrwydd yn canolbwyntio ar y trefniadau partneriaeth a llywodraethu strategol sy'n goruchwylio strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, gan gwmpasu tair elfen graidd:

1. y trefniadau strategol ar gyfer cydweithio rhwng partneriaid, a sut mae hyn yn llywio'r gwaith o gyflawni'r strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol
2. sut mae strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn cael ei harwain a'i hyrwyddo ar lefel leol, a sut mae arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu ar draws y gymuned a sefydliadau lleol
3. sut mae teuluoedd a'r gymuned leol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chyflawni strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol, a sut mae asedau cymunedol yn cael eu defnyddio i gynnal newid.

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ardaloedd lleol a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd ar y lefel cynnydd cynnar ar gyfer y dimensiwn Arwain, gan adlewyrchu eu bod yn cymryd camau ond heb weld y canlyniadau eto.

**FFIGUR 5**

Graddfeydd cynnydd y matrics aeddfedrwydd ar gyfer yr 20 ardal leol (Cymru a Lloegr) a gymerodd ran ar draws elfennau'r dimensiwn Arwain



# Mewnwelediad 3: Cael yr arweinyddiaeth yn gywir

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried ymddygiadau arweinyddiaeth unigol yn ogystal â sut mae uwch arweinwyr yn cydweithio i greu trefniadau partneriaeth strategol effeithiol i oruchwylio strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar. Mae'n canolbwyntio ar a oes grŵp partneriaeth strategol gweithredol sy'n gyfrifol am nodau mamolaeth a blynyddoedd cynnar lleol, a pha mor dda y mae partneriaid sy'n ymwneud â'r grŵp hwn yn cydweithio. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau y mae arweinwyr gweithredol a strategol yn hyrwyddo'r agenda hon, gan flaenoriaethu buddsoddiad a chyfleu manteision dull mwy cydgysylltiedig.

Gallai'r ffordd y mae cymorth amenedigol a blynyddoedd cynnar i deuluoedd yn cysylltu fod o arwyddocâd sy'n newid bywydau i deuluoedd agored i niwed. Fodd bynnag, mae gan elfennau mamolaeth a blynyddoedd cynnar y system cymorth lleol i deuluoedd ysgogwyr polisi cenedlaethol a threfniadau comisiynu lleol gwahanol iawn.

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn eglur ynghylch y cysylltiad rhwng gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar, ac fe wnaeth y broses hunanasesu daflu goleuni ar yr heriau sy'n wynebu ardaloedd wrth geisio datblygu system integredig gydlynol o ystyried natur ar wahân y partneriaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar a chynllunio ar lefel leol yn aml. I rai, roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd cynnwys gwasanaethau mamolaeth mewn proses gynllunio a oedd yn cael ei harwain gan yr awdurdod lleol. I eraill, y matrics oedd y mecanwaith delfrydol i ddod â rhanddeiliaid mamolaeth a blynyddoedd cynnar at ei gilydd, gan ddatblygu neu gryfhau perthnasoedd a chanfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio. I eraill, roedd hyn eisoes yn fusnes fel arfer ar gyfer eu trefniadau partneriaeth strategol.

## Partneriaethau strategol

Lle'r oedd pethau'n gweithio'n dda, roedd y trefniadau partneriaeth ar gyfer strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn cynnwys mecanwaith ar gyfer dod ag uwch arweinwyr strategol a phenderfynwyr â chyfrifoldeb am wasanaethau plant a theuluoedd ynghyd; yn ogystal â grŵp gweithredol o reolwyr gwasanaeth a phartneriaid eraill a oedd â gwybodaeth fanylach am wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar; gyda llinellau atebolrwydd clir o un i'r llall, a chyfathrebu da i'r ddau gyfeiriad.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Tower Hamlets: Llywodraethu mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar

Mae gwaith partneriaeth ar draws gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn cael ei gydlynu trwy weithgor mamolaeth a blynyddoedd cynnar sydd wedi'i hen sefydlu. Er bod y cynllunio wedi'i atal am gyfnod yn ystod y pandemig, mae'r gweithgor yn arwain gwaith ar gynllun integreiddio'r blynyddoedd cynnar, gyda dangosyddion perfformiad allweddol a rennir, a chynlluniau gwaith ar y cyd sy'n arwain at gynlluniau gwaith gwasanaeth a thargedau perfformiad unigol.

Mae'r gweithgor yn dod ag uwch randdeiliaid ynghyd sy'n cynrychioli comisiynu gwasanaethau mamolaeth, iechyd y cyhoedd, bydwreigiaeth, ymwelyddion iechyd, y blynyddoedd cynnar, cymorth cynnar a'r sector gwirfoddol.

Mae'r gweithgor mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn un o bedwar is-grŵp thematig sy'n cyflawni amcanion y cytunwyd arnynt gan y Weithrediaeth Plant a Theuluoedd, sy'n rhan o *Tower Hamlets Together*, sef partneriaeth strategol rhwng comisiynwyr a darparwyr y GIG, yr awdurdod lleol a'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol i ddarparu 'gwell iechyd trwy bartneriaeth'.

ASTUDIAETH ACHOS

## Ynys Môn: Bwrdd y blynyddoedd cynnar

Mae Ynys Môn yn awdurdod bach, felly mae gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn osgoi cael eich llethu gan fentrau a phrosiectau gwahanol yn sbardun allweddol i waith amlasiantaeth. Mae hon yn un o swyddogaethau allweddol Bwrdd Blynyddoedd Cynnar Ynys Môn, sy'n dod ag uwch reolwyr o'r cymorth i deuluoedd, gwasanaethau cymdeithasol, nyrsio ysgol, ymwelyddion iechyd, bydwreigiaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, hamdden, tai, ysgolion cynradd, gofal plant a'r trydydd sector at ei gilydd.

Mae'r bwrdd yn rhannu gwybodaeth am brosiectau cyfredol a newydd, yn cefnogi cydweithredu ynghylch ceisiadau am arian ac yn archwilio cysylltiadau a chyfleoedd i gysylltu. Mae gweithgorau yn bwrw ymlaen â gwaith manylach ar draws partneriaid, er enghraifft ymgorffori'r Gymraeg yn y gwasanaeth a gynigir, neu gymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Canolbwyntiodd un o'r gweithgorau ar edrych o'r newydd ar y llwybr magu plant o'r cyfnod cyn geni ymlaen. Roedd y nifer a oedd yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu â rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gostwng, ac roedd hyfforddi staff i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn anodd oherwydd yr ystod eang o raglenni, cost hyfforddiant a throsiant staff. Roedd partneriaid yn awyddus i adolygu sut roedd rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth yn cyd-fynd â llwybr cymorth ar gyfer y sir gyfan a oedd yn canolbwyntio ar feithrin hyder, gwytnwch, perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys mapio pwy sydd wedi'u hyfforddi ym mha feysydd a sut i gymhwyso hyn; a chreu proses sefydlu newydd a chylch hyfforddi blynyddol ar gyfer rhaglenni allweddol.

ASTUDIAETH ACHOS

## Islington: Partneriaethau ardal lleol

Mae strwythur llywodraethu *Bright Start* yn hwyluso gweithio ar y cyd gan arweinwyr ar bob lefel o'r Bwrdd Mamolaeth a Phlentyndod Cynnar cyffredinol i'r fforymau rhieni lleol.

Mae pob un o ardaloedd *Bright Start* yn cael ei harwain gan arweinydd ardal (Bwrdeistref Islington yn Llundain) a rheolwr ardal (Ymddiriedolaeth Iechyd Whittington), sy'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol, bydwreigiaeth, gofal cymdeithasol ac addysg.

Mae gan bob ardal Grŵp Partneriaeth Ardal Plentyndod Cynnar a gaiff ei gadeirio gan rieni ac a fynychir gan deuluoedd, grwpiau cymunedol a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys rheolwyr meithrinfeydd a phartneriaid mewn therapi iaith a lleferydd, a dysgu cymunedol. Mae'r grwpiau hyn yn edrych ar faterion yn eu hardal ac yn darparu adroddiadau a heriau ynghylch pa ddarpariaeth yr hoffent ei datblygu'n lleol. Ystyrir y cyfarfodydd yn amhrisiadwy nid yn unig o ran y trafodaethau am yr agenda ffurfiol ond hefyd trwy'r sgyrsiau anffurfiol a'r cysylltiadau a wneir.

Roedd ardaloedd lleol a oedd yn rhan o Raglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru mewn rhai achosion wedi datblygu partneriaethau strategol rhanbarthol cryf ar olion troed y byrddau iechyd. Roedd rhanddeiliaid mewn grwpiau partneriaeth lleol o'r farn fod y strwythurau llywodraethu hyn yn ddefnyddiol, wrth adlewyrchu ar yr angen i barhau i roi sylw i anghenion a blaenoriaethau lleol yn ogystal â rhanbarthol, a chydymffurfio â phrosesau lleol.

ASTUDIAETH ACHOS

## Caerffili: Partneriaethau lleol a rhanbarthol

Mae gan Gaerffili grŵp partneriaeth gweithredol bywiog sy'n agored i reolwyr gwasanaethau o bob rhan o'r system mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol. Mae'r grŵp yn cynnwys bydwreigiaeth, ymwelyddion iechyd, Dechrau'n Deg, a Theuluoedd yn Gyntaf, ac mae'n grŵp allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth, trafod a dadlau. Mae'r grŵp hefyd yn creu gweithgorau gorchwyl a gorffen ar flaenoriaethau allweddol y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt neu bryder cyffredin yn eu cylch. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, gwaith ar y berthynas rhwng ymweliadau iechyd generig a Dechrau'n Deg; y llwybr iaith a lleferydd lleol; a chynyddu dysgu o gynllun peilot trawsnewid Tredegar Newydd ar draws yr ardal ehangach. Mae gan reolwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgorau fandad i wneud penderfyniadau.

Mae Caerffili hefyd yn cefnogi grŵp llywio blynyddoedd cynnar Gwent sy'n cydlynu gwaith ar draws y rhanbarth ac yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Gwent. Mae'r grŵp llywio yn helpu i osgoi penderfyniadau lleol unochrog drwy ganolbwyntio ar egwyddorion cyffredin a model unedig sydd wedyn yn cael ei addasu i bob cyd-destun lleol.

Fodd bynnag, roedd llawer o ardaloedd lleol yn dibynnu ar arweinwyr gweithredol i weithredu trefniadau partneriaeth leol neu'n adrodd bod atebolrwydd am wahanol elfennau o'u gwaith yn perthyn i nifer o strwythurau gwahanol. Roedd strwythurau llywodraethu yn aml yn cael eu trefnu o amgylch dyraniad grantiau llywodraeth ganolog yn hytrach na strategaeth plentyndod cynnar gyffredinol, ac roedd yn ymddangos bod hyn yn annog ffocws ar brosiectau penodol yn hytrach na chynllunio ar gyfer yr ardal gyfan. Cymhlethwyd strwythurau llywodraethu ymhellach gan y diffyg cyd-ffinio rhwng llywodraeth leol a'r economi iechyd.

- *'Does yna ddim un man lle mae strategaeth yn cael ei chynnal, ei datblygu, ei harwain a'i pherchnogi o gwmpas y blynyddoedd cynnar, ac felly mae'n disgyn drwy'r bylchau.'*
- *'Mae yna sawl partneriaeth sefydledig a llwyddiannus ar gyfer meysydd gwaith neu grwpiau poblogaeth penodol ond dim partneriaeth gyffredinol.'*
- *'Dim llawer o gysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar a dim arweinyddiaeth glir yn y system. Mae'r berthynas â chydweithwyr iechyd yn dda ar lefel weithredol ond nid yw'n ymddangos bod yna arweinydd strategol cydlynol ar gyfer gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar a mamolaeth.'*
- *'Yn rhy aml mae partneriaid yn dod i wybod am ddarn o waith gorffenedig mewn cyfarfod partneriaeth yn hytrach na'u defnyddio i wneud cysylltiadau, neu i ymgorffori dysgu, profiad ac arferion sy'n cael eu rhannu.'*

Nodwyd strwythurau llywodraethu ar gyfer strategaeth plentyndod cynnar fel problem ym mhob ardal leol bron. Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF:

- roedd angen i saith ardal sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer arwain y gwaith hwn
- roedd angen i 12 ardal ddatblygu ymhellach y trefniadau strategol presennol ac ehangu cyfranogiad
- roedd angen i 11 ardal gynnwys mwy o randdeiliaid eraill iechyd a mamolaeth yn y trefniadau partneriaeth
- roedd angen i 8 ardal gryfhau'r berthynas rhwng y ffocws ar blentyndod cynnar a llywodraethu ehangach ar wasanaethau teulu a chymuned.

Yn gyffredinol, gwnaeth EIF argymhellion ar gryfhau trefniadau llywodraethu lleol i 18 o'r 20 ardal a gymerodd ran.

## Rolau arwain

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn canolbwyntio ar yr ymddygiadau arweinyddiaeth unigol sydd eu hangen i yrru strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar amlasiantaeth yn ei blaen, wedi'u dosbarthu ar draws rolau strategol, gweithredol a chymunedol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Dwyrain Swydd Gaer: Modelu arweinyddiaeth

Fel ardaloedd lleol eraill, mae Dwyrain Swydd Gaer wedi gorfod gweithio'n galed i sicrhau bod problemau plant yn cymryd eu lle ochr yn ochr â gofal cymdeithasol oedolion mewn trafodaethau am wasanaethau integredig, a bod partneriaid yn ymgysylltu'n llawn ag ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r tîm yn teimlo bod nifer o ffactorau allweddol wedi bod yn bwysig wrth wneud i hyn ddigwydd:

- cefnogaeth wleidyddol ac arweinyddiaeth ar lefel weithredol o fewn yr awdurdod lleol
- galluogi partneriaid i wrando ar brofiad a dymuniadau teuluoedd
- dod o hyd i'r bobl nad ydynt efallai'n adnabod y diriogaeth i ddechrau ond sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth
- dyfalbarhad wrth fod wrth y bwrdd
- arddangosiadau ymarferol o sut y gallai partneriaid helpu ei gilydd i gyflawni eu nodau sefydliadol priodol, er enghraifft trwy ddefnyddio asedau presennol (adeiladau a phobl)
- canolbwyntio gwaith ar y cyd i ddechrau ar raglenni diriaethol sydd â gwelededd uchel, fel bod partneriaid yn gallu gweld gwaith ar lawr gwlad.

Disgrifiodd rhai ardaloedd lleol sut y gallai newidiadau aml i uwch arweinwyr fod yn rhwystr i gynnydd, ac – yn enwedig yn Lloegr – disgrifiodd ardaloedd lleol wleidyddion ac uwch arweinwyr yn dynodi'r agenda plant – plentyndod cynnar yn benodol, ac atal ac ymyrraeth gynnar – fel blaenoriaeth isel:

- *'Busnes rhywun arall' yw'r blynyddoedd cynnar. Nid yw bob amser yn glir pwy sy'n arwain ar beth.'*
- *'Mae'n cymryd amser hir i sicrhau newid. Mae'n bosibl nad oes gan y system y bobl iawn yn arwain y gwaith hwn ar draws y sectorau, ac nid oedd cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd bob amser gan bobl ar lawr gwlad ac nid oedd uwch reolwyr bob amser yn gweld y problemau.'*
- *'Er ein bod yn nodi bod y teulu wrth galon y system, nid oes gennym gynrychiolaeth deuluol a chymunedol ddigonol o fewn y system, er enghraifft ar lefel bwrdd a grŵp llywio. Mae angen sicrhau bod teuluoedd yn cael y mewnbwn cywir ar y lefel gywir i reoli disgwyliadau.'*

Mae'r her arweinyddiaeth hefyd wedi'i disgrifio ar gyfer Lloegr yn yr adroddiad *Best Start for Life*[28] a nododd arweinyddiaeth ar gyfer newid ar lefel leol a chenedlaethol fel un o'r meysydd gweithredu allweddol. Awgrymodd yr adroddiad fod ansawdd arweinyddiaeth ac atebolrwydd lleol yn amrywio, gyda chefnogaeth ar gyfer y 1,001 o ddyddiau tyngedfennol yn aml yn cael ei wthio i'r cyrion ar lefel leol. Roedd yn cynnig 'arweinydd dynodedig, sy'n atebol yn lleol a fydd yn cymryd y cyfrifoldeb am gydgomisiynu holl wasanaethau *Start for Life* ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol'.

28 Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/the-best-start-for-life-a-vision-for-the-1001-critical-days

Roedd y trefniadau arweinyddiaeth mwyaf diogel ar gyfer partneriaeth a strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn debygol o gynnwys:

- uwch noddwr ar lefel cyfarwyddwr neu gyfarwyddwr cynorthwyol, a oedd yn hyrwyddwr brwd i'r gwaith hwn, gan helpu i gysylltu gwaith trawsnewid lleol ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar â pholisi a chynllunio teulu ehangach yn yr ardal leol
- arweinydd trawsnewid a oedd â chyfrifoldeb penodol am reoli'r rhaglen newid a dod â rhanddeiliaid ynghyd
- arweinydd data, dadansoddi neu werthuso, gyda'r gallu i droi data sefydliadol a chymunedol yn dystiolaeth leol, ac i roi dulliau cadarn ar waith ar gyfer mesur a gwerthuso darpariaeth leol er mwyn deall effeithiolrwydd yn well.

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Dyfnaint: Rolau arwain

Nod Rhaglen *Best Start in Life* Dyfnaint yw sicrhau bod pob babi a phlentyn ifanc yn Nyfnaint yn cael y dechrau gorau mewn bywyd gan eu teuluoedd, cymunedau lleol a gwasanaethau integredig, ac y bydd teuluoedd yn cael profiad di-dor gyda mynediad i'r wybodaeth a'r gwasanaethau y  bydd arnynt eu hangen pan fydd eu hangen arnynt.

Mae'r rhaglen yn cael ei llywodraethu gan fwrdd aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant, y blynyddoedd cynnar, ymwelyddion iechyd, bydwreigiaeth a'r gymuned a'r sector gwirfoddol. Mae'r bwrdd yn adrodd i Bartneriaeth Plant a Theuluoedd Dyfnaint ac mae'n gyfrifol am gynnydd y rhaglen ac adnoddau'r rhaglen.

Ymgynghorydd iechyd y cyhoedd yw'r uwch swyddog cyfrifol (SRO) ar gyfer y rhaglen a chadeirydd bwrdd y rhaglen. Yr Uwch Swyddog Cyfrifol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno a chanlyniadau'r rhaglen.

Mae rheolwr newid rhaglenni yn gyfrifol am reoli'r rhaglen o ddydd i ddydd, ac mae ganddo'r awdurdod i arwain gwaith y rhaglen ar ran Bwrdd y Rhaglen. Mae'r rheolwr newid rhaglenni yn rheoli perthnasoedd ag ystod eang o randdeiliaid a chyfranwyr, ac yn adrodd i'r uwch swyddog cyfrifol a Bwrdd y Rhaglen.

Darperir dadansoddiad data a gwybodaeth ar gyfer y rhaglen trwy'r Timau Gwybodaeth Rheoli Plant a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ategol. Defnyddir One Devon Dataset i lywio darpariaeth – set ddata gysylltiedig o ddata na ellir ei hadnabod sy'n gallu olrhain unigolion, teuluoedd a chymunedau drwy eu hoes i ddatblygu dealltwriaeth o gyd-ddibyniaeth systemau, anghydraddoldebau, anghenion a chostau.

Roedd rheolwr ymchwil a gwerthuso'r blynyddoedd cynnar yn rhan o dîm y rhaglen yn ystod y camau cychwynnol. Roedd y rôl yn bwysig wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth am brofiad teuluoedd o wasanaethau, gan gynnwys profiad o gyflenwi digidol yn ystod yr ymateb i'r pandemig, a bu'n gweithio'n agos gyda sefydliadau fel EIF i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau blynyddoedd cynnar a mamolaeth Dyfnaint.

Yn ymarferol, ychydig o ardaloedd oedd yn gallu dangos arweinyddiaeth ar bob un o'r tair lefel hyn. Roedd uwch arweinwyr mewn llawer o ardaloedd lleol yn gefnogol ond ddim yn cymryd rhan yn ymarferol, gan adael arweinwyr gweithredol ar gyfer y blynyddoedd cynnar i lywio'r agenda drawsnewid. Ychydig o ardaloedd oedd â chapasiti o ran data a dadansoddi penodol y gallent alw arno ar gyfer y gwaith hwn. Roedd y bylchau hyn yn arbennig o amlwg yng Nghymru, lle'r oedd Rheolwyr Rhaglen Dechrau'n Deg yn hyrwyddwyr angerddol ac uchel eu parch ar gyfer yr agenda hon, ond o dan bwysau i reoli gofynion gweithredol a strategol, ac nid bob amser mewn sefyllfa dda i lywio'r cyd-destun strategol ehangach ar gyfer gwasanaethau i deuluoedd a chymuned.

# Mewnwelediad 4: Cefnogi cymunedau i ysgogi newid

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried sut mae teuluoedd a chymunedau lleol yn rhan o gynllunio a darparu strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n symud o ymgynghori ffurfiol i gymryd rhan mewn strwythurau llywodraethu, lle gwneir penderfyniadau am adnoddau. Mae'n canolbwyntio ar y rôl y mae cefnogaeth gan gymheiriaid, datblygu cymunedol, a chyfranogiad yn y ddarpariaeth yn ei chwarae yn y strategaeth leol. Mae'n pwysleisio cefnogaeth i arweinwyr cymunedol.

Mae polisi cenedlaethol ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn aml yn gosod cyfranogiad teuluoedd a chymunedau lleol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae canllawiau gofal mamolaeth yng Nghymru a Lloegr yn pwysleisio cyd-gynhyrchu gyda menywod a'u teuluoedd, gan gynnwys creu partneriaethau lleisiau mamolaeth neu bwyllgorau cyswllt gwasanaethau mamolaeth, sy'n bwyllgorau amlddisgyblaethol annibynnol, ffurfiol sy'n dylanwadu ac yn rhannu yn y broses o wneud penderfyniadau yn y system famolaeth leol. Mae canllawiau statudol canolfannau plant Cychwyn Cadarn yn ei gwneud yn ofynnol i deuluoedd a chymunedau lleol gael dweud eu dweud yn y ffordd y caiff canolfannau plant eu cynnal, gan gynnwys fel rhan o fwrdd cynghori canolfannau plant.

Fel y disgrifiwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol,[29] 'mae cydgynhyrchu yn golygu creu, darparu a gwerthuso gwasanaethau ar y cyd â phobl a fydd yn eu defnyddio. Mae'n fwy na dim ond ymgynghori neu hysbysu pobl am benderfyniadau. Mae'n ymwneud yn ystyrlon â phobl sydd â phrofiad ymarferol, sy'n dod â gwybodaeth ac arbenigedd o brofiad uniongyrchol o sefyllfa. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y profiad byw hwn yn cael ei gydnabod mewn golau cadarnhaol, fel cryfder yn hytrach nag angen neu ddiffyg.'

Ar draws yr 20 ardal sy'n defnyddio'r matrics roedd llawer o enghreifftiau o gynnwys rhieni lleol wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Kirklees: Cyd-ddylunio a chymorth gan gymheiriaid

Mae Anti Pam's yn wasanaeth cymorth teulu ac yn ystod beichiogrwydd a ddatblygwyd gyda gwragedd lleol, a ddisgrifir fel gwasanaeth sy'n ceisio ymgysylltu â'r gwragedd ac aelodau'r teulu sy'n hawdd eu hanwybyddu, sydd wedi ymddieithrio neu ar y cyrion. Mae cymorth cymheiriaid gwirfoddol 1:1 Anti Pam yn cynnig cyfle i wragedd nodi a thrafod eu problemau; blaenoriaethu anghenion, datrysiadau a nodau; a chyda chefnogaeth, gwella eu hamgylchiadau personol.

Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i weithio trwy gylchoedd newid ysbrydoledig sylfaenol sy'n arwain at well iechyd a newid mewn lles. Mae merched yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a rhwydweithiau cymorth eraill lle bo angen. Yn holl bwysig, mae gwirfoddolwyr yn cynnig gwasanaeth amser llawn, gan ganiatáu i ferched symud ar eu cyflymder eu hunain i ymgysylltu a thrafod. Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw hwn gan alluogi merched i nodi atebion a gwneud eu dewisiadau eu hunain.

Mae gwirfoddolwyr Anti Pam yn cael y cyfle i ennill ystod o gymwysterau Lefel 2. Maent yn cynrychioli merched lleol ar grwpiau partneriaeth, ac yn helpu i lunio gwasanaethau'r darparwr iechyd lleol a gwybodaeth i deuluoedd.

29 Ar gael yn https://www.ncb.org.uk/sites/default/files/uploads/files/Insight%203%20-%20A%20Better%20Start%20Through%20Better%20Systems%20-%20Parent%20Family%20and%20Community%20Engagement%20-%20FINAL3.pdf

ASTUDIAETH ACHOS

## Ceredigion: Datblygu ymdeimlad o gymuned

Mae grwpiau cyfeirio yng Ngheredigion yn dod â rhieni, grwpiau cymunedol llawr gwlad, cynghorwyr lleol, sefydliadau trydydd sector, grwpiau ffydd, asiantaethau cyflogaeth, darparwyr chwarae a gofal plant, a staff canolfannau teulu ac awdurdodau lleol ynghyd bob tymor i drafod y materion sy'n wynebu eu hardal leol ac i ddatrys problemau.

Mae creu ymdeimlad o gymuned yn elfen bwysig o bolisi Cymru. Un enghraifft yw Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru o gynghorau, Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, sydd wedi creu banc amser i ddod â chymunedau ac unigolion ynghyd. Dyma le y gall unigolion gynnig cymorth neu ofyn am gymorth gan eu cymdogion a'r gymuned ehangach. Mae Connect 2 Ceredigion wedi'i greu nid fel lle ar gyfer gwirfoddoli traddodiadol, ond fel banc amser a 'lle ar gyfer gweithredoedd bach o garedigrwydd yma ac acw rhwng pobl Ceredigion, yn seiliedig ar y sgil unigol sydd ganddynt i'w gynnig neu'r broblem benodol sydd angen ei datrys.'

ASTUDIAETH ACHOS

## Tower Hamlets: Gwirfoddolwyr sy'n rhieni

Yn Tower Hamlets mae cydlynydd gwirfoddolwyr a ariennir gan y Ganolfan Byd Gwaith, yn gweithio ar draws y 12 canolfan plant a theuluoedd i gefnogi rhieni gyda phrofiad gwaith yn y canolfannau. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys pethau fel gwaith clerigol, cefnogi sesiynau cyffredinol, neu ddarparu cyfleoedd i ymarfer sgwrsio yn Saesneg. Lle mae gan rieni ddiddordeb mewn cael gwaith, mae'r canolfannau'n cefnogi ymgysylltu â thîm llwybr gwaith y cyngor i gael cyngor a chymorth.

Bydd rhieni'n aml yn symud ymlaen o wirfoddoli i ddod yn aelodau o fforymau rhieni'r canolfannau, lle maen nhw'n edrych ar ddeilliannau, yn archwilio materion fel y niferoedd isel sy'n manteisio ar gyfleoedd mewn rhai teuluoedd, ac yn rhoi cyngor am raglenni gweithgareddau. Mae fforymau wedi mynd yn fwy amrywiol dros amser, gydag arweinwyr newydd yn dod i'r amlwg o genhedlaeth iau, gan gynnwys llawer o famau tro cyntaf o stadau lleol.

Un o raglenni'r amgylchedd dysgu cartref a ddefnyddir yn y fwrdeistref yw *Early Words Together* yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, lle mae rhieni i ddechrau yn cyd-gyflwyno sesiynau ochr yn ochr â staff meithrinfeydd, ac yn ddiweddarach yn eu cynnal yn annibynnol. Mae'r rhieni a gymerodd ran wedi dod yn grŵp pwerus – yn siarad mewn cynadleddau lleol ac yn cymryd rhan mewn gweithdai ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol.

ASTUDIAETH ACHOS

## Hammersmith a Fulham: Hyrwyddwyr cymunedol

Mae Hammersmith a Fulham yn ariannu rhaglen wirfoddoli hyrwyddwyr cymunedol o bobl leol sy'n hybu gwybodaeth a gwasanaethau iechyd a lles i drigolion lleol. Mae'r rhaglen yng Nghanolfan Gymunedol a Phlant Old Oak* yn cynnwys hyrwyddwyr mamolaeth, sy'n helpu rhieni newydd a darpar rieni o gyfnod beichiogrwydd hyd at ben-blwydd cyntaf babi mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys paratoi ar gyfer genedigaeth, bondio gyda'r babi, bwydo ar y fron, a chymorth cyntaf.

* Canolfan Gymunedol a Phlant Old Oak: http://www.communitychampionsuk.org/teams/hammersmith-and-fulham/old-oak/old-oak-home/

ASTUDIAETH ACHOS

## Sir Gaerfyrddin: Cysylltwyr Cymunedol

Datblygiad pwysig mewn sawl rhan o Gymru yw rôl Cysylltwyr Cymunedol, a gyflogir gan yr awdurdod lleol ac sy'n gweithio ar ddatblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau. Mae Cysylltwyr Cymunedol yn mapio gwasanaethau lleol, yn siarad â phobl leol i ganfod beth sydd ar goll, ac yn anelu at greu newid, gan rymuso unigolion i ddod yn hyrwyddwyr cymunedol.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi treialu'r rôl hon o fewn tîm y blynyddoedd cynnar. Nododd y Cysylltydd Cymunedol asedau cymunedol nad oedd gwasanaethau statudol yn gwybod amdanynt yn flaenorol, ac maent  wedi datblygu mentrau newydd fel grŵp cerdded i famau ac amser stori egnïol, gan nodi pobl yn y gymuned a allai gynnal y rhain eu hunain bob amser.

Ond yn gyffredinol roedd yr enghreifftiau o gynnwys rhieni a theuluoedd lleol yn tueddu i fod ar gyfer gwasanaeth penodol yn unig neu â chyfyngiad amser, yn hytrach nag yn rhan o ddull gweithredu cyson a rheolaidd ar draws y bartneriaeth leol ar gyfer datblygu strategaeth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn gyson ag astudiaeth EIF ar ganolfannau plant a hybiau teulu yn 2020[30] a ganfu bod cysylltiad rhieni â chynllunio a chyflwyno strategol yn gyfyngedig, ac a nododd ei bod yn ymddangos bod cyd-ddylunio gyda rhieni a chymunedau wedi'i fewnblannu orau lle mae hyn wedi'i nodi mewn strategaeth leol.

Ar draws yr 20 ardal a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd nid oedd unrhyw enghreifftiau o fapio na strategaethau ymgysylltu ar draws y bartneriaeth, nac o gymhellion yn cael eu cynnig i deuluoedd am gymryd rhan mewn dylunio gwasanaethau neu gynllunio strategol. Roedd ardaloedd lleol yn aml yn canolbwyntio ar drefnu gwasanaethau yn hytrach na datblygu cymunedol i alluogi'r gymuned i gynnal ei hun, a nododd nifer o gyflwyniadau'r angen am newid meddylfryd o rôl trwsiwr neu wneuthurwr i rôl cydweithiwr.

30 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

Nododd hunanasesiadau'r canlynol fel rhwystrau allweddol i gynnwys teuluoedd wrth ddylunio a darparu gwasanaethau:

- roedd pwysau amser yn ffactor i staff ond hefyd i deuluoedd a oedd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn cyfarfodydd oherwydd tlodi a gweithio mewn amryfal swyddi.
- diffyg unrhyw ysgogiad allanol, '*mae data cyfyngedig ar gael am brofiad teuluoedd ac nid oes unrhyw gymhelliant i'w gasglu*'.
- yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol, '*gallai'r iaith o amgylch ymgynghoriadau fod yn anodd ei deall. Efallai y byddai'n well sôn am 'sgyrsiau cymunedol*'.
- amharodrwydd rhai teuluoedd i fanteisio ar wasanaethau, a oedd yn golygu bod eu lleisiau'n llai tebygol o gael eu clywed.

Roedd canfyddiad yn rhai o ardaloedd lleol Cymru fod dewislen sefydlog o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o raglen 'o'r brig i lawr lle roedd ymyriadau yn cael eu gwneud iddyn nhw' yn atal ymgysylltiad, gan olygu nad oedd teuluoedd yn dymuno rhoi eu hadborth am sut y gallai pethau gael eu gwella, ac nad oedd staff yn dymuno gofyn am adborth oherwydd eu bod yn teimlo na allent wneud newidiadau: '*Mae pobl yn poeni y bydd teuluoedd yn dweud bod arnyn nhw eisiau gwasanaethau heblaw'r rhestr gymeradwy*.'

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF:

- Gallai 19 o'r 20 ardal leol elwa o ddefnyddio datblygu strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol fel cyfle i ddatblygu ymhellach ymgysylltiad rhieni a chymunedau mewn trefniadau llywodraethu a phenderfyniadau am adnoddau.
- Dylai pob un o'r 20 ardal leol ystyried sut i annog aelodau'r gymuned i ymgymryd â rolau arwain, a nodi ffyrdd o ariannu hyn mewn ffordd gynaliadwy
- Dim ond tair ardal leol oedd yn ymddangos yn barod i greu strategaeth ymgysylltu benodol i ffurfioli eu gwaith ynghylch perchnogaeth gymunedol.
- Gallai pob ardal leol elwa ar ddysgu mewn mannau eraill a oedd ymhellach ymlaen o ran gyd-gynhyrchu, cysylltu â theuluoedd a chymorth rhiant-i-riant, er enghraifft y pum safle *Better Start* a ariennir gan y Loteri yn Lloegr.

# Darparu

## Sut mae ardaloedd lleol yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau, ac yn rhannu gwybodaeth


Mae dimensiwn Darparu'r matrics aeddfedrwydd yn canolbwyntio ar ansawdd a chydlyniad y gwasanaethau a'r ymyriadau sy'n cael eu darparu ar draws y system amlasiantaeth leol, gan gwmpasu tair elfen graidd:

- Sut, ar lefel weithredol, mae gwasanaethau lleol yn darparu gwasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar o safon, a sut y defnyddir rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Sut mae gwasanaethau lleol yn cydweithio â'i gilydd gan ddefnyddio systemau a phrosesau cyffredin, ac yn casglu a rhannu data personol i gefnogi'r gwaith o gynllunio gofal.
- Pa wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd am wasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar a ble y gallant ddod o hyd i gymorth.

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ardaloedd lleol a oedd yn defnyddio'r matrics aeddfedrwydd ar y lefel cynnydd cynnar ar gyfer y dimensiwn Darparu, gan adlewyrchu eu bod yn gweithredu ond heb weld y canlyniadau eto.

**FFIGUR 6**

Graddfeydd cynnydd y matrics aeddfedrwydd ar gyfer yr 20 ardal leol (Cymru a Lloegr) a gymerodd ran ar draws elfennau'r dimensiwn Darparu



# Mewnwelediad 5: Cael y gorau o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried i ba raddau y mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu defnyddio'n lleol, gan gynnwys rhaglenni rhianta a rhaglenni dwy genhedlaeth sy'n helpu rhieni i sgaffaldio dysgu plant gartref; a rhaglenni dwys o ymweliadau cartref. Mae hefyd yn ystyried sut y cânt eu darparu gyda ffyddlondeb, eu targedu'n gywir a'u gwerthuso ar gyfer effaith.

Mae EIF yn argymell defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o'r cymorth a gynigir yn lleol i deuluoedd. Mae EIF yn diffinio ymyriadau (neu raglenni) seiliedig ar dystiolaeth fel y rhai sydd wedi dangos effaith gadarnhaol ystadegol arwyddocaol ar ddeilliant o leiaf un plentyn mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn drylwyr. Cyhoeddir manylion 64 o ymyriadau o'r fath yn Llawlyfr EIF.[31]

Mae plant a theuluoedd a phlant sy'n derbyn ymyriadau y dangoswyd eu bod yn gwella deilliannau yn fwy tebygol o elwa, ac i raddau mwy, na'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau eraill. Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel arfer wedi'u mireinio a'u gwerthuso'n helaeth er mwyn profi eu damcaniaeth newid, a dangos pa effaith y gallant ei chael ar ddeilliannau plant, a'r rhain yn aml yw'r llwybr gorau tuag at wella deilliannau. Mae rhai o'r ymyriadau hyn hefyd yn dod gyda chefnogaeth ar gyfer gweithredu, hyfforddi a mesur.

Ond nid yw comisiynu a darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth bob amser yn syml. Gallai fod yn anodd nodi'r ymyriad cywir sy'n diwallu anghenion teuluoedd ac sy'n cyd-fynd â sgiliau a gallu'r gweithlu, neu sy'n cyfateb yn dda â'r cyd-destun lleol ehangach y byddai angen darparu'r ymyriad o'i fewn. Ni ellir ychwaith gynnig ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i deuluoedd oherwydd bod bylchau sylweddol o hyd yn ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac efallai nad oes gan yr ymyriad cywir bob amser y dystiolaeth orau. Mae ymyriadau sy'n benodol o ran sut y dylid eu darparu, a'r rhai sydd wedi'u targedu at blant a theuluoedd sy'n fwy agored i niwed, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwerthuso na mathau eraill o ymyriadau. Ac ymhellach, erys bylchau pwysig yn y dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae ymyriadau yn ystyried gwahaniaethau ethnig a diwylliannol gwahanol.

Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau cymorth sydd ar gael i deuluoedd wedi cael eu gwerthuso, er efallai eu bod wedi'u dylunio gan ddefnyddio corff ehangach o ymchwil academaidd, ac felly'n cael eu hystyried yn seiliedig ar dystiolaeth.  Enghraifft o hyn yw Rhaglen y Plentyn Iach.

Ar draws yr 20 ardal leol gan ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd, roedd ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ar gael yn helaethach yng Nghymru nag yn Lloegr, yn bennaf o ganlyniad i ganllawiau cenedlaethol sy'n sail i Dechrau'n Deg a rhaglenni eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

» *Gweler bocs **Dechrau'n Deg** ar y dudalen nesaf*

Yng Nghymru a Lloegr, roedd rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth a ddewiswyd mewn gwirionedd i'w gweithredu'n lleol yn tueddu i ganolbwyntio ar raglenni rhianta ar gyfer ymddygiad plant. Roedd llai o ffocws ar raglenni rhianta i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref, ac eithrio'r rhaglen Partneriaeth Nyrsys Teulu[32] sydd ar gael yn eang yn Lloegr o hyd.

Roedd llawer o'r ymatebion hunanasesu o ardaloedd lleol yn dangos yr heriau o integreiddio rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o'r cynnig lleol:

- Dywedwyd bod ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u 'gwanhau' oherwydd diffyg amser a gallu staff i'w darparu gyda ffyddlondeb.

31 Ar gael yn https://guidebook.eif.org.uk/

32 Ar gael yn https://guidebook.eif.org.uk/programme/family-nurse-partnership

- Roedd diffyg hyder staff wrth gyflwyno rhai o'r ymyriadau ar sail tystiolaeth wedi arwain at wneud mân newidiadau i raglenni, a disgrifiwyd bod y staff yn teimlo'n anghyfforddus o gael eu gwylio yn cyflwyno neu'n trafod gyda'u rheolwr mewn sesiynau goruchwylio – 'mae'n anodd gwirio ffyddlondeb'.
- *'Mae yna ddiffyg cysondeb o ran y ffordd y caiff rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth eu darparu, eu monitro a'u gwerthuso ar draws y system, a diffyg dealltwriaeth o'r ymyriadau integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gynigir.'*

Disgrifiodd ymatebion o lawer o ardaloedd lleol gysylltiad gwan rhwng data lleol a chynllunio gwasanaethau, neu ddiffyg data lleol da am effeithiolrwydd y gwasanaethau:

- *'Mae gofynion rhaglenni a grantiau yn arwain y gwaith monitro a gwerthuso. Mae hyn wedi symud ffocws oddi wrth ansawdd a deilliannau, ac nid oes llawer o gymhelliant i gofnodi gwybodaeth nad yw'n cael ei hadrodd na'i monitro. Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar allbynnau nid deilliannau ac mae hyn yn rhwystr i fonitro a gwella ansawdd gwasanaethau.'*
- *'Mae gwasanaethau'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae pwysigrwydd defnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gydnabod yn dda a'i ymgorffori wrth gynllunio gwasanaethau. Ond mae dewis rhaglenni yn aml yn cael ei arwain o'r tu allan, felly er bod y dystiolaeth yn hysbys nid cyfrifoldeb y rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol yw adolygu opsiynau gwahanol. Rydym yn derbyn y dystiolaeth, ac rydym yn defnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft, caiff rhaglenni rhianta eu dewis o gronfa ragnodedig o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Efallai y byddai mwy o angen pe baent yn nodi gwahanol anghenion yn lleol ac yn penderfynu ar gynnig lleol.'*
- *'Mae cred hanesyddol mewn ymyriadau a ddarperir gan asiantaethau wedi'u hynysu oddi wrth wasanaethau eraill wedi golygu bod teuluoedd wedi cael yr un ymyriadau ar sawl achlysur. Nid yw priodoldeb ymyriad bob amser wedi bod yn destun ystyriaeth, mae cyllid wedi parhau ar gyfer yr ymyriad hwnnw, gan arwain at gyfeirio teuluoedd at ddarpariaeth sydd yno'n barod yn hytrach na'r hyn a fyddai wedi bod yn fwy addas i'w hanghenion.'*

## DECHRAU'N DEG: Rhestr gymeradwy o raglenni rhianta mewn grŵp yn seiliedig ar dystiolaeth

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[1] ar gyfer darparu cymorth rhianta fel rhan o raglen Dechrau'n Deg yn pennu ymyriadau grŵp ac un-i-un a aseswyd gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar[2] a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Rhianta fel rhan o restr gymeradwy, gan gynnwys:

**Wedi'u hasesu gan EIF:**

- *Parents as Partners*
- *Let's Play in Tandem*
- *Empowering Parents, Empowering Communities (EPEC)*

**Wedi'u hasesu gan EIF a'r *National Academy for Parenting Practitioners*:**

- *Family Foundations*
- *Incredible Years: Parent & Baby; Parent & Toddler*
- *Triple P / Stepping Stones*
- *Parents Plus Early Years (PPEY)*
- *Incredible Years: School Readiness; Pre-school BASIC*
- *Solihull Approach, Understanding Your Child's Behaviour*
- *Parents as First Teachers*
- *New Forest Parenting*

» *Yn ôl i dudalen 44*

1 Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-parenting-support-guidance.pdf

2 Mae ymyriadau a aseswyd gan EIF i'w gweld yn Llawlyfr EIF https://guidebook.eif.org.uk/

ASTUDIAETH ACHOS

## Caerffili: Cynnig craidd, nid dewislen o ymyriadau

Defnyddiodd Caerffili *The Vanguard Method* ar gyfer systemau er mwyn deall yn well y berthynas rhwng gwahanol fathau o gymorth i deuluoedd â gwahanol lefelau o angen, a bu hyn yn gymorth i ddylunio cynnig craidd ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae tîm craidd Beth sy'n Bwysig yn cynnwys ymwelyddion iechyd, gweithwyr teulu, bydwragedd ac ymarferwyr iechyd meddwl rhieni-babanod sy'n cydweithio yn hytrach nag atgyfeirio. Maent yn cydlynu cymorth i deuluoedd, ac yn gwneud yn siŵr bod ymyriadau'n cyfateb yn dda ag anghenion teuluoedd unigol.

Mae staff wedi'u hyfforddi i gyflwyno amrywiaeth o wahanol raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys Rhieni fel Athrawon Cyntaf, Dull Solihull, Canllawiau Fideo Rhyngweithiol a'r Cylch Diogelwch. Mae yna hefyd nifer o ymyriadau a dyfwyd yn lleol sy'n canolbwyntio mwy ar y teulu ac sy'n bwysig ar gyfer meithrin ymgysylltiad rhieni a hunan-barch. Ond, yn gyffredinol, mae'r ffocws wedi symud o ymyriadau grŵp i gymorth un-i-un.

Roedd trefniadau lleol ar gyfer monitro ansawdd ac effaith y gwaith o gyflwyno ymyriadau hefyd yn broblem ym mhob ardal leol bron. Yn gyffredinol, nodwyd bod 17 o'r ardaloedd lleol yn debygol o elwa o fapio ac asesu effeithiolrwydd y cynnig ymyrraeth leol. Byddai hyn yn nodi'r llwybr cymorth cyffredinol sydd ar gael yn lleol i deuluoedd; yn cadarnhau pa ymyriadau sy'n perfformio'n dda ac yn cyflawni deilliannau da i blant; yn nodi bylchau a chefnogi penderfyniadau am flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi.


ASTUDIAETH ACHOS


## Dyfnaint: Mapio ymyrraeth

Bu Cyngor Sir Dyfnaint yn gweithio gydag EIF i adolygu cymorth mamolaeth a blynyddoedd cynnar presennol i blant a theuluoedd. Archwiliodd y broses fapio pa mor effeithiol oedd ymyriadau yn unigol ac fel rhan o system leol, a chynigiodd ffyrdd penodol o gynyddu effaith.

Roedd y broses yn graddio ymyriadau o ran eglurder eu damcaniaeth newid, ansawdd y gweithredu lleol, sut roeddent yn cyd-fynd â'r cyd-destun lleol, cryfder y dystiolaeth am effaith, a'r trefniadau lleol ar gyfer monitro a gwerthuso.

Roedd casgliadau'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ffyrdd o gryfhau'r gwaith monitro lleol o ansawdd gweithredu a mesur deilliannau, a defnyddio'r asesiad o anghenion y boblogaeth leol i lywio'r ffordd yr oedd ymyriadau yn cael eu cynllunio a'u darparu yn Nyfnaint.



ASTUDIAETH ACHOS

## Torfaen: Data mapio gwasanaethau

Bu Torfaen yn gweithio gydag ymgynghorydd annibynnol i greu cronfa ddata ar-lein a ddefnyddir i fapio gwasanaethau a rhaglenni lleol. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys gwasanaethau cyffredinol, wedi'u targedu ac arbenigol ar gyfer plant hyd at 7 oed, ac mae'n disgrifio'r hyn y mae'r gwasanaethau'n ei wneud, sut y cânt eu hariannu, ar gyfer pwy y maent a pha bartneriaid sy'n ymwneud â'u darparu. Mae grŵp gweithredol blynyddoedd cynnar newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn helpu i dyfu'r gronfa ddata, er enghraifft drwy gynnwys mwy o'r gwasanaethau a ddarperir gan bartneriaid yn y sector gwirfoddol lleol.

Defnyddir y data mapio gwasanaethau gan Grŵp Strategol Blynyddoedd Cynnar Torfaen i ddeall bylchau yn y cymorth i deuluoedd, ac i lywio cynllunio a blaenoriaethu strategol. Mae hefyd yn cefnogi cynllun peilot Rhaglen Trawsnewid Integreiddio Blynyddoedd Cynnar Torfaen i integreiddio rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth a argymhellir yn genedlaethol ochr yn ochr ag ymyriadau a nodwyd yn lleol, a chynnig cymorth mwy hyblyg yn seiliedig ar fregusrwydd teuluol yn hytrach na chodau post.

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau'r panel EIF, gallai tri chwarter yr ardaloedd hefyd elwa'n benodol ar drefniadau mwy cadarn ar gyfer monitro ffyddlondeb wrth ddarparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys adrodd ar ffyddlondeb ac effaith i uwch arweinwyr. Mae ffyddlondeb ar gyfer rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig. Gallai darparwyr yr ymyriadau hyn godi tâl am eu defnyddio oherwydd y gwaith profi a gwerthuso sydd eisoes wedi'i gwblhau, sy'n gweithredu fel canllaw i'r ffordd orau o gael yr effaith fwyaf. Mae addasu'r ymyriad yn lleol yn ei hanfod yn golygu talu'r premiwm ond annilysu'r 'gwarant'.

ASTUDIAETH ACHOS

## Sir y Fflint: Darparu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda ffyddlondeb

Mae gan Sir y Fflint enw da am ddefnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhai sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth. Mae llawer o hyn wedi deillio o'r gwaith hirsefydlog ar strategaeth rianta Sir y Fflint a'r gwaith a wnaed fel rhan o raglen Dechrau'n Deg ar leferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae rhaglenni magu plant yn cael eu gwerthuso'n gyson gan ddefnyddio offeryn Graddfa Iechyd Meddwl a Lles Warwick Caeredin ochr yn ochr â mesurau pellter a deithiwyd ac, ar gyfer iaith, Mesurau Deilliannau Therapi (TOMS). Mae goruchwylio a dosbarthiadau meistr rhwydwaith cymheiriaid ar waith i sicrhau ffyddlondeb rhaglenni. Mae'r portffolio o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd meithrin gallu cymunedol, drwy'r dewis o raglen Grymuso Rhieni, Grymuso Cymunedau (EPEC) a arweinir gan wirfoddolwyr.

# Mewnwelediad 6: Gwneud i waith amlasiantaeth weithio

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried nodweddion allweddol gwaith amlasiantaeth cydgysylltiedig, gan gynnwys arferion sy'n canolbwyntio ar y teulu fel: 'tîm o amgylch y teulu'; y defnydd o lwybrau integredig sy'n disgrifio sut mae teuluoedd agored i niwed yn cael eu cefnogi ar draws gwahanol wasanaethau; prosesau cyffredin ar gyfer atgyfeirio ac asesu, ac iaith gyffredin i ddisgrifio sut y caiff anghenion eu nodi, eu hasesu a'u diwallu; a rhannu data, gan gynnwys data personol, i gefnogi'r gwaith o gynllunio gofal a monitro cynnydd.

Mae'r egwyddor o fwy o synergedd rhwng partneriaid lleol ynghylch y trefniadau ymarferol ar gyfer darparu cymorth i deuluoedd wedi'i gwreiddio mewn polisi cenedlaethol.

Yn Lloegr, mae canllawiau statudol[33] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol gydweithio i ddarparu gwasanaethau plentyndod cynnar mewn modd integredig, gan ddiffinio hyn fel 'lle mae pawb sy'n cefnogi plant yn cydweithio'n effeithiol i roi'r plentyn yn y canol, diwallu ei anghenion a gwella ei fywyd', a lle mae hyn yn hwyluso mynediad at wasanaethau ac yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i deuluoedd.

Yng Nghymru, mae canllawiau strategol Dechrau'n Deg ar gyfer[34] awdurdodau lleol yn disgrifio sut 'mae datblygu dull amlasiantaeth o ymdrin â Dechrau'n Deg yn allweddol i effeithiolrwydd y rhaglen ac mae'n allweddol o ran cefnogi plant a theuluoedd, gan ei gwneud yn bosibl i adnabod, asesu ac atgyfeirio'n gynnar.'

Mae'r rhesymeg dros wasanaethau integredig a gweithio rhyngbroffesiynol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth ei bod yn cynnig y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau i deuluoedd – yn enwedig i deuluoedd o gefndiroedd difreintiedig neu ymylol – drwy fynd y tu hwnt i'r 'darnio' a'r 'seilos' a nodwyd yn gyson fel elfennau sy'n cyfyngu ar ddarpariaeth gwasanaethau i blant a theuluoedd ar lefel leol.[35]

Ond prin yw'r dystiolaeth werthuso ddibynadwy am effeithiolrwydd systemau integredig amlasiantaeth o ran gwella deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, ac mae diffyg manylder yn y termau megis 'integreiddio' a 'gweithio cydgysylltiedig' a ddefnyddir yn gyffredin i ddisgrifio gweithio amlasiantaeth.[36]

Dangosodd gwaith blaenorol EIF ar ganolfannau plant a chanolfannau teulu yn Lloegr[37] drefniadau lleol amrywiol iawn ar gyfer gweithio integredig, o 'lawer iawn' i 'ddim yn rhan o'r hyn a wneir'.

## Sut y dylid integreiddio gwasanaethau? Negeseuon o ymarfer

*From 'Planning Early Childhood Services in 2020' (Early Intervention Foundation, Lloegr)*

Ystyrid bod datblygu llwybrau cymorth i deuluoedd yn ffordd bwysig o greu integreiddio. Dywedid bod diffyg llwybrau ar y cyd yn creu gwasanaethau datgysylltiedig ac anghyson ac weithiau hyd yn oed ymagweddau croes. Soniodd llawer o ardaloedd am deuluoedd oedd yn wynebu 'drysau ffrynt' lluosog i gael gafael ar gymorth, gydag ymateb amrywiol yn dibynnu ar y pwynt cyswllt cyntaf.

*Bocs yn parhau ar y dudalen nesaf »*

33 Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/678913/childrens_centre_stat_guidance_april-2013.pdf

34 Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-strategy-guidance-for-local-authorities.pdf

35 Tunstill et al., (2005) fel y cyfeirir ato yn adroddiad EIF *Planning Early Childhood Services in 2020*, sydd ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

36 Multi-agency Systems review (2016), Early Intervention Foundation [heb ei gyhoeddi]

37 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

*« Bocs yn parhau o'r dudalen flaenorol*

Roedd rhai ardaloedd wedi paratoi mapiau taith ar gyfer y plentyn er mwyn gwella mynediad a lleihau nifer y 'trosglwyddiadau' rhwng gwasanaethau, ochr yn ochr ag asesiadau cyfannol a phrosesau atgyfeirio symlach.

Ystyrid bod protocolau clir ar gyfer rhannu data yn hanfodol i berthnasoedd gwaith da ac ymddiriedaeth rhwng asiantaethau. Roedd yn haws sefydlu'r rhain drwy ganolbwyntio ar sut y gallai rhannu data wella deilliannau i deuluoedd mewn ffordd ymarferol iawn.

Soniodd y rhan fwyaf o ardaloedd am bwysigrwydd amser a pherthnasoedd i sicrhau llwyddiant cydweithio, gan bwysleisio pa mor bwysig oedd datblygu diwylliant a rennir yn y gweithle. Er bod rhai yn disgrifio cydleoli fel elfen sy'n helpu, yn gyffredinol nid oedd yn cael ei ystyried yn gynhwysyn hanfodol ac yn fwy addas ar gyfer rhai lleoliadau ffisegol nag eraill. Mae pethau a nodwyd fel rhai sydd ymhlith y rhai sy'n bwysicach yn cynnwys ymarferwyr o wahanol sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymyriadau, a rhannu data am y teuluoedd yr oedd asiantaethau gwahanol yn gweithio gyda nhw.

Ar draws yr 20 ardal leol gan ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd roedd llawer o enghreifftiau o ddulliau effeithiol ar gyfer gweithio cydgysylltiedig, er enghraifft ar lwybrau amlasiantaeth a phrosesau cyffredin:

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Dwyrain Swydd Gaer***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Ceredigion***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Dyfnaint***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Casnewydd***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Torfaen***

Nodwyd llawer o heriau hefyd i waith cydgysylltiedig. Soniwyd yn aml mewn cyflwyniadau am yr hyn a alwyd gan un ardal leol yn 'weithio laniard', a theimlid bod ymarferwyr yn gweithio mewn seilos ac yn unol â strategaethau, blaenoriaethau a chanlyniadau gwasanaeth-benodol. Nid oedd yn cael ei gydnabod bob amser y byddai gweithio integredig yn helpu gwasanaethau i gyflawni eu dyletswyddau statudol unigol; roedd rhai yn gweld cydlynu fel bygythiad i'w gallu i ddarparu o ran eu dangosyddion perfformiad unigol.

- *'Caiff asesiadau eu targedu at blentyn penodol ond nid yw dealltwriaeth o angen yn cymryd i ystyriaeth anghenion y teulu cyfan yn gyson er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi ar waith.'*
- *'Mae defnyddio'r TAF [tîm o amgylch y teulu] yn anghyson ar gyfer merched beichiog a'u teuluoedd. Dim digon o waith atal cynnar wedi'i wneud yn y cam hwnnw.'*
- *'Mae gwasanaethau unigol ad hoc yn edrych ar sut rydym yn targedu teuluoedd ag anghenion ychwanegol ond nid yw'n glir wedyn o fewn y llwybr pwy yw'r gweithiwr allweddol yn y system, felly rydym yn diweddu gyda llawer o weithwyr allweddol neu ddim o gwbl.'*
- *'Nid oes map na throsolwg o'r gwasanaethau a'r ymyriadau sy'n cael eu cynnig ar draws yr ystod o ddarparwyr ar hyn o bryd.'*
- *'Mae llwythi achosion mawr wedi arwain at ddiffyg hyblygrwydd ar gyfer derbyn atgyfeiriadau a diffyg hyblygrwydd yn y trothwyon gyda rhestrau aros yn cael eu creu.'*
- *'Mae llwybrau yn eu lle, ond nid ar draws gwasanaethau. Er enghraifft, mae iechyd meddwl amenedigol ar fin lansio ond nid yw'n fodel cwbl integredig. Gallai fod enghreifftiau lle mae dyblygu neu ddiffyg cyfatebiaeth.'*

- *‘Mae llwybrau yn eu lle ond nid ydynt yn cael eu rhannu na’u defnyddio’n ddigonol ar draws asiantaethau. Gallai datblygu llwybrau integredig arwain at rai staff yn teimlo bod eu maes arbenigedd dan fygythiad.’*

Roedd yr hunanasesiadau’n nodi’n gyffredin bod diffyg iaith a rennir yn rhwystr i weithio amlasiantaeth, gyda gwasanaethau â dealltwriaeth wahanol o dermau fel, er enghraifft, ‘agored i niwed’, neu ar gyfer y continwwm o wasanaethau cyffredinol i wasanaethau arbenigol neu ddwys. Soniodd rhai am wrthwynebiad i newid, a phryder y gallai mwy o integreiddio olygu bod gwasanaethau cyffredinol, wedi’u targedu ac arbenigol yn mynd yn anodd eu diffinio, a allai arwain at lai o gymorth arbenigol ar gael i blant a theuluoedd sydd ei angen. Disgrifiodd eraill wahaniaethau mewn offer asesu ar gyfer cyfathrebu ac iaith a ddefnyddir gan wahanol wasanaethau, megis ymwelyddion iechyd ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn Lloegr; a’r offer asesu ar wahân (er enghraifft y Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd (JAFF) a’r Offeryn Asesu Cydnerthedd Teuluol (FRAIT)) a ddefnyddir gan ymwelyddion iechyd a gweithwyr cymorth i deuluoedd eraill yng Nghymru.

Nodwyd diffyg cydgysylltu o fewn grwpiau proffesiynol yn ogystal â rhyngddynt. Yng Nghymru, mae ymwelyddion iechyd naill ai’n ‘generig’ neu’n gweithio o fewn timau Dechrau’n Deg, a nododd rhai ardaloedd broblemau o ran sut y maent yn gweithio gyda’i gilydd. Gallai strwythurau rheoli greu eu seilos eu hunain: roedd un awdurdod lleol yn Lloegr wedi dod â’r gwasanaeth ymwelyddion iechyd yn fewnol, ond nid oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda thimau’r blynyddoedd cynnar oherwydd eu bod mewn adran wahanol o’r awdurdod lleol.

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau’r panel EIF, gallai 18 o’r 20 ardal leol elwa o ffocws cryfach ar lwybrau amlasiantaeth integredig sy’n canolbwyntio ar brofiad teuluol o wasanaethau mamolaeth a blynyddoedd cynnar. I lawer, roedd hyn yn golygu proses leol fwy cadarn ar gyfer mapio ac archwilio ymyriadau lleol i gadarnhau pa rai sy’n perfformio’n dda ac yn cyflawni deilliannau da i blant, ac atgyfnerthu’r trefniadau ar gyfer monitro’r gwaith o weithredu ansawdd ac effaith. Nodwyd hefyd fod chwech o’r 10 ardal leol yng Nghymru yn debygol o elwa o adolygu’r trefniadau lleol ar gyfer prosesau cyffredin i adnabod, asesu a chefnogi teuluoedd bregus.

Nododd ardaloedd lleol yr heriau sy’n wynebu gwahanol sefydliadau sydd â strwythurau llywodraethu ac ariannu gwahanol yn ceisio cyflawni un dull, gan ddefnyddio ffrydiau ariannu lluosog gyda meini prawf cymhwysedd ac ystodau oedran gwahanol. Fodd bynnag, roeddent yn awyddus yn gyson i symud tuag at ‘feddwl a siarad am wasanaethau plentyndod cynnar mewn termau heblaw’r rhaniad iechyd / gofal / addysg’, a chafwyd enghreifftiau o ailgynllunio gwasanaethau a oedd wedi goresgyn rhwystrau i integreiddio.

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Warrington***

Cyfeiriodd llawer o ardaloedd lleol at anhawster i gynnwys gwasanaethau mamolaeth mewn gwaith integredig, mewn trafodaethau strategol ac yn weithredol. Teimlid bod olion traed gwahanol, gyda gwasanaethau mamolaeth yn gweithio ar draws sawl awdurdod lleol, yn rhwystr mawr.

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Islington***

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Dwyrain Swydd Gaer: Y Daith Rhianta

Mae Taith Rianta Dwyrain Swydd Gaer yn disgrifio'r cynnig cyffredinol ac wedi'i dargedu ar gyfer teuluoedd o'r cyfnod cyn-geni hyd at pan fydd y plentyn yn dechrau'r ysgol, gan ddwyn ynghyd Raglen y Plentyn Iach, gwaith canolfannau plant a gwaith lleoliadau blynyddoedd cynnar. Fe'i cyflwynir fel cyfres o 12 safle bws, o ymweliadau cyn geni yn safle un, i sesiynau chwarae a dysgu *Toddlers Together* yn safle 8 a chyngor ar barodrwydd i ddechrau'r ysgol yn safle 12.

Mae gwybodaeth i rieni am y daith rhianta wedi'i hategu gan ganllawiau i weithwyr proffesiynol, sy'n disgrifio'r cynnig yn fanylach ac yn nodi pwyntiau asesu. Mae'r rhain yn cynnwys asesiad datblygiadol ar ddiwedd yr hawl i addysg a gofal plant am ddim i blant 2 a 3 oed, a gynhelir gan y lleoliad blynyddoedd cynnar, yn ogystal â gwiriadau arferol Rhaglen y Plentyn Iach, a phroffil Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar. Mae gan bob safle bws ei negeseuon allweddol ei hun i gyfathrebu â theuluoedd.

Mae'r Siwrnai Rhianta yn cefnogi adnabod angen yn gynnar ac yn darparu porth i wasanaethau arbenigol ac wedi'u targedu trwy lwybrau cymorth clir, wedi'u targedu a dwys wedi'u cysylltu â'r safleoedd ar y daith. Mae llwybrau integredig wedi'u datblygu ar gyfer Cyfathrebu ac Iaith, ac ar gyfer Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol.

Goruchwylir y Daith Rhianta gan grŵp o uwch reolwyr o *Early Start*, ymwelyddion iechyd a bydwreigiaeth, sy'n craffu ar y data allbwn a deilliannau ac yn sicrhau bod gweithio integredig wedi'i wreiddio.

» Yn ôl i dudalen 49

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Ceredigion: Cymorth amlddisgyblaethol i deuluoedd

Mae gweithwyr cymorth i deuluoedd yng Nheredigion yn ymgymryd â phecynnau gofal sydd wedi'u dirprwyo dan oruchwyliaeth ymwelyddion iechyd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynnal ymweliadau cartref Rhaglen Plant Iach Cymru ac asesiadau iaith WellComm, sy'n golygu bod yr ymwelydd iechyd yn cyflawni gwiriad datblygiadol llawn os yw'r asesiad yn awgrymu unrhyw broblemau.

Mae bydwragedd yn nodi risgiau problemau iechyd meddwl amenedigol yn gynnar ac yn cynnwys ymwelyddion iechyd a gweithwyr cymorth i deuluoedd yn y gwaith o ddarparu cymorth cyn ac ar ôl yr enedigaeth. Gallai'r cymorth hwn fod yn gymorth un-i-un, neu olygu mynychu cyrsiau rheoli straen a lles emosiynol, sy'n cael eu cynnal gan weithwyr cymorth i deuluoedd.

O ganlyniad, mae hyd at 50% o ymgynghoriadau ac atgyfeiriadau i'r tîm iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn cael eu trin gan y gweithlu ehangach, gan adael y tîm arbenigol i ddarparu cymorth mwy dwys i ferched sydd â'r anghenion mwyaf.

» Yn ôl i dudalen 49

### ASTUDIAETH ACHOS

## Dyfnaint: Llwybr Beichiogrwydd Agored i Niwed

Mae Dyfnaint wedi datblygu llwybr amlasiantaeth ar gyfer darparu cymorth cofleidiol i ferched y nodir bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae’r Llwybr Beichiogrwydd Agored i Niwed yn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i famau, babanod heb eu geni a babanod newydd-anedig, a’r teulu ehangach. Mae’n darparu rhyngwyneb cadarn i wasanaethau cymorth ehangach yn ôl yr angen, ac yn cael ei seilio ar gytundeb rhannu gwybodaeth cynhwysfawr.

Cyfarfodydd beichiogrwydd bregus rhyngasiantaethol misol yw'r porth i Raglen *Help Us Grow Supported* (HUGS). Darperir HUGS gan ymwelyddion iechyd Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Dyfnaint ac ymarferwyr canolfan blant Gweithredu dros Blant sy’n gweithio’n agos gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn ystod beichiogrwydd a thros 2.5 mlynedd gyntaf bywyd plentyn.

Mae’r llwybr yn hwyluso dull partneriaeth gyda theuluoedd, a’i fwriad yw: darparu gwell cymorth i oedolion ifanc beichiog sydd â phrofiad o ofal; helpu plant i gadw allan o ofal, a chefnogi merched beichiog sydd eisoes wedi cael plant wedi'u symud i ofal; a gwella'r broses o nodi ac atal esgeulustod.

» Yn ôl i dudalen 49

### ASTUDIAETH ACHOS

## Casnewydd: Gweithwyr allweddol a sgyrsiau ‘Beth sy’n Bwysig’

Mae gweithiwr teulu allweddol yn cael ei neilltuo i ferched beichiog fel rhan o raglen trawsnewid integreiddio’r blynyddoedd cynnar ym Metws, Casnewydd. Mae'r gweithiwr allweddol yn gwahodd gweithwyr proffesiynol eraill i weithio gyda nhw a’r teulu, yn ystod cyfarfod proffesiynol amlasiantaeth 'Beth sy'n Bwysig' wythnosol. Rhennir safbwyntiau’r teulu yn y cyfarfod hwn, ac ailedrychir arnynt os oes angen trafodaeth fanylach.

Mae’r broses yn dechrau gyda ffocws ar y teulu a’r problemau sydd ganddynt ar y pryd, ac mae’r sgyrsiau amlasiantaeth ‘Beth sy’n Bwysig’ rheolaidd yn osgoi llwybrau atgyfeirio cymhleth a gofynion sy’n ymwneud â throthwy lefel gwasanaeth.

Ystyrir anghenion y teulu, gyda’r gweithiwr proffesiynol arweiniol yn cael hyd at 10 munud i amlinellu’r problemau. Mae'r grŵp yn dod o hyd i ffordd ymlaen, gan geisio cefnogi ac uwchsgilio gweithiwr allweddol y teulu trwy weithio ar y cyd. Er enghraifft, gallai’r gweithiwr allweddol fynychu sesiynau rhianta’r Cylch Diogelwch ochr yn ochr â’r teulu, fel bod ‘y teulu’n gallu gweld y gallai eu hunigolyn allweddol barhau â'r ymyriad neu'r cymorth hwnnw'.

Mae’r sgyrsiau ‘Beth sy’n Bwysig’ yn cael eu gweld fel cyfle i godi ymwybyddiaeth ac uwchsgilio staff ar draws gwasanaethau, gan gynnwys tai er enghraifft. Mae'r cydweithio cryf gyda thai a'r sector gwirfoddol yn ymateb i anghenion penodol o fewn ardal Betws.

» Yn ôl i dudalen 49

ASTUDIAETH ACHOS

## Torfaen: Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae'r arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd wrth galon Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru* wedi bod yn bwysig ar gyfer gwreiddio gwaith amlasiantaeth yn Nhorfaen.

Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gasgliad o offer a dulliau, yn seiliedig ar set o werthoedd a rennir, y gellir eu defnyddio i gynllunio'n effeithiol *gyda* phlentyn, yn hytrach nag *ar ei gyfer*. Mae ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i ddatblygu cylch cymorth y plentyn trwy gynnwys yr holl bobl sy'n bwysig yn ei fywyd, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag ef.

Dyma'r pum egwyddor allweddol ar gyfer arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:

1. Mae'r unigolyn yn y canol.
2. Mae aelodau'r teulu a ffrindiau yn bartneriaid yn y cynllunio.
3. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn awr (ac ar gyfer y dyfodol), ei allu a pha gymorth sydd ei angen arno.
4. Mae'r cynllun yn helpu i ddatblygu lle'r unigolyn yn y gymuned ac yn helpu'r gymuned i'w groesawu. Nid yw'n ymwneud â gwasanaethau yn unig, ac mae'n adlewyrchu'r hyn sy'n bosibl, nid dim ond yr hyn sydd ar gael.
5. Mae'r cynllun yn arwain at wrando parhaus, dysgu, a gweithredu pellach.

Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn Nhorfaen wedi helpu partneriaid i gydweithio'n dda ac wedi gwella hyder teuluoedd wrth gysylltu â gwasanaethau. Mae'r dull lleol wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio adborth gan deuluoedd am fanteision cael partneriaid o amgylch y bwrdd a gweithio drwy'r cymorth sydd fwyaf defnyddiol iddynt.

» Yn ôl i dudalen 49

* Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/210326-the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf

ASTUDIAETH ACHOS

## Warrington: Her Cymheiriad y Blynyddoedd Cynnar

Yn 2019 cymerodd Warrington ran mewn Her Cymheiriad y Blynyddoedd Cynnar a arweiniwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Un o'r argymhellion o'r Her Cymheiriad oedd gwella'r broses o gydgysylltu'r broses o nodi a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ffurfiwyd grŵp llywio amlasiantaeth (yn cynnwys therapi iaith a lleferydd, ymwelyddion iechyd a gwasanaethau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol) i ddatblygu llwybr a fyddai'n creu dull gweithredu ar draws y system gyfan.

Mewn ardaloedd peilot, lle nodir bod plentyn yn ystod archwiliad iechyd cyffredinol 9-12 mis yn wynebu risg bod oedi o ran iaith yn dod i'r amlwg, mae'n cael asesiad dilynol gan nyrs feithrin y gwasanaeth ymwelyddion iechyd, gan ddefnyddio offeryn sgrinio WellComm. Lle mae hyn yn nodi angen, mae'r plentyn a'i deulu yn cymryd rhan mewn ymyriad grŵp chwe wythnos mewn canolfan blant, lle mae ymarferwyr hyfforddedig yn modelu strategaethau ac yn rhannu adnoddau y cytunir arnynt ac a ddatblygir ar draws y system. Anogir rhieni i barhau i ddefnyddio strategaethau gartref. Mae'r tîm ymwelyddion iechyd yn dilyn i fyny dri mis ar ôl y sgrinio cychwynnol i fesur cynnydd.

Yn ogystal, mae adnoddau am ddatblygiad iaith cynnar bellach yn cael eu rhannu gyda'r rhieni i gyd, p'un a ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau cyn geni neu'n trosglwyddo i'r Dosbarth Derbyn, fel bod 'rhieni yn cael yr un negeseuon gan unrhyw wasanaeth y maent yn dod ar ei draws yn Warrington ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu'.

» Yn ôl i dudalen 50

ASTUDIAETH ACHOS

## Islington: Gofal mamolaeth

Mae gofal mamolaeth yn Islington wedi'i ddosbarthu ar draws dau brif ddarparwr ysbyty, gyda nifer o rai eraill yn gweld niferoedd bach o rieni yn ogystal. Mae cysylltiadau cryf â'r ddau brif ysbyty, yn enwedig ar lefel leol gyda chlinigau cymunedol yn cael eu cynnal o safleoedd canolfannau plant, a phresenoldeb yn y fforwm lleisiau mamolaeth.

Mae bydwragedd ymgynghorol o'r ddau ysbyty yn aelodau o grwpiau strategol sy'n arwain cynllunio aml-asiantaeth ar gyfer plant a theuluoedd. Mae gweithwyr cymorth mamolaeth (a gyflogir gan y ddau ysbyty ac a ariennir yn amrywiol gan yr ysbytai, y CCG ac Iechyd y Cyhoedd) yn gweithio yn y tîm ardal yn cefnogi clinigau cymunedol bydwreigiaeth, gan hwyluso grwpiau cymorth i rieni ac annog darpar rieni i fanteisio ar y gwasanaethau ehangach a gynigir gan *Bright Start*. Mae ymwelyddion iechyd a thimau bydwreigiaeth yn cynnal cwrs cynenedigol chwe wythnos sef y *Solihull Journey to Parenthood* ar y cyd.

O fewn tîm *Bright Start*, penodwyd Ymwelydd Iechyd *Transition to Parenthood* arbenigol i ddatblygu hyfforddiant ar y cyd i staff a symleiddio llwybrau cyfathrebu o fydwragedd i ymwelyddion iechyd. Mae un o'r ddau brif wasanaeth bydwreigiaeth mewn ysbytai yn rhoi gwybodaeth lawn am gofrestru i ymwelyddion iechyd, a rhennir manylion mewn cyfarfodydd cyswllt ardal ar gyfer teuluoedd eraill.

Dangosodd gwaith gyda *Maternity Voices* fod rhieni wedi canfod nad oedd y llythyr bydwreigiaeth yn cyflwyno teulu i'r ymwelydd iechyd yn gofiadwy, felly mae fideo rhagarweiniol yn cael ei ddatblygu – un a fydd yn cynnwys brand *Bright Start* ac yn rhannu negeseuon allweddol *Bright Start*.

» Yn ôl i dudalen 50

# Mewnwelediad 7: Wynebu'r her o rannu data personol

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried sut mae data personol yn cael ei rannu i gefnogi rheoli achosion a chynllunio gofal. Mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio cytundebau rhannu gwybodaeth a phrosesau cyffredin i allu rhannu data personol mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn electronig.

Mae ardaloedd lleol sy'n defnyddio offer cynllunio EIF yn nodi'n gyson bod rhannu data personol yn un o'r prif heriau, er gwaethaf degawdau o ganllawiau ar lefel genedlaethol, a negeseuon cyson o adolygiadau am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol i waith amlasiantaeth a chanlyniadau i blant.

Nid oedd yr 20 ardal oedd yn defnyddio'r matrics mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn ddim gwahanol, gan ddisgrifio gormodedd o brosesau lleol a systemau rheoli gwybodaeth, a dryswch parhaus ynghylch pa wybodaeth y gellir ac na ellir ei rhannu.

Ystyrid bod gofynion GDPR wedi creu rhywfaint o ddryswch ynghylch pa wybodaeth y gellir ei rhannu, gyda threfniadau llywodraethu corfforaethol a thimau diogelu data gwahanol yn mabwysiadu safbwyntiau gwahanol.

- *'Mae yna ddryswch ynghylch pa wybodaeth y gellir ei rhannu'n ddiogel o ystyried GDPR a beth yw caniatâd. Nid yw pobl yn fodlon cymryd y risg.'*
- *'Mae gwaith a ddatblygwyd yn ystod yr ymateb i'r pandemig ynghylch rhannu data am fregusrwydd … wedi gwella'r broses o rannu gwybodaeth â phartneriaid … ar lefel uchel, ond ar lawr gwlad mae'n dal yn dameidiog. Mae staff ar lefel weithredol yn ansicr ynghylch pa wybodaeth y gellir ei rhannu o fewn rheoliadau diogelu data ac o dan gytundebau rhannu gwybodaeth lleol.'*
- *'Timau llywodraethu gwahanol, weithiau gyda chyngor gwahanol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddal yn y canol, ac mae'r protocol rhannu gwybodaeth yn cael ei oedi.'*

Roedd cytundebau rhannu gwybodaeth yn aml yn cael eu cydnabod fel ateb, er ei fod yn un a oedd yn cymryd llawer o amser nad oedd bob amser wedi'i gysylltu'n dda ag arfer.

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Dwyrain Swydd Gaer***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Ceredigion***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Tower Hamlets***

## WASPI: Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

Cefnogir Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) gan Lywodraeth Cymru fel yr un fframwaith rhannu gwybodaeth ar gyfer Cymru.

Diben y fframwaith yw galluogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelu, lles ac amddiffyn y cyhoedd yn ehangach i rannu gwybodaeth bersonol berthnasol, isafol a phriodol rhyngddynt mewn ffordd gyfreithlon, ddiogel a gwybodus.

Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau trydydd sector, y sefydliadau preifat hynny sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r sector cyhoeddus, ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddu a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru. Yn benodol, mae'n ymwneud â'r sefydliadau hynny sy'n cadw gwybodaeth am unigolion ac a allai ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol i rannu'r wybodaeth honno ag eraill.

Cefnogir y cytundeb o fewn sefydliadau gan Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data.

ASTUDIAETH ACHOS

## Dwyrain Swydd Gaer: Cytundebau rhannu gwybodaeth

Mae rhai cytundebau rhannu gwybodaeth ar waith rhwng Cyngor Dwyrain Swydd Gaer ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Wirral. Mae timau Ymwelyddion Iechyd a Phartneriaethau Nyrsys Teulu (FNP) yn ceisio cytundeb gan gleientiaid i rannu gwybodaeth â thîm *Early Start* yr awdurdod lleol, sy'n cynnwys staff canolfannau plant, staff SEND y blynyddoedd cynnar a staff sy'n cefnogi ansawdd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Cynhelir cyfarfodydd Hyb *Early Start* yn rheolaidd i drafod cymorth i blant unigol a theuluoedd, gan gynnwys rheolwr yr hyb, yr arweinydd ar gyfer cyfathrebu a chynhwysiant, ymgynghorydd y blynyddoedd cynnar, arweinydd tîm yr ymwelyddion iechyd, y therapydd iaith a lleferydd, a meithrinfa neu ysgolion cysylltiedig. Hefyd cynhelir Cyfarfodydd Rhannu Data Ardal amlasiantaeth bob tymor i edrych ar batrymau data lleol a chynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion y gymuned.

Mae'r system yn golygu, er enghraifft, bod plant cleientiaid FNP i gyd yn cael mynediad at gymorth canolfan blant arbenigol, ac mae'r gweithiwr FNP yn cefnogi'r rhiant i fynd yn ôl i addysg neu waith, gyda chymorth rhaglen '*Parents First*' mewn canolfan blant sy'n cynnig gwirfoddoli, cymorth gydag ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad. Caiff cynnydd datblygiadol plant FNP ei olrhain yn eu lleoliad blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio offeryn tracio syml a ddatblygwyd i'w ddefnyddio gan leoliadau gyda phob plentyn 2, 3 a 4 oed a ariennir. Mae'r system dracio bresennol yn rhoi trosolwg o gynnydd yr holl blant sy'n agored i niwed yn y lleoliad ac yn caniatáu i raglenni cymorth gael eu rhoi ar waith lle bo angen.

» Yn ôl i dudalen 55

ASTUDIAETH ACHOS

## Ceredigion: Protocol rhannu gwybodaeth

Mae protocol rhannu gwybodaeth wedi cael ei ddatblygu ar gyfer cynllun braenaru Rhaglen Trawsnewid Integreiddio Blynyddoedd Cynnar Ceredigion rhwng y Bwrdd Iechyd, Cyngor Sir Ceredigion, Home-Start, a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant, cam-drin domestig, a gwasanaethau tân ac achub.

Mae'r protocol, a ddatblygwyd o dan WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) yn disgrifio'r mathau o wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei rhannu'n rheolaidd, y ffyrdd y caiff ei rhannu a'r dulliau i'w defnyddio i gadw'r wybodaeth yn ddiogel. Mae'n cynnwys copi o daflen Datganiad Preifatrwydd Rhaglen Beilot y Cynllun Braenaru a roddir i deuluoedd ar y cyswllt cyntaf gan y fydwraig neu'r ymwelydd iechyd. Mae'r daflen yn egluro: pam mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ('fel y gallwn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn cyfateb orau i'r gwasanaethau yr ydych yn dweud wrthym yr ydych eu hangen neu yr hoffech eu cael'); pa wybodaeth a gesglir (am ddatblygiad ac iechyd y plentyn, a lles y teulu); a phwy sy'n gysylltiedig ('yr unig bobl a fydd â mynediad o ddydd i ddydd i'ch gwybodaeth bersonol yw'r gweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chi neu staff sy'n eu helpu i weithio gyda chi').

Mae Ceredigion hefyd wedi creu ffurflen ar gyfer eu cynllun braenaru sy'n cofnodi unrhyw gymorth y mae plentyn a'i deulu wedi'i gael yn y blynyddoedd cynnar (0-7 oed), gan ddwyn ynghyd wybodaeth o nifer o gronfeydd data. Mae'n cynnwys Rhif Disgybl Unigryw'r plentyn, a rhif GIG; y brif iaith; lefel gwasanaeth yr ymwelyddion iechyd a dderbyniwyd; a oedd datblygu'r Rhestr Sgiliau Tyfu a WellComm yn briodol i'r oedran; gwasanaethau ac asiantaethau cysylltiedig; cyrsiau magu plant a fynychwyd; a fanteisiwyd ar y cynnig gofal plant am ddim, ac unrhyw gymorth ychwanegol a ddarparwyd yn y lleoliad gofal plant. Y nod yw defnyddio'r wybodaeth i lenwi system rheoli gwybodaeth ar-lein un disgybl, un cofnod 'Teacher Centre' a ddatblygwyd gan, ac a ddefnyddir yn ysgolion Ceredigion.

» Yn ôl i dudalen 55

ASTUDIAETH ACHOS

## Tower Hamlets: Datblygu hyder i rannu

Ar ôl 18 mis o ymgynghori â thimau llywodraethu gwybodaeth o'r adran iechyd a'r awdurdod lleol, mae yna fewnflwch e-bost cyffredinol y GIG ar gael bellach y mae staff y GIG yn ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth â staff y cyngor. Mae'r system yn cael ei goruchwylio gan reolwr sicrhau ansawdd, sy'n anfon gwybodaeth, ymholiadau ac atgyfeiriadau at yr aelod staff perthnasol nad yw'n rhan o'r GIG. Cyn i'r system gael ei datblygu, roedd staff iechyd yn ansicr ynghylch pa wybodaeth bersonol y gallent ei throsglwyddo, ond mae system mewnflwch diogel y GIG wedi rhoi mwy o hyder iddynt rannu.

» Yn ôl i dudalen 55

Cafwyd llawer o sylwadau am y gwahanol systemau TG a ddefnyddir gan wasanaethau, gyda 'dim un system ganolog i gael, storio a rhannu data'.

- *'Ar hyn o bryd mae nifer o systemau TG gwahanol yn cael eu defnyddio i gofnodi gwaith gyda theuluoedd ar draws asiantaethau. Mae hyn yn rhwystr oherwydd y gallu i fewnbynnu i'r systemau yn ogystal â bod gwybodaeth wedi'i lledaenu ar draws systemau lluosog. Weithiau mae ymarferwyr yn ansicr ble i edrych i ddod o hyd i fanylion teulu perthnasol a chofnodi achosion.'*
- *'Nid oes gan bob gwasanaeth ar hyn o bryd fynediad at brosesau cofnodi gwybodaeth electronig, mae rhai gweithwyr yn dal i weithio ar bapur.'*
- *'Nid oes unrhyw ffordd o wybod ar draws y system pwy sy'n gwneud yn iawn, a bod pobl yn cael mynediad at eu cysylltiadau ac yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, canolfan blant yn gwybod a yw teulu wedi bod mewn cysylltiad ag ymwelydd iechyd. Dibynnir ar fynd i mewn i rannau o'r system i ddeall hynny, felly gallai pobl ddisgyn drwy'r rhwyd.'*

Roedd rhai ardaloedd lleol yn y broses o ddatblygu systemau data addawol. Roedd ardaloedd eraill yn canolbwyntio ar gysylltu data â llaw o wahanol systemau TG; neu gael caniatâd yr aelod cyntaf o dîm amlasiantaeth i ddod i gysylltiad â theulu sy'n gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth bersonol ag aelodau eraill y tîm.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Caerdydd: Llwyfan data amlasiantaeth

Mae Caerdydd yn gweithio gyda datblygwr ar system rheoli achosion o'r enw *Eclipse* a fydd yn cofnodi gwybodaeth am blant a theuluoedd. Gall *Eclipse* ddangos taith a llinell amser teulu, a gall nodi'r holl ymyriadau a'r cysylltiadau proffesiynol a gofnodwyd. Y nod yw i'r system hon gael ei defnyddio gan bartneriaid lluosog.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Islington: Cymorth busnes integredig

Mae cynnig integredig *Bright Start* Islington i deuluoedd wedi dod â gwasanaethau mamolaeth cymunedol, gwasanaethau ymwelyddion iechyd, cymorth a chysylltu â theuluoedd, therapi iaith a lleferydd, a CAMHs ynghyd, sydd wedi'u cydleoli mewn canolfannau plant a chanolfannau iechyd cymunedol yn nhair ardal y fwrdeistref. Yn 2018 crëwyd swydd integredig Swyddog Cefnogi Busnes gyda mynediad i holl systemau data'r gwasanaeth. Mae hyn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau wedi'u targedu fel cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoliadau meithrin. Mae cytundeb rhannu gwybodaeth yn ei le a darperir hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth i'r holl staff.

# Mewnwelediad 8: Gwybodaeth i deuluoedd: hawl nid rhodd

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried sut mae sefydliadau lleol yn cydweithio i roi negeseuon cyson i deuluoedd am feichiogrwydd a datblygiad cynnar plant, ac argaeledd gwasanaethau cymorth lleol. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae teuluoedd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cyrraedd.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd statudol[38] i ddarparu gwybodaeth i rieni neu ddarpar rieni am ddarpariaeth gofal plant a gwasanaethau teulu ehangach, gan roi sylw arbennig i deuluoedd a allai fod angen cymorth i gael mynediad at hyn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol diwygiedig[39] yn 2016 sy'n atgyfnerthu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth integredig i deuluoedd sy'n hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch, ac sy'n helpu rhieni a gofalwyr i ddewis y gwasanaethau lleol mwyaf priodol ar eu cyfer hwy a'u plant.

Mae yna hefyd ddyletswyddau gwybodaeth penodol yng Nghymru[40] a Lloegr[41] ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gyhoeddi cynnig lleol yn Lloegr sy'n darparu gwybodaeth glir, gynhwysfawr, hygyrch a chyfredol am y ddarpariaeth sydd ar gael a sut i'w chyrchu, a gwneud darpariaeth yn fwy ymatebol i anghenion a dyheadau lleol drwy gynnwys teuluoedd a darparwyr gwasanaethau yn uniongyrchol yn ei ddatblygiad a'i adolygu.

Cafodd pwysigrwydd gwybodaeth i deuluoedd am ddatblygiad plant a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt sylw i'w groesawu yn Adroddiad diweddar Adolygiad Datblygiad Iach y Blynyddoedd Cynnar[42] yn Lloegr, lle'r oedd 'Y wybodaeth sydd ei hangen ar deuluoedd pan fydd ei hangen arnynt' yn faes gweithredu y rhoddwyd blaenoriaeth iddo. Nododd yr Adolygiad bwysigrwydd gallu dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy yn gyflym i rieni, a nododd nad

### Gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd: Safonau ansawdd gofynnol i Gymru

1. **Datganiad gwasanaeth:** a elwir weithiau yn ddatganiad o hawl cwsmeriaid sy'n crynhoi'r gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr sy'n adlewyrchu anghenion lleol.
2. **Strategaeth wybodaeth:** sy'n nodi sut y bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i chadw, a'r dulliau cyflwyno.
3. **Egwyddorion sylfaenol:** polisïau ysgrifenedig ar faterion megis hygyrchedd, didueddrwydd, amddiffyn plant a chyfle cyfartal.
4. **Gweithio gyda phartneriaid:** cynllun yn amlinellu pwy yw partneriaid lleol allweddol a sut y byddant yn ymwneud â gwaith y gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.
5. **Marchnata a chyhoeddusrwydd:** cynllun ar gyfer sut i adnabod yr holl ddefnyddwyr posibl a'u hanghenion, a strategaeth farchnata ffurfiol.
6. **Monitro a gwerthuso:** strategaeth ar gyfer sut y bydd barn defnyddwyr gwasanaeth yn llywio ac yn gwella'r gwasanaeth.
7. **Rheolaeth:** y trefniadau ymarferol ar gyfer cynnal y gwasanaeth, gan gynnwys y gyllideb a threfniadau ar gyfer adolygiad blynyddol y gwasanaeth.

38 Yn unol â Deddf Gofal Plant 2006

39 Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/childcare-statutory-guidance-for-local-authorities.pdf

40 Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/the-additional-learning-needs-code-for-wales-2021.pdf

41 Cod ymarfer anghenion addysgol arbennig ac anabledd: 0 i 25 mlynedd https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/398815/SEND_Code_of_Practice_January_2015.pdf

42 Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/973085/Early_Years_Report.pdf

yw rhieni babanod anabl, tadau, a rhieni lleiafrifoedd ethnig yn aml yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Roedd gwybodaeth i deuluoedd yn faes cryfder cymharol i lawer o'r 20 ardal leol oedd yn defnyddio'r matrics aeddfedrwydd, gydag enghreifftiau o ffyrdd dychmygus o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac ategu gwybodaeth ar bapur ac yn ddigidol gyda chyngor personol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Wrecsam: Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd (GGD) yn Wrecsam yn darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor diduedd am ddim ar amrywiaeth o faterion teuluol gan gynnwys: gofal plant a help gyda chostau gofal plant; gofal iechyd; addysg a hyfforddiant; gwasanaethau hamdden; a chyllid.

Mae'r gwasanaeth yn cysylltu'n weithredol â theuluoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tudalennau *Facebook* yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd â dros 4,000 o ddilynwyr a negeseuon sy'n derbyn mwy na 10,000 o ddarlleniadau yn rheolaidd. Mae postiadau'n cynnwys fideos wedi'u recordio ymlaen llaw a fideos byw, ac yn ystod y pandemig roedd sesiynau coffi a sgwrs rhithwir i deuluoedd yn cael eu cynnal.

Gall teuluoedd sydd eisiau cyngor neu wybodaeth ffonio llinell gymorth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, cysylltu drwy e-bost, *Facebook* neu *Twitter*, neu ddod i sesiwn galw heibio GGD rheolaidd mewn lleoliadau cymunedol neu glinigau iechyd. Mae'r sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal gan dîm allgymorth o gynghorwyr cefnogi rhieni sydd hefyd yn gallu gweithio un-i-un gyda theuluoedd, gan fynd gyda nhw i apwyntiadau, eu cefnogi i fynychu grwpiau neu'n eu cysylltu â gwasanaethau. Mae gan bob cynghorydd faes arbenigol, fel gwaith gyda cheiswyr lloches, plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a'r blynyddoedd cynnar.

Maent hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd, ac i nodi hyrwyddwyr Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Lle nad yw teuluoedd yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer gofal cymdeithasol, mae yna ddolen o'r un pwynt mynediad i gynnig cymorth i'r teulu drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae yna ddolen debyg gyda'r Porth Cymorth Tai, fel y gallai teuluoedd gael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gyda materion eraill y maent yn eu hwynebu tra bydd eu hanghenion tai yn cael sylw.

Mae gwerthuso gwasanaeth yn cynnwys apwyntiad dilynol gyda theuluoedd ddeufis ar ôl ymholiad cychwynnol, a defnyddio offeryn 'pellter a deithiwyd' lle darperir cymorth un-i-un.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Ceredigion: Canllaw i rieni am ddatblygiad y blynyddoedd cynnar

Roedd menter 'Paratoi ar gyfer y Byd Mawr' yng Ngheredigion yn ymateb i bryderon bod plant yn dod i mewn i ddarpariaeth feithrin ac ysgol heb y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Roedd teuluoedd yn tueddu i fod 'mewn siambrau adlais', gyda'u disgwyliadau ar gyfer lefelau datblygiad eu plentyn yn cael eu llywio gan yr hyn a welent o'u cwmpas yn eu cymuned. Dywedodd teuluoedd eu bod yn colli'r sicrwydd o gyngor a chymorth rheolaidd o ganlyniad i brinder ymwelyddion iechyd.

Mewn ymateb, cafodd canllaw byr newydd electronig* ei greu ar gyfer rhieni. Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth am gamau datblygiad cymdeithasol, personol ac emosiynol yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd ag awgrymiadau ac adnoddau i helpu rhieni i roi hwb i hyder eu plentyn, annog ymddygiad cadarnhaol, a'u cefnogi yn ystod pob cam o'u datblygiad. Datblygwyd y canllaw trwy gydweithrediad rhwng y Cyngor, canolfannau teulu sy'n cael eu cynnal gan y trydydd sector, y gymuned, ymwelyddion iechyd, a darparwyr gofal plant.

* Ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/media/9103/getting-ready-for-the-big-world.pdf

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Dwyrain Swydd Gaer: 'Dim ap i gymryd lle eich glin'

Mae gan *The Parenting Journey*+ wefan gyda chyfoeth o wybodaeth i gefnogi rhieni ar bob cam yn natblygiad eu plentyn, gan gynnwys fideos sydd ar gael ar sianel YouTube bwrpasol. Mae yna dudalen Facebook gyda chynnwys deniadol sy'n cael ei adnewyddu ac sy'n rhoi awgrymiadau a syniadau am weithgareddau ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. Mae 'pynciau llosg' fel babanod yn crio ac amser sgrin wedi denu bron i 1,000 o wylwyr. Mae negeseuon fel '*there's no app to replace your lap*' wedi'u saernïo'n ofalus ac yn fachog.

\+ Gweler https://www.cheshireeast.gov.uk/livewell/care-and-support-for-children/childrens-centres/parent-journey.aspx

Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd yn llai datblygedig nag eraill o ran canfod sut mae teuluoedd am gael mynediad at wybodaeth, ac roedd datblygiadau diweddar fel defnyddio apiau penodol yn tueddu i gael eu cyflwyno gan un asiantaeth.

Roedd rhwystrau i fynediad teuluoedd at wasanaethau ac roedd hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth am sut i gael cymorth, peidio â chael eu grymuso i chwilio amdano, neu anhawster i fynegi pa gymorth oedd ei angen arnynt. Roedd rhwystrau penodol hefyd i deuluoedd oedd â Saesneg fel iaith ychwanegol, neu anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd allgau digidol o ganlyniad i dlodi yn cael ei grybwyll yn aml fel rhwystr i ddarparu gwybodaeth i deuluoedd. Yn Lloegr, nodwyd bod gwybodaeth yn dameidiog ar draws partneriaid, gydag er enghraifft y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mewn un ardal heb 'wybodaeth am famolaeth nac iechyd meddwl, ar eu gwefan'.

# Gwerthuso

## Sut mae ardaloedd lleol yn deall effaith ac yn defnyddio ac yn cynhyrchu tystiolaeth


Mae dimensiwn Gwerthuso'r matrics aeddfedrwydd yn canolbwyntio ar sut mae partneriaid yn cydweithio i ddefnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau a deall effaith strategaeth leol ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, gan gwmpasu dwy elfen graidd:

1. Sut mae cynnydd o ran cyflawni canlyniadau mamolaeth a blynyddoedd cynnar da yn cael ei fesur, a sut brofiad yw cymorth o safbwynt teuluoedd.
2. Pa mor weithredol y mae partneriaid lleol yn defnyddio ymchwil academaidd berthnasol ar ddatblygiad plant ac effaith ymyriadau i lywio cynllunio lleol, yn ogystal â chynhyrchu gwybodaeth trwy werthuso lleol.

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ardaloedd lleol oedd yn defnyddio'r matrics aeddfedrwydd ar y lefel cynnydd cynnar ar gyfer y dimensiwn Gwerthuso, gan adlewyrchu eu bod yn gweithredu ond nad oeddent wedi gweld y canlyniadau eto.

**FFIGUR 7**

Graddfeydd cynnydd y matrics aeddfedrwydd ar gyfer yr 20 ardal leol (Cymru a Lloegr) a gymerodd ran ar draws elfennau'r dimensiwn Gwerthuso



# Mewnwelediad 9: Gwneud mwy i fesur canlyniadau a phrofiad

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried yr offer a'r data a ddefnyddir i fesur cynnydd mewn canlyniadau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys sut beth yw cymorth o safbwynt teuluoedd. Mae'n ystyried a yw deilliannau'n gwella, ac a yw partneriaid yn gweithredu i wella tanberfformiad.

Nododd gwaith blaenorol EIF ar ganolfannau plant a chanolfannau teulu yn Lloegr[43] fod ardaloedd lleol yn aml yn nodi ffocws ar ddeilliannau a rennir a fframweithiau deilliannau fel blaenoriaeth ar gyfer gwella, ac yn awgrymu mwy o ffocws ar fetrigau cyffredin ar gyfer deilliannau cynnar i blant, a'r defnydd o offer mesur cadarn.

Amlygodd Adolygiad Datblygiad Iach y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr hefyd bwysigrwydd cytuno ar fesurau deilliannau cyffredin cenedlaethol, a chreu 'fframwaith deilliannau cyffredin sy'n edrych yn strategol ar yr holl ddata a gofnodir gan wahanol sefydliadau. Bydd hyn yn ein galluogi i benderfynu beth sydd bwysicaf wrth fesur deilliannau yn y 1,001 o ddyddiau tyngedfennol.'

## Fframweithiau deilliannau

Defnyddir y term 'fframwaith deilliannau' yn gyffredin i ddisgrifio offeryn neu broses sy'n nodi, yn diffinio ac yn mesur set benodol o ddeilliannau. Fe'i defnyddir weithiau i olygu cerdyn sgorio perfformiad ar gyfer rhaglen benodol, neu ar gyfer set leol o flaenoriaethau ar gyfer newid. Fodd bynnag, yng nghyd-destun systemau mae'n strwythur sy'n nodi:

- **deilliannau:** y parthau datblygiad plant y gwyddom oddi wrth ymchwil eu bod yn bwysig er mwyn i blant ffynnu
- **ffactorau risg ac amddiffynnol:** y ffactorau y dangoswyd eu bod yn effeithio ar ba mor debygol yw plant o gyflawni'r deilliannau hyn, ar lefel plentyn, teulu, cymuned a chymdeithas
- **dangosyddion:** y wybodaeth a gasglwyd i nodi: (i) a yw plant yn ffynnu, ac (ii) amlder ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol
- **mesurau:** yr asesiadau neu'r offer a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth am y dangosyddion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u safoni ar gyfer cyd-destun y DU a'u dilysu.

Gallai fframwaith canlyniadau fod yn arf partneriaeth effeithiol, gan annog rhanddeiliaid i weithio tuag at nodau tymor hwy cyffredin drwy ganolbwyntio ar y deilliannau poblogaeth dymunol yn hytrach na'r hyn y gellir ei gyflawni gan wasanaethau unigol. Gellir defnyddio fframwaith deilliannau yn y cyd-destun lleol fel:

- fframwaith cysyniadol i arwain cynllunio partneriaethau lleol, gwneud penderfyniadau strategol a chyfathrebu, gan ddarparu datganiad clir am yr hyn sy'n bwysig i bartneriaid lleol yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil datblygiad plant
- strwythur sylfaenol ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth leol, gan wneud yn siŵr ei fod yn ystyried yr holl barthau a allai effeithio ar ddeilliannau plant
- fframwaith mesur, sy'n nodi sut mae gweithgareddau ac ymyriadau penodol yn effeithio ar ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ac yn cyfrannu at wella deilliannau.

43 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

**FFIGUR 8**

Strwythur enghreifftiol ar gyfer fframwaith deilliannau

| Deilliannau datblygiadol plant | Ffisegol | Gwybyddol | Cymdeithasol ac emosiynol | Hunan reoleiddiol |
|---|---|---|---|---|
| Ffactorau risg ac amddiffynnol | **Ar lefel y plentyn** e.e. pwysau geni, maeth, imiwneiddiadau, twf corfforol | | | |
| | **Ar lefel y teulu** e.e. bwydo ar y fron, ysmygu, cyflogaeth, iechyd meddwl | | | |
| | **Ar lefel y gymuned** e.e. rhwydweithiau cymdeithasol, cymorth ar gyfer cyflogaeth, trosedd | | | |
| | **Ar lefel y gymdeithas** e.e. gofal amenedigol, gwasanaethau plentyndod cynnar, addysg gynnar | | | |
| Pwyntiau mesur allweddol | **Genedigaeth iach** | **Parod i ddysgu: 2 oed** | **Parod i'r ysgol: 4 oed** | |

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF, gallai 18 o'r 20 ardal a gymerodd ran elwa'n benodol o greu fframwaith deilliannau lleol a oedd yn cadarnhau'r deilliannau allweddol ar draws y cyfnod mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yr oedd gan bartneriaid lleol ddiddordeb cyffredin ynddynt. Gallent ddefnyddio hwn i gyfeirio ymagwedd ar y cyd at fonitro perfformiad a gwelliant.

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Tower Hamlets: Atebolrwydd Seiliedig ar Ddeilliannau

Mae'r fframwaith Atebolrwydd Seiliedig ar Ddeilliannau* yn Tower Hamlets yn cynnwys deilliannau hirdymor (parodrwydd ar gyfer yr ysgol fel y caiff ei asesu gan Broffil Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn 5 oed) a deilliannau tymor canolig ynghylch gwella amgylchedd dysgu'r cartref.

Defnyddir arolygon cyn ac ar ôl ymyrraeth i werthuso newid ymddygiad. Er enghraifft, mewn menter yn targedu lleferydd ac iaith, nodwyd 300 o deuluoedd yn seiliedig ar ddata iechyd a data lleol arall, ac fe'u gwahoddwyd i sesiynau wedi'u targedu mewn canolfannau plant a theuluoedd. Defnyddiodd gweithwyr ymyrraeth gynnar arolwg dechreuol yn ymwneud ag amgylchedd dysgu'r cartref, gan ofyn i deuluoedd, er enghraifft, sawl gwaith yr oeddent yn darllen i'w plentyn neu'n mynd ag ef i'r llyfrgell. Ailadroddwyd yr arolwg ddeufis yn ddiweddarach.

* Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ddeilliannau (OBA) ac Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) ill dau yn tynnu ar waith Mark Friedman a'r Sefydliad Astudiaethau Polisi Cyllidol: http://resultsaccountability.com/. Mae dulliau gweithredu wedi'u seilio ar dri chwestiwn syml: Faint wnaethom ni? Pa mor dda wnaethom ni hynny? Oes rhywun yn well ei fyd?

ASTUDIAETH ACHOS

## Bro Morgannwg: Data lefel gwasanaeth ar y pellter a deithiwyd gan y teulu

Mae Bro Morgannwg yn defnyddio adroddiadau RBA chwarterol* i olrhain y data a gasglwyd gan wasanaethau allweddol megis Dechrau'n Deg ac *Early Help*. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data am faint ac ansawdd fel:

- Faint o rieni a gwblhaodd y rhaglen Rhieni fel Partneriaid, a faint o sesiynau a fynychwyd ganddynt?
- Faint o weithwyr proffesiynol a fynychodd raglen ymwybyddiaeth a hwyluswyd gan weithiwr cymdeithasol?
- Pa fathau o rieni oedd yn cael eu cyfeirio, beth oedd eu problemau, o ble y daethant a pha fath o gefnogaeth a gawsant?
- Beth oedd y pellter a deithiwyd i rieni a oedd yn cael cymorth ynghylch parthau fel sgiliau perthnasoedd, lles, a threfn a sefydlogrwydd?

Mae'r data'n cael ei adolygu gyda rhieni ac ymarferwyr Dechrau'n Deg i archwilio'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim. Bydd yn cael ei ddefnyddio i deilwra'r cynnig ac i adrodd ar gynnydd i fwrdd rheoli Dechrau'n Deg.

* Mae Atebolrwydd Seiliedig ar Ddeilliannau (OBA) ac Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) ill dau yn tynnu ar waith Mark Friedman a'r Sefydliad Astudiaethau Polisi Cyllidol: http://resultsaccountability.com/. Mae dulliau gweithredu wedi'u seilio ar dri chwestiwn syml: Faint wnaethom ni? Pa mor dda wnaethom ni hynny? Oes rhywun yn well ei fyd?

ASTUDIAETH ACHOS

## Solihull: Cerdyn sgorio perfformiad y 'ryg tartan'

Roedd partneriaid yn Solihull yn dymuno rhannu perchnogaeth o'u data blynyddoedd cynnar a defnyddio hwn i weithredu, felly fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i nodi dangosyddion perfformiad â blaenoriaeth. Roedd y broses o gytuno ar y set derfynol o ddangosyddion yn bwysig; dewis beth i'w hepgor a phenderfynu a ddylid cynnwys dangosyddion allweddol fel marcwyr llwyddiant ar ôl 5 oed.

Mae'r dangosyddion y cytunwyd arnynt yn cynnwys data ar yr Holiadur *Ages and Stages* (ASQ), proffil y blynyddoedd cynnar, plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag AAA, a nifer y rhai sy'n manteisio ar hawl i addysg gynnar. Mae pob un yn cael ei fonitro ar lefel ward a bwrdeistref.

Rhennir y data yn eang fel siart sy'n dangos graddau coch, oren neu wyrdd a adwaenir yn lleol fel y ryg tartan, ac mae grŵp rhanddeiliaid yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro'r dangosyddion perfformiad.

Defnyddir y data i lywio cynllunio amlasiantaeth i ddiwallu anghenion pob ward mewn ardal. Er enghraifft, pan ddangosodd data ASQ ar gyfer datblygiad plant rhwng 2 a 2.5 oed ostyngiad am y tro cyntaf, daeth rhanddeiliaid allweddol ynghyd i adolygu'r cymorth y gallent ei roi i blant a theuluoedd i gefnogi cyfathrebu a hybu datblygiad iaith. Roedd y broses yn cynnwys cydweithwyr o blith ymwelyddion iechyd, cymorth addysg i leoliadau, iechyd y cyhoedd, cymorth rhianta, a gwasanaethau therapi iaith a lleferydd. Arweiniodd at gryfhau'r cymorth cyffredinol a'r cymorth wedi'i dargedu sydd ar gael i deuluoedd.

Soniodd y cyfranogwyr yn aml am ddiffyg arweiniad cenedlaethol, rhanbarthol neu leol clir ynghylch pa ddeilliannau y dylent geisio eu cyflawni a'u mesur o fewn strategaeth plentyndod cynnar fel rhwystr. Yn lleol, adroddwyd weithiau am ddryswch ynghylch ystyr termau fel allbynnau, deilliannau ac effaith. Roedd arweinwyr weithiau'n teimlo eu bod yn cael eu hysgogi gan 'broses' a dangosyddion perfformiad allweddol (allbynnau) yn hytrach na mesur effaith wirioneddol gwasanaethau ar fywydau plant a theuluoedd.

- *'Mae'n anodd cael sefydliadau i ymrwymo i ddeilliannau ar y cyd, ac ar hyn o bryd mae gwaith yn mynd ymlaen i gyrraedd deilliannau gwahanol ar draws y system.'*
- *'Mae angen inni symud i ffwrdd oddi wrth 'adrodd straeon da', bod yn glir iawn ac yn benodol ynghylch yr hyn yr ydym yn ei fesur; rhoi mwy o ffocws ar ddeilliannau a llai ar y dull, yn hytrach na chanlyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.'*
- *'Mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn gweithio i DPA/KPIs byrrach yn hytrach nag effaith. Byddai fframwaith deilliannau blynyddoedd cynnar yn helpu i gefnogi'r trydydd sector i ymgeisio am gyllid i brofi lle bydd gwaith prosiect yn ffitio i mewn i'r system blant ehangach a hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig a gweithio mewn partneriaeth.'*
- *'Nid oes fframwaith deilliannau cytûn ar draws asiantaethau. Mae unrhyw ddeilliannau yn canolbwyntio ar ddata un asiantaeth. Nid oes unrhyw lywodraethu strategol i fonitro llwyddiant a gwelliant cyffredinol.'*
- *'Rydym ymhell o hyn. Bu amrywiaeth o gamau ailstrwythuro a gostyngiadau mewn cyllid sydd wedi achosi problemau o ran parhau â'r DPA gwreiddiol. Mae newidiadau cenedlaethol hefyd wedi cael effaith, er enghraifft newidiadau i EYFSP.'*
- *'Bydd y fframwaith gwella ysgolion a chwricwlwm newydd Cymru yn eu lle erbyn y flwyddyn nesaf – gallai integreiddio â deilliannau grwpiau oedran cyn ysgol fod yn ddefnyddiol; mantais hyn fyddai canolbwyntio ar gefnogi pontio a dull teulu cyfan.'*
- *'Mae angen i ni fod yn well am fesur cryfderau a gwytnwch teuluoedd a'r berthynas rhwng rhieni a babanod. Mae ffocws y llywodraeth ar fesur y plentyn yn golygu ein bod yn colli cyfle.'*

Mewn llawer o achosion roedd ardaloedd lleol yn ei chael yn anodd sefydlu fframwaith deilliannau clir ar gyfer eu gwaith plentyndod cynnar. Yn Lloegr, nid oedd ymwybyddiaeth dda bob amser o Fframwaith Deilliannau Iechyd y Cyhoedd[44] a phroffiliau ardal iechyd plant a mamau,[45] sy'n galluogi awdurdodau lleol i gymharu eu deilliannau â deilliannau cymdogion ystadegol. Yng Nghymru, roedd diffyg ymwybyddiaeth hefyd o Fframwaith Deilliannau'r Blynyddoedd Cynnar,[46] a gyhoeddwyd yn 2015 gan Lywodraeth Cymru, y gallai ardaloedd lleol fesur cynnydd yn ei erbyn. Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd yn adrodd ar allbynnau heb fawr o ffocws ar ddeilliannau ar lefel plentyn neu deulu.

44 Ar gael yn https://fingertips.phe.org.uk/profile/public-health-outcomes-framework

45 Ar gael yn https://fingertips.phe.org.uk/profile/child-health-profiles


46 Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/deilliannau-r-blynyddoedd-cynnar-fframwaith.pdf

## Fframwaith Deilliannau Blynyddoedd Cynnar Cymru

Fframwaith 2015[1] sy'n defnyddio dull Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n gwahaniaethu rhwng deilliannau poblogaeth a pherfformiad gwasanaethau. Bwriad y fframwaith oedd:

- cefnogi'r gwaith o gydgysylltu gwaith gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar
- sicrhau bod polisïau blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- helpu i nodi lle mae angen gwelliant pellach, a lle bydd angen i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- helpu unigolion ar draws y sector, ac ar wahanol lefelau, i ddeall y cyfraniad y maent yn ei wneud at gyflawni'r deilliannau
- cefnogi cynllunio a gwerthuso lleol.

Fframwaith deilliannau gyda data am ddangosyddion poblogaeth (casglwyd ym mis Gorffennaf 2015)




1 Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/deilliannau-r-blynyddoedd-cynnar-fframwaith.pdf

## Offer mesur

Roedd gwaith blaenorol EIF ar ganolfannau plant a chanolfannau teulu yn Lloegr[47] hefyd yn dangos defnydd amrywiol o offer mesur dilys a dibynadwy i ddeall effeithiolrwydd ymyriadau. Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd lleol wedi disgrifio anawsterau wrth ddarparu tystiolaeth o effaith ar gyfer canolfannau plant ac ymyriadau plentyndod cynnar. Soniodd rhai am ddiffyg eglurder ynghylch y deilliannau dymunol a disgwyliedig, a olygai nad oedd gwasanaethau'n glir ynghylch pa dystiolaeth y dylent fod yn ei chasglu na sut yr oeddent yn cyfrannu at nodau cyffredinol.

Er bod rhai ardaloedd yn y gwaith cynharach hwn yn casglu data am raglenni penodol, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio offer mesur dilys a dibynadwy yn gyson. Gwelwyd hyn yn bennaf oherwydd diffyg eglurder ynghylch mesurau safonol ar gyfer llawer o wasanaethau, ac arbenigedd lleol cyfyngedig o ran dewis mesuriadau. Lle casglwyd data am ddeilliannau, roedd rhai ardaloedd yn nodi eu bod yn ei chael yn anodd dadansoddi a dehongli. Yr ardaloedd lleol a oedd yn hyderus yn eu hasesiad o effaith yn bennaf oedd y rheini a oedd wedi partneru â sefydliadau academaidd neu sefydliadau ymchwil i werthuso rhaglenni lleol.

Roedd y negeseuon hyn yn cyd-fynd â phrofiad llawer o'r 20 ardal leol a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd mamolaeth a blynyddoedd cynnar: 'Mewn rhai ardaloedd defnyddir offer mesur dilys a dibynadwy yn gyffredin a chaiff data ei gasglu ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyson i fesur deilliannau cyffredinol.'

### Dechrau'n Deg: Offer mesur safonol

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[1] ar gyfer darparu cymorth rhianta fel rhan o raglen Dechrau'n Deg yn nodi ystod o offer safonol[2] i fesur y pellter a deithiwyd ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhestr Ymddygiad Plant Eyberg*
- Holiadur Cryfderau ac Anawsterau Goodman*
- Graddfa Hyder Rhianta Karitane
- Arsylwi Babanod/Plant yn y Cartref ar gyfer Mesur yr Amgylchedd (CARTREF)
- Y Raddfa Rhianta
- Rhestr Wirio Problemau Rhieni*
- Graddfa Boddhad Rhianta Kansas
- CPRS Pianta (Graddfa Perthynas â Phlant a Rhiant)
- Graddfa Hunan-barch Rosenberg
- WEMWBS (Graddfa Lles Meddyliol Warwick a Chaeredin)
- Rhestr Iselder Beck (BDI).

1 Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/flying-start-parenting-support-guidance.pdf

2 Mae asesiad o nodweddion seicometrig a gweithredu'r mesurau sydd wedi'u nodi â * ar gael yn RPC Measures Selector EIF, sydd ar gael yn https://www.eif.org.uk/resource/rpc-measures-selector

47 Ar gael yn https://www.eif.org.uk/report/planning-early-childhood-services-in-2020-learning-from-practice-and-research-on-childrens-centres-and-family-hubs

## Profiad teuluol

Lle'r oedd ardaloedd lleol wedi cymryd camau i ddeall profiad teuluoedd a'u taith drwy wasanaethau, roeddent yn nodi dysgu pwerus i lywio strategaeth a chynllunio gwasanaethau.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Caerdydd: Gweithredu ar adborth arferol

Roedd Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn fodel cymorth cynnar newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i adborth gan deuluoedd ynghylch sawl gwaith yr oedd yn rhaid iddynt egluro eu sefyllfa. Mae cynghorwyr cymorth i deuluoedd yn gweithredu fel unigolion allweddol, sy'n gwrando ar stori'r teulu, yn darparu ymyriadau, yn eiriol ar ran y teulu, ac yn trosglwyddo gwybodaeth i weithwyr proffesiynol perthnasol megis y rhai ym maes tai neu gyllid. Gwneir atgyfeiriadau am gymorth drwy'r Porth Teulu, neu fel cam i lawr o'r Hyb Diogelu Aml-Asiantaeth a'r Gwasanaethau Plant statudol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

### Calderdale a Kirklees: Defnyddio adborth am wasanaethau mamolaeth

Crëwyd arolwg ar-lein mewn partneriaeth â Gwasanaethau Mamolaeth, yr awdurdodau lleol, Prifysgol Huddersfield, a'r *Maternity Voices Partnership* (MVP) ar draws Calderdale a Kirklees. Roedd yr arolwg yn cwmpasu pob agwedd ar y llwybr mamolaeth, gan gynnwys iechyd meddwl a lles, a dadansoddwyd y canlyniadau gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Huddersfield a'r MVP lleol.

Disgrifiodd menywod faterion yn ymwneud â chyfyngiadau ar gyfranogiad partneriaid; mynediad i wybodaeth am famolaeth a dosbarthiadau cyn geni; teimlo ar goll yn y system: parhad gofal; mesurau diogelwch Covid-19; a chyfleoedd ar gyfer cymorth wyneb yn wyneb.

O ganlyniad, cymerwyd nifer o gamau, gan gynnwys:

- newidiadau i drefniadau ymweld i sicrhau y gallai partneriaid fynd gyda menywod i bob sgan ac apwyntiad bydwreigiaeth neu ysbyty
- diweddaru tudalennau gwe yn ymwneud â mamolaeth gyda gwybodaeth allweddol am y pandemig ac ystod ehangach o wybodaeth am feichiogrwydd a genedigaeth yn unol ag awgrymiadau a wnaed gan MVP
- canllaw newydd '*Who and Where to Contact*' i wasanaethau, a 'Llinell Ymholiadau Bydwreigiaeth Gymunedol' newydd fel bod bydwraig ar gael bob amser i ateb cwestiynau a chefnogi materion nad ydynt yn rhai brys
- dychwelyd at apwyntiadau bydwreigiaeth wyneb yn wyneb fel mater o drefn ac ailddechrau dosbarthiadau cyn-geni wyneb yn wyneb mewn grwpiau bach, gan gadw pellter cymdeithasol.

Roedd menywod du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli yn yr arolwg, felly sefydlodd partneriaid Weithgor Anghydraddoldebau Iechyd ac maent yn cynnal cyfweliadau darganfod wyneb yn wyneb gyda merched sy'n llai tebygol o roi adborth drwy'r sianeli arferol.

Ar y cyfan, serch hynny, er bod pob ardal leol yn gallu cyfeirio at enghreifftiau da unigol o ymgysylltu â theuluoedd, ychydig o ardaloedd lleol oedd â threfniadau ar waith i gasglu data am brofiad teuluol fel mater o drefn. Fel y disgrifiwyd hyn gan un ardal, 'Prin yw'r data a rennir am brofiad cyffredinol teuluoedd sydd wedi defnyddio gwasanaethau lluosog ac nid oes unrhyw gymhelliant ar hyn o bryd i gasglu'r wybodaeth hon.'

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau'r panel EIF, gallai 17 o'r 20 ardal leol sy'n cymryd rhan elwa o ddefnyddio dull mwy cyson o gasglu adborth gan deuluoedd ar deithiau drwy'r system mamolaeth a blynyddoedd cynnar, yn hytrach na dim ond gwasanaethau unigol o fewn y system, a defnyddio hyn i lywio gwelliannau i wasanaethau.

## Mewnwelediad 10: Datblygu partneriaeth ymarfer ymchwil

Mae'r matrics aeddfedrwydd yn ystyried sut mae gwerthuso lleol yn cael ei flaenoriaethu a'i gyflawni, ac yn ystyried i ba raddau y mae partneriaid lleol yn mabwysiadu dull cyson o werthuso; cydnabod safonau tystiolaeth gwahanol; a defnyddio canfyddiadau gwerthuso i lywio penderfyniadau gweithredol a strategol.

Mae gwerthuso effaith ymyrraeth gynnar yn rhan hanfodol o'r hyn y mae'n ei olygu i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant a theuluoedd. Gwerthuso yw'r broses o archwilio ymyriadau ac arferion i bennu eu gwerth. Mae'n gwirio bod y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol o ran atal canlyniadau gwael, cefnogi datblygiad plant, a chyflawni'r buddion y maent wedi'u cynllunio i'w darparu. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol am sut y gallai gwasanaethau addasu a gwella.

Fel yr adroddwyd gan EIF yn 2020, mae arwain gwerthusiadau lleol yn aml yn her i ardaloedd lleol. Disgrifiant ddiffyg hyder wrth gynllunio gwerthuso, profi a threialu, a diwylliant neu fframwaith lleol cyfyngedig ar gyfer gwerthuso. Mae'n ymddangos fod diwylliant o ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth yn fwy cyffredin ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol na grwpiau eraill. Yn gyffredinol, mae ardaloedd lleol sydd wedi gweithredu ar werthuso wedi elwa ar gymorth mwy ymarferol gan arbenigwyr gwerthuso yn hytrach na dibynnu ar fynediad at ganllawiau mwy cyffredinol ar werthuso yn unig.

Rhoddodd rhai o'r ardaloedd lleol a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd enghreifftiau o sut roedd gwerthuso lleol yn llywio eu hymagwedd leol.

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Caerdydd***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Islington***

» *Gweler Astudiaeth achos* ***Caerffili***

Roedd adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn gyffredin, ond prin oedd yr enghreifftiau o werthusiad cadarn o brosiectau a gwasanaethau, neu o ganolbwyntio ar ddysgu o werthuso, yn hytrach nag adrodd ar ddeilliannau yn unig.

Yn ôl yr hunanasesiadau a chasgliadau panel EIF, gallai 15 o'r 20 ardal a ddefnyddiodd y matrics aeddfedrwydd mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar elwa o gydweithio amlasiantaethol ar werthuso, ac ar gasglu data am deithiau teuluol, er mwyn datblygu dull mwy cyson o werthuso effaith ar draws gwasanaethau.

- *'Mae hwn yn faes sydd angen llawer o ddatblygiad. Mae yna her gyda chasglu tystiolaeth mewn ffordd gyson, mae gan rai meysydd gwasanaeth arfer sylfaenol yn y maes hwn ac maent yn cael anhawster gyda chapasiti i wneud hwn yn faes ffocws.'*
- *'Mae gan feysydd gwasanaeth systemau unigol ar waith ar gyfer gwerthuso; dim llywodraethu strategol i fonitro gwerthuso nac i oruchwylio ar hyn o bryd.'*

- *'Mae yna ddiffyg dysgu ar y cyd am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, gan gynnwys ar gyfer gwahanol grwpiau cymunedol'.*
- *'Nid oes digon o waith yn cael ei wneud i werthuso gwasanaethau ac ymyriadau nac yn cael ei ymgorffori ar ddechrau prosiectau, ac nid ydym yn defnyddio meini prawf safonol nac ansawdd cyson ar gyfer gwerthuso. Nid oes dull ar gyfer gwella ansawdd, mae'n fwy o fater o'i 'roi ar waith heb fesur effaith nac ansawdd'. Ar draws y system mae yna weithio mewn seilos a pheidio â rhannu gwerthusiad er mwyn gallu edrych wedyn ar gydweithio ac atebion.'*
- *'Mae natur dameidiog y gwasanaethau yn golygu bod gwerthusiadau unigol yn cael eu cynnal ond nid oes unrhyw ddysgu ar draws y system gyfan yn digwydd o ganlyniad.'*
- *'Mae maint llwythi achosion a chapasiti o fewn y tîm yn golygu bod pryderon gweithredol yn cael mwy o sylw na'r cyfle i ddatblygu ystyriaethau a godwyd trwy werthuso.'*
- *'Mae'r broses o fesur effaith gwasanaethau yn anghyson ac nid yw'n rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau fel mater o drefn. Mae popeth yn digwydd ar wahân i wasanaethau ein gilydd felly dyw pobl yn gyffredinol ddim yn gwybod yr effaith y mae eu gwasanaeth yn ei gael ar bobl eraill, a lle gellir defnyddio dysgu a thystiolaeth sy'n cael eu rhannu.'*

Argymhellodd EIF hefyd i bob ardal leol ac eithrio un y dylent ystyried sefydlu neu gryfhau partneriaethau gyda sefydliad academaidd lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth leol.

» *Gweler Astudiaeth achos **Tower Hamlets***

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Caerdydd: Dilyn carfan Dechrau'n Deg

Dilynodd Caerdydd ei charfan Dechrau'n Deg 2008–2009 hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (yn 7 oed), gan ddefnyddio data profion ysgol cenedlaethol i gymharu perfformiad plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a fanteisiodd ar y rhaglen, â'r rhai oedd yn byw yn yr un ardaloedd nad oedd wedi manteisio ar y rhaglen.

Canfuwyd bod mynediad i Dechrau'n Deg yn cau 62% o'r bwlch ar gyfer darllen, 37% o'r bwlch ar gyfer rhifedd gweithdrefnol, a 31% o'r bwlch ar gyfer rhesymu rhifedd. Roedd hefyd yn gysylltiedig â thebygolrwydd cynyddol o gyflawni deilliannau disgwyliedig ar Broffil y Cyfnod Sylfaen.

Defnyddiwyd y gwerthusiad i ofyn cwestiynau am gynllunio a darparu gwasanaethau, megis a ddylai Dechrau'n Deg ganolbwyntio mwy ar y sgiliau sy'n rhagofyniad ar gyfer rhifedd diweddarach yn ogystal ag iaith.

Archwiliwyd rhesymau posibl dros lai o wahaniaethau rhwng plant Dechrau'n Deg o'u cymharu â rhai nad oeddent wedi derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer iaith a chyfathrebu yn Saesneg nag ar gyfer meysydd dysgu eraill a aseswyd ym Mhroffil y Cyfnod Sylfaen. Er y daethpwyd i'r casgliad y gallai newidiadau a wnaed i'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a gwelliannau i ofal plant ddangos gwelliannau yng ngharfannau'r dyfodol, cododd data am iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg gwestiynau am ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg ar y pryd.

» **Yn ôl i dudalen 70**

ASTUDIAETH ACHOS

## Islington: Casglu data ansoddol

Mae Islington yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu data ansoddol am wasanaeth *Bright Start*, sy'n ategu'r data meintiol ar ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n cyfateb i'r straenachoswyr a'r ffactorau gwytnwch yng ngweledigaeth *Bright Start*.

Mae'r dulliau hyn yn cynnwys, er enghraifft: casglu adborth mewn cyfarfodydd partneriaeth plentyndod cynnar ardal a fforymau rhieni; cynnal arolygon lleol; casglu geiriau o ganmoliaeth a chwynion, ac enghreifftiau o astudiaethau achos unigol; a chyfleoedd i roi adborth rhyngweithiol mewn sesiynau aros a chwarae mewn canolfannau plant lle gallai rhieni a'u plant roi eu barn ar lafar, neu drwy dynnu lluniau sydd oll yn llywio ac yn helpu i siapio gwasanaethau.

Mae holiadur staff blynyddol yn canolbwyntio ar beth sy'n gweithio a sut mae integreiddio yn digwydd, a defnyddir yr ymatebion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwelliannau.

» Yn ôl i dudalen 70

ASTUDIAETH ACHOS

## Caerffili: Cynyddu dysgu

Dewiswyd Tredegar Newydd, ardal sy'n cynnwys tair ardal gynnyrch ehangach haen is sydd â lefelau uchel o amddifadedd o gymharu â chyfartaledd Cymru, fel ffocws Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Caerffili.* Daeth gwerthusiad mewnol â chasgliadau proses matrics aeddfedrwydd yr EIF, gwerthusiad Llywodraeth Cymru, gwerthusiad Vanguard, cyfweliadau â theuluoedd a staff craidd, arolwg o bartneriaid, a dadansoddiad o ddata o gyfarfodydd Beth sy'n Bwysig at ei gilydd.

Nododd y gwerthusiad welliant sylweddol mewn cyfathrebu rhwng gwahanol dimau a rhai casgliadau pwysig ar gyfer datblygu'r dysgu'n ehangach ar draws Caerffili, gan gynnwys:

- yr angen am ardaloedd peilot ar raddfa fwy i sicrhau cynaliadwyedd y model
- y pwysau ar lwythi gwaith ymwelyddion iechyd
- manteision cydleoli a oedd yn drobwynt, yn enwedig gyda meddygon teulu
- yr angen i ddod â staff awdurdodau lleol a staff iechyd ar lefelau rheoli at ei gilydd i osgoi gweithio mewn seilos
- mae teuluoedd yn dal i orfod ailadrodd eu stori, sy'n atgyfnerthu'r angen i ddatblygu un system rhannu data
- mae angen gwaith pellach ar nodi'r sylfaen sgiliau, egluro rolau a datblygu cymysgedd o sgiliau
- pwysigrwydd y gallu i reoli newid gan gynnwys cydlynydd ac arweinydd strategol, a digon o amser i oedi a myfyrio.

» Yn ôl i dudalen 70

* Gweler https://www.exchangewales.org/cy/

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Tower Hamlets: Ymarfer – partneriaeth ymchwil

Er mwyn deall yn well yr amharodrwydd mewn rhai teuluoedd i fanteisio ar y cynnig o ofal plant wedi'i ariannu yn 2 oed, bu Tower Hamlets yn gweithio gyda phrifysgol leol ar raglen ymchwil gyda'r gymuned Bangladeshaidd.

Arweiniodd yr hyn a ddysgwyd o'r ymchwil at ddatblygu sesiynau aros a chwarae ychwanegol mewn canolfannau plant a theuluoedd, lle gallai rhieni ddysgu mwy am ddysgu cynnar yn 2 oed a derbyn llenyddiaeth y gallent ei defnyddio i ddarbwyllo aelodau eraill y teulu o'r manteision. Gwahoddwyd neiniau a theidiau a'r ail riant i un sesiwn, a gallent weld drostynt eu hunain sut roedd eu plentyn yn ymateb i fod mewn amgylchedd grŵp. Lle mae teuluoedd yn parhau i fod yn gyndyn, mae hyn yn cael ei dderbyn a chynigir pecyn cymorth i'r plentyn a'r teulu yn y ganolfan blant.

Sefydlwyd y fenter ar ôl i'r brifysgol fynd at Tower Hamlets oherwydd ei phoblogaeth Bangladeshaidd fawr. Aeth y cynnig drwy broses werthuso a moeseg cyn i'r awdurdod lleol, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, gytuno i gymryd rhan. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar faeth, gwerthoedd cymunedol a chanfyddiad yn ogystal â gofal plant. Mae rownd arall o'r ymchwil i fod i ddechrau yn yr ychydig fisoedd nesaf gan ei gwneud yn bosibl archwilio ymhellach i faterion yn ymwneud â Covid-19 a'r cyfyngiadau symud.

> *'Rhoddodd y rhaglen adborth manwl i ni ar y rhwystrau a wynebir gan y gymuned leol ynghylch rhai materion penodol, manylion na fyddem wedi gallu eu harchwilio ar ein pen ein hunain. Mae'r mathau hyn o bartneriaethau yn ein galluogi i ddilysu effeithiolrwydd rhaglenni presennol yn annibynnol, yn ogystal â chasglu data strwythuredig ac adborth i fod yn sail i gomisiynu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd.'*

» Yn ôl i dudalen 71

# Symud ymlaen

Felly beth ddylai rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol ei ddysgu o'r profiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn wrth iddynt gynllunio ar gyfer adferiad wedi Covid-19 a cheisio gwella gwasanaethau ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar?

## Cynllunio systemau lleol

Mae yna rai nodweddion allweddol sydd wrth wraidd cynllunio amlasiantaeth lleol, effeithiol ar gyfer systemau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar, y dylid eu gwreiddio yn y trefniadau lleol.

Mae'r rhain yn arbennig o berthnasol, er enghraifft, i ardaloedd lleol sy'n gweithio ar ddulliau eu hybiau lleol i deuluoedd[48], creu cynnig *Best Start for Life*, neu ddatblygu eu rhaglen trawsnewid integreiddio'r blynyddoedd cynnar ymhellach.

### Dealltwriaeth dda o ble rydych chi'n dechrau

Ni ellir bod ag unrhyw strategaeth wirioneddol ar gyfer lle rydych am ei gyrraedd heb ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa bresennol, a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Dylai datblygu strategaeth leol ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar gynnwys:

- **asesiad o anghenion y boblogaeth** i ddeall anghenion teuluoedd yn yr ardal leol, sy'n lleol, yn ddigon gronynnog, ac yn ystyried y ffactorau risg ac amddiffynnol sy'n effeithio ar ddatblygiad cynnar plentyn.
- **asesiad o systemau lleol** yn dangos pa mor effeithiol y trefnir gwasanaethau ar hyn o bryd i ymateb i anghenion y boblogaeth leol, gan ystyried gwahanol bersbectifau ar y trefniadau lleol. Gwneir hyn yn gyffredin drwy feithrin ymgysylltiad â rhanddeiliaid gan ddefnyddio offeryn cynllunio fel y matrics aeddfedrwydd neu (yn Lloegr) yr *Early Help System Guide*;[49] neu drwy broses strwythuredig fel *The Vanguard method*,[50] a grybwyllwyd yn rheolaidd gan ardaloedd lleol yng Nghymru.
- **dadansoddiad o dystiolaeth ac ymchwil, lleol a chenedlaethol arall sy'n bodoli** gyda phwyslais ar leisiau a phrofiadau plant a theuluoedd. Fel y mae'r enghreifftiau yn yr adroddiad hwn wedi'i ddangos, mae'r mathau eraill hyn o dystiolaeth ac ymchwil yn cynnwys mapio a dadansoddi adnoddau a gwasanaethau lleol y mae gwahanol sefydliadau a'r cymunedau eu hunain yn berchen arnynt.

48 National Centre for Family Hubs, 'Family Hubs Development Process' ar gael yn https://www.nationalcentreforfamilyhubs.org.uk/toolkits/the-family-hub-development-process/

49 Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/878994/TF_Early_Help_System_April_2020.pdf

50 Gweler https://whatisthevanguardmethod.net/about-vanguard-method/

## Strwythurau a phrosesau partneriaeth clir a chynhwysol ar gyfer darparu strategaeth partneriaeth leol, gyda phwyslais ar gynnwys teuluoedd a chymunedau

Mae gwaith partneriaeth da, yn strategol ac yn weithredol, yn hanfodol i drefniadau lleol cydgysylltiedig ar gyfer cymorth mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae perthnasoedd gwaith effeithiol yn dibynnu ar gyfleoedd i ymgysylltu a gweithio drwy wahaniaethau, meithrin ymddiriedaeth, a herio'i gilydd yn adeiladol. Dylai datblygu'r trefniadau llywodraethu partneriaethau lleol ar gyfer y system mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar gynnwys:

- cadarnhau pwy yw'r **partneriaid allweddol**, a sut y byddan nhw'n cymryd rhan yn y trefniadau ar gyfer y bartneriaeth leol, yn enwedig y partneriaid hynny sy'n llai tebygol o gyfrannu'n weithredol ond sydd â rhan allweddol i'w chwarae. Dylai hyn gynnwys nodi sut y mae uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn hyrwyddwyr ac yn eiriolwyr gweithredol ar gyfer y gwaith hwn; sut mae teuluoedd a chymunedau yn llunio strategaeth ac yn cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau; a sut mae rheolwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill yn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu strategaeth.
- bod yn eglur ynghylch **sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud** yng nghyd-destun partneriaeth, a chyhoeddi cylch gorchwyl y bartneriaeth
- bod yn eglur am **weledigaeth a blaenoriaethau'r bartneriaeth**, a lle bo'n briodol, nodi hyn mewn strategaeth ysgrifenedig neu ddamcaniaeth newid
- cadarnhau'r **rolau arweinyddiaeth sefydliadol allweddol** er mwyn sicrhau bod y broses o ddarparu a gweithredu'r strategaeth ar y trywydd iawn, gan gynnwys uwch noddwr, arweinydd trawsnewid ac arweinydd ar gyfer data a dadansoddi
- cadarnhau'r trefniadau ffurfiol (gan gynnwys cyllid) ar gyfer annog **aelodau'r gymuned i ymgymryd â rolau arwain**, a chynnwys rhieni a chymunedau mewn trefniadau llywodraethu a phenderfyniadau am adnoddau
- **cynllunio ar gyfer gweithredu**, creu cynlluniau gweithredu i lywio'r broses newid ac asesu parodrwydd ar gyfer newid
- sefydlu **gweithgorau ar gyfer meysydd strategaeth allweddol** sy'n heriol, er enghraifft rhannu gwybodaeth, perchenogaeth gymunedol, neu fesur a gwerthuso
- cysylltu strategaeth am famolaeth a'r blynyddoedd cynnar â **strategaeth leol ehangach** ar gyfer teuluoedd a chymunedau, ac ystyried cyfleoedd rhanbarthol a lleol i atgyfnerthu'r gwaith hwn.

## Dulliau cyffredin sy'n cefnogi gweithio cydgysylltiedig

Mae gweithio cydgysylltiedig yn dibynnu ar ffyrdd ymarferol iawn o gysylltu gweithgaredd gwahanol bobl a sefydliadau fel ei fod yn teimlo'n ddi-dor o safbwynt y teulu. Mae rhai gweithgareddau sy'n ymddangos yn arbennig o bwysig wrth greu dull amlasiantaeth cyffredin:

- datblygu **llwybrau cymorth amlasiantaeth** integredig sy'n canolbwyntio ar brofiad y teulu o wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Dylai hyn adeiladu ar broses leol ar gyfer mapio ac archwilio ymyriadau lleol i gadarnhau pa rai sy'n perfformio'n dda ac yn cyflawni deilliannau da i blant, ac adolygu sut mae ymyriadau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd ar gyfer teuluoedd ag anghenion gwahanol.
- atgyfnerthu trefniadau lleol ar gyfer **prosesau cyffredin** i adnabod, asesu a chefnogi teuluoedd bregus
- atgyfnerthu'r gwaith o **rannu data personol** am deuluoedd, a datblygu trefniadau ffurfiol i gefnogi hyn gan ddefnyddio protocolau, cytundebau a phrosesau ymarferol

- pwysleisio **gwybodaeth a gwasanaethau gwybodaeth** i deuluoedd fel rhai sy'n hanfodol i lwyddiant strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol, ac yn gyfrwng allweddol ar gyfer gwaith cyddylunio gyda theuluoedd
- buddsoddi mewn **datblygu'r gweithlu** sy'n ystyried diwylliant sefydliadol a diwylliant partneriaeth, sy'n gwerthfawrogi arbenigedd proffesiynol, ac sy'n ymateb i'r materion ymarferol a godwyd gan staff ynghylch bylchau mewn sgiliau a gallu, gwella amrywiaeth, a gwella lefelau ymwybyddiaeth a hyder
- archwilio sut y gallai **comisiynu ar y cyd a chysoni adnoddau** ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar atgyfnerthu gweithio cydgysylltiedig.

## Dulliau cyffredin o ddysgu a mesur gwelliant

Mae deall effaith ar draws gwasanaethau ac ar lefel systemig yn dibynnu ar rai ffyrdd penodol o gydweithio:

- cytuno ar set ddiffiniedig o **ganlyniadau dymunol i blant a'u teuluoedd** sy'n cymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n hysbys o ymchwil am ddatblygiad plant, ac sydd â pherchnogaeth a rennir ar draws y bartneriaeth leol. Un ffordd o wneud hyn yw drwy offeryn a phroses strwythuredig megis fframwaith deilliannau, y gellir ei diffinio ar lefel genedlaethol neu leol.
- defnyddio **offer mesur dilys a dibynadwy** yn gyson ar draws y bartneriaeth, gan gynnwys i ddeall sut deimlad yw'r profiad o gymorth ar draws gwasanaethau i deuluoedd.
- **cydweithio ar gynllunio a chyflwyno gwerthusiadau**, rhannu perchnogaeth data, creu perthnasoedd ag arbenigwyr academaidd, ac atgyfnerthu rôl staff lleol fel rhan o bartneriaeth ymarfer ymchwil.
- **ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid lleol yn y daith ddysgu**, rhannu cipolygon a gwerthusiadau, a chreu cyfleoedd i bobl fyfyrio ar y dysgu ac archwilio sut y gellir cymhwyso hyn wrth symud ymlaen.

## Defnyddio tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu systemau

Mae gan dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cynllunio systemau lleol.

| **Sut y gallai tystiolaeth helpu**<br>Sut beth yw 'da' wrth ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi cynllunio systemau lleol | |
|---|---|
| 1. Strategaeth leol | 1.1. Mae partneriaid yn tynnu'n benodol ar ddealltwriaeth o'r dystiolaeth ymchwil am:<br>• ffactorau risg ac amddiffynnol yn ymwneud â datblygiad cynnar plentyn wrth iddynt gynnal dadansoddiad o anghenion lleol<br>• tystiolaeth 'beth sy'n gweithio' wrth iddynt adolygu effeithiolrwydd ymyriadau lleol.<br>1.2. Mae partneriaid yn cydweithio i gasglu, rhannu a dadansoddi data lleol am:<br>• anghenion ac anghydraddoldebau poblogaeth<br>• adnoddau a sut y defnyddir y rhain<br>• effeithiolrwydd gwasanaethau a systemau<br>• blaenoriaethau cymunedol a rhanddeiliaid.<br>1.3. Mae partneriaid yn defnyddio'r data y maent wedi'i gasglu i lywio blaenoriaethau strategaeth leol, yn arbennig:<br>• y ffordd orau i ddiwallu anghenion grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed a'r rheini â nodweddion gwarchodedig<br>• sut i gydbwyso gwasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu<br>• sut i lenwi bylchau lleol mewn gwybodaeth. |

*Mae'r tabl yn parhau ar y dudalen nesaf »*

« Y tabl yn parhau o'r dudalen flaenorol

| **Sut y gallai tystiolaeth helpu**<br>Sut beth yw 'da' wrth ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi cynllunio systemau lleol | |
|---|---|
| 2. Cynllunio'r gweithlu | 2.1. Mae partneriaid yn cydweithio i gasglu, rhannu a dadansoddi:<br>• data sefydliadol ar anghenion y gweithlu, gan ddefnyddio archwiliadau gallu a sgiliau; y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant, profiad ac effeithiolrwydd; ac amrywiaeth y gweithlu, ac i ba raddau y mae hyn yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu<br>• data cymunedol am brofiad cymunedol o'r gweithlu<br>• data am y farchnad gweithlu ehangach, gan gynnwys argaeledd y bobl sydd â'r sgiliau a'r profiad y mae ar bartneriaid eu hangen i recriwtio iddynt os ydynt am ddarparu strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol.<br>2.2. Mae partneriaid yn defnyddio'r data y maent wedi'i gasglu i fod yn sail i:<br>• benderfyniadau ynghylch cymysgedd sgiliau, llwythi achosion a goruchwyliaeth<br>• manylebau rôl, fframweithiau recriwtio a chymhwysedd<br>• y cynnig dysgu a datblygu, paru cynnwys hyfforddiant ag anghenion sefydliadol, a gwerthuso effaith hyfforddiant a chyfleoedd dysgu. |
| 3. Gwasanaethau ac ymyriadau | 3.1. Mae partneriaid yn paru ymyriadau ag anghenion y boblogaeth, ac yn defnyddio tystiolaeth 'beth sy'n gweithio' i ddewis ymyriadau a dylunio gwasanaethau.<br>3.2. Mae partneriaid yn defnyddio offer dilys a dibynadwy i fesur effaith ar deuluoedd.<br>3.3. Mae partneriaid yn cydweithio i gasglu, rhannu a dadansoddi:<br>• data sefydliadol ar weithredu, cyrhaeddiad, ansawdd ac effaith ymyriadau<br>• data gan bobl â phrofiad personol am effeithiolrwydd gwasanaethau fel rhan o ddull lleol sy'n canolbwyntio ar y teulu<br>• gwybodaeth am effeithiolrwydd ymyrraeth gan ymarferwyr trwy brosesau cadarn megis archwiliadau o adolygiadau gan gymheiriaid.<br>3.4. Mae partneriaid yn addasu gwasanaethau ac ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth a gwerthusiadau lleol. |
| 4. Gweithio cydgysylltiedig | 4.1. Mae partneriaid yn ystyried ymchwil ehangach, canllawiau ymarfer a thystiolaeth werthuso wrth ddylunio prosesau amlasiantaeth lleol, er enghraifft am offer sgrinio ac asesu, neu wrth gynllunio llwybrau cymorth.<br>4.2. Mae partneriaid yn cydweithio i gasglu, rhannu a dadansoddi data lleol am:<br>• weithredu llwybrau cymorth amlasiantaeth<br>• profiad byw o gymorth amlasiantaeth<br>• profiad ymarferwyr o weithio cydgysylltiedig.<br>4.3. Mae partneriaid yn addasu prosesau amlasiantaeth yn seiliedig ar dystiolaeth a gwerthusiadau lleol. |
| 5. Gwybodaeth i rieni | 5.1. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar negeseuon cyson am yr hyn sydd ei angen ar blant i ffynnu, yn seiliedig ar ymchwil i ddatblygiad plant a ffactorau risg ac amddiffynnol.<br>5.2. Mae partneriaid yn rhannu data a gwybodaeth am anghenion gwybodaeth, ac yn casglu data gan rieni am y gwasanaethau gwybodaeth y mae arnynt eu heisiau a'u hangen, a'r ffyrdd gorau o wneud y gwasanaethau hyn yn hygyrch.<br>5.3. Mae partneriaid yn rhannu data sefydliadol am ddulliau presennol o ddarparu gwybodaeth i deuluoedd, ac yn adolygu cyfleoedd i lenwi bylchau a chynyddu effaith.<br>5.4. Maent yn cydweithio i gasglu, rhannu a dadansoddi data ar gyrhaeddiad a boddhad, yn enwedig ar gyfer teuluoedd bregus, ac yn defnyddio hyn i addasu'r gwasanaethau gwybodaeth lleol a gynigir. |

Mae'r tabl yn parhau ar y dudalen nesaf »

« Y tabl yn parhau o'r dudalen flaenorol

| **Sut y gallai tystiolaeth helpu**<br>Sut beth yw 'da' wrth ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi cynllunio systemau lleol | |
|---|---|
| 6. Canlyniadau a phrofiad | 6.1. Mae partneriaid yn cytuno ar gyfres o ganlyniadau y maent yn cydweithio i'w cyflawni, yn seiliedig ar ymdrin â'r ffactorau risg ac amddiffynnol sy'n bwysig i ddatblygiad plant.<br><br>6.2. Mae partneriaid yn creu fframwaith yn seiliedig ar y deilliannau hyn sy'n nodi sut bydd data'n cael ei gasglu, ei ddadansoddi a'i adrodd ar draws partneriaid i fesur cynnydd.<br><br>6.3. Mae partneriaid yn atgyfnerthu'r defnydd cyson o offer mesur dilys a dibynadwy ar draws gwasanaethau.<br><br>6.4. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata am brofiad teulu o gefnogaeth a boddhad gyda chymorth, ac yn defnyddio hyn i wneud gwelliannau. Mae'r data hwn yn cynnwys anghenion y rhai â nodweddion gwarchodedig. |
| 7. Gwerthusiad lleol | 7.1. Mae partneriaid yn cytuno ar ddull amlasiantaeth cyson o werthuso, sy'n eglur ynghylch sut mae gwahanol fathau o dystiolaeth yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio at wahanol ddibenion.<br><br>7.2. Mae partneriaid yn cynnwys gwerthusiad cymesur o'r dechrau ar gyfer prosiectau, ac mae ganddynt amserlen werthuso ar gyfer gwasanaethau allweddol ac ymyriadau. Mae partneriaid yn cydweithio ar werthuso lleol lle mae budd amlasiantaeth cryf.<br><br>7.3. Mae partneriaid yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o werthusiadau, ac yn creu cyfleoedd i randdeiliaid lleol adolygu a rhyngweithio â'r canfyddiadau. Mae dysgu o werthusiadau yn sail i benderfyniadau gweithredol yn ogystal â datblygu strategaeth leol.<br><br>7.4. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr ymchwil, gan ymgorffori'r rhain o fewn fframweithiau cymhwysedd lleol a recriwtio i rolau penodol sy'n cefnogi'r defnydd o ymchwil a data lleol.<br><br>7.5. Mae partneriaid yn buddsoddi mewn perthnasoedd â phartneriaid academaidd ac ymchwil i gefnogi trefniadau lleol ar gyfer defnyddio a chynhyrchu tystiolaeth. |

# Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant ar lefel genedlaethol

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlygu'r angen am weithredu cenedlaethol i gefnogi ardaloedd i gynllunio gwasanaethau effeithiol yn y blynyddoedd cynnar. Mae llawer o'r materion a amlygir yn yr adroddiad hwn yn anodd eu datrys drwy weithredu lleol yn unig ac mae rôl bwysig i lywodraethau cenedlaethol wrth ddileu rhwystrau i ddatblygu systemau lleol effeithiol, ac wrth greu'r amodau sy'n ei gwneud yn bosibl i gynllunio systemau lleol da.

## 1. Meithrin gallu lleol

Y rhwystr yr adroddwyd amlaf amdano i wella gwasanaethau ar draws holl elfennau'r matrics aeddfedrwydd oedd capasiti. Nododd yr ymatebion fod staff yn aml dan bwysau, gyda 'gwasanaethau wedi'u cwtogi i'r bôn', rhestrau aros hir a dim digon o amser i gymryd rhan mewn gweithgorau i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen, ymgymryd â hyfforddiant neu ystyried data lleol neu dystiolaeth ymchwil.

Mae gan y pwysau hwn ar y system ar lefel leol oblygiadau o ran gallu ardaloedd lleol i ymgysylltu â mentrau neu raglenni a arweinir yn ganolog a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau lleol. Mae'n anodd osgoi'r casgliad fod angen buddsoddiad penodol a pharhaus yn y swyddogaethau a'r rolau allweddol sy'n llywio'r gwaith o gynllunio systemau lleol – yn enwedig ym maes rheoli trawsnewid a dadansoddi a gwerthuso data – er mwyn dod o hyd i gapasiti lleol i wella gwasanaethau.

Ceir enghreifftiau o raglenni a arweinir gan y llywodraeth yng Nghymru (Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar[51]) ac yn Lloegr (*Family Hubs Programme*[52]) sydd wedi'u cynllunio i feithrin gallu lleol ar gyfer cynllunio systemau lleol. Os yw rhaglenni fel y rhain am lwyddo i feithrin gallu lleol, mae angen canolbwyntio'n benodol ar y swyddogaethau a'r rolau allweddol sy'n llywio'r gwaith o gynllunio systemau lleol, ac ymrwymiad i gyllid ar draws y blynyddoedd ariannol er mwyn galluogi recriwtio lleol da a sicrhau sefydlogrwydd y gweithlu.

## 2. Cael gwared ar rwystrau

Mae rhai risgiau a phroblemau yn anodd eu rheoli'n lleol ac mae angen arweiniad neu gefnogaeth genedlaethol arnynt er mwyn gwneud cynnydd. Rhai o'r meysydd allweddol a oedd yn amlwg o'r gwaith hwn oedd:

- **Asesiad o anghenion y boblogaeth**

  Canfu mwyafrif yr ardaloedd lleol a gymerodd ran fod datblygu a defnyddio asesiad o anghenion y boblogaeth i fwrw ymlaen â'u strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar yn her. Mae hyn er gwaethaf amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau yn Lloegr arwain y gwaith o nodi pa fathau o wybodaeth a chymorth sydd eu hangen i helpu ardaloedd lleol i wneud cynnydd ar gyflawni'r ddealltwriaeth fanwl o anghenion y boblogaeth sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio gwasanaethau.

- **Cynllunio'r gweithlu**

  Ychydig o'r ardaloedd a gymerodd ran oedd â data amlasiantaeth da am gapasiti, sgiliau a gallu'r gweithlu presennol i ddatblygu strategaeth gweithlu leol arno, a disgrifiodd llawer o ardaloedd lleol broblemau gyda recriwtio yr oeddent yn teimlo eu bod yn anodd iddyn nhw ymdrin â nhw ar lefel leol.

---

51 Gweler https://www.exchangewales.org/cy/

52 Gweler https://www.nationalcentreforfamilyhubs.org.uk/about-us/why-family-hubs/

Yng Nghymru mae strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol[53] yn nodi'r angen am ddull cenedlaethol o ddenu, hyfforddi, datblygu a chefnogi'r gweithlu er mwyn bodloni heriau gweithlu sy'n heneiddio, galw cynyddol a modelau darparu newidiol. Mae'r strategaeth hon yn uniongyrchol berthnasol i'r heriau a nodwyd gan yr ardaloedd lleol oedd yn cymryd rhan a dylai llywodraeth Cymru ystyried cynllun gweithredu sy'n benodol i'r gweithluoedd craidd mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar.

Yn Lloegr mae heriau tebyg ond diffyg arweiniad canolog ynghylch defnyddio a datblygu'r gweithlu plant a theuluoedd. Bu galwadau am fwy o arweiniad canolog ynghylch pwy sy'n gwneud beth i gefnogi teuluoedd, a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol rolau. Cafwyd awgrymiadau amrywiol ynghylch yr angen i ddatblygu strategaethau gweithlu cenedlaethol newydd.[54] Mae yna achos dros waith newydd yn ganolog i ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r gweithluoedd craidd sy'n cefnogi teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar fel bydwreigiaeth, ymwelyddion iechyd, iechyd meddwl rhieni a babanod, cymorth i deuluoedd, addysg gynnar, a gofal plant. Gallai hyn fod yn rhan o waith ehangach i ddatblygu gweithlu'r teulu yn ei gyfanrwydd neu'n benodol i'r blynyddoedd cynnar.

- **Rhannu gwybodaeth**

  Mae uchelgeisiau llywodraethau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd mwy integredig yn dibynnu ar systemau a phrosesau effeithiol ar gyfer rhannu data personol, a diwylliant sy'n hyderus i rannu. Ond er gwaethaf deddfwriaeth i alluogi hyn, canllawiau cenedlaethol helaeth a mentrau eraill, mae rhannu data personol yn parhau i fod yn creu problemau ar lefel leol.

  Yn Lloegr, mae bron i ddegawd ers i grŵp gorchwyl a gorffen, a sefydlwyd ar gais gweinidogion, adrodd[55] ynghylch rhannu gwybodaeth yn y blynyddoedd sylfaen. Gallai'r prosiect *Growing Up Well*, sy'n rhan o'r *Family Hubs Programme* ehangach, fod â rhan bwysig i'w chwarae gyda'i ffocws ar brofi gwell offer a phrosesau rhannu gwybodaeth.

  Yng Nghymru, mae'r Cytundeb ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI) wedi'i hen sefydlu ond nid oedd yn ymddangos ei fod yn rhoi sicrwydd gweithredol i'r ardaloedd lleol oedd yn cymryd rhan ym mhroses hunanasesu'r matrics aeddfedrwydd.

  Er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn mae angen edrych eto ar rannu gwybodaeth, a'r camau cenedlaethol uchelgeisiol a allai ddarparu'r trefniadau rhannu gwybodaeth lleol sy'n hanfodol i lwyddiant gweithio integredig lleol.

- **Fframweithiau deilliannau**

  Mae fframwaith deilliannau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar a ddiffinnir yn genedlaethol yn darparu strwythur cyson ar gyfer ariannu, monitro ac adrodd, a neges glir ar draws polisi cenedlaethol ynghylch yr hyn sy'n bwysig i unrhyw wasanaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar. Mae'n cynnig canllaw ar gyfer symleiddio a chydgysylltu gofynion adrodd ar ddata'r llywodraeth ar draws partneriaid lleol a thrwy hynny leihau'r pwysau ar gapasiti dadansoddwyr lleol y gellid ei ganolbwyntio ar gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth leol. Gellir ei ddefnyddio i atgyfnerthu egwyddor set ddata leol sy'n cael ei rhannu.

  Yn Lloegr mae nifer o fframweithiau deilliannau yn cael eu defnyddio neu eu hystyried mewn mentrau polisi allweddol fel canolfannau teulu, *Best Start for Life, Supporting Families* a'r rhaglen *Reducing Parental Conflict*. Byddai datblygu fframwaith deilliannau integredig ar draws yr agendâu polisi teuluol allweddol hyn yn helpu i ddod ag ystod o raglenni at ei gilydd gyda'r nod o gefnogi teuluoedd a hwyluso ymdrechion i gyfuno'r rhaglenni hyn ar lefel leol.

53 Ar gael yn https://aagic.gig.cymru/rhaglenni/strategaeth-gweithlu-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/

54 Er enghraifft, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Plant wedi argymell bod llywodraeth Lloegr yn 'datblygu strategaeth gweithlu gydgysylltiedig, wedi'i seilio ar ddata amserol a chywir, sy'n cwmpasu'r ystod lawn o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd', gweler https://adcs.org.uk/assets/documentation/ADCS_Building_a_workforce_that_works_for_all_children_FINAL_11_March_2019.pdf

55 Gweler https://www.foundationyears.org.uk/files/2013/11/Information_Sharing_in_the_Foundation_Years_Report.pdf

Yng Nghymru, gellid ailedrych ar Fframwaith Deilliannau'r Blynyddoedd Cynnar 2015 i nodi sut y gallai fod yn fwy gweladwy wrth ysgogi uchelgeisiau cenedlaethol a lleol.

## 3. Canolbwyntio ar dystiolaeth

Mae yna rôl i lywodraethau cenedlaethol wrth gefnogi'r defnydd o dystiolaeth i gryfhau systemau a gwasanaethau lleol, gan ystyried y chwe math gwahanol o ddata a thystiolaeth a ddisgrifir yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn.

Mae rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn rhan o hyn. Mae yna gyfres o raglenni y dangoswyd trwy brofion trylwyr eu bod yn gwella deilliannau i blant. Mae'r rhaglenni hyn yn aml wedi'u mireinio dros flynyddoedd mewn ymateb i ganfyddiadau gwerthuso lluosog. Y rhain nid yn unig yw'r 'bet gorau' ar gyfer plant a theuluoedd, maent hefyd yn aml yn darparu'r sgaffaldiau sydd eu hangen i gefnogi darpariaeth gyson, megis hyfforddiant i ymarferwyr a chymorth gweithredu 'ymarferol'. Mae set o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn rhan bwysig o wasanaeth cryf ar gyfer y blynyddoedd cynnar a mamolaeth.

Nid yw gwella gwasanaethau, fodd bynnag, mor syml â 'gwneud yr hyn sy'n gweithio'. Mae mathau eraill o dystiolaeth yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd, gan gynnwys data am anghenion y boblogaeth leol, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, pwy mae gwasanaethau'n eu cyrraedd neu yn eu colli, a sut deimlad yw cymorth o safbwynt teuluoedd.

Yn ogystal â'r camau a ddisgrifiwyd eisoes ar ddata anghenion y boblogaeth a data'r gweithlu, gallai llywodraethau yng Nghymru a Lloegr hybu'r defnydd ehangach o dystiolaeth i gefnogi gwella gwasanaethau lleol drwy:

- gymell a chefnogi ardaloedd lleol i gynyddu argaeledd ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o'r cynnig gwasanaeth lleol
- hyrwyddo datblygiad llwybrau cymorth sy'n cyfuno ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ogystal â rhai sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth ac wedi'u tyfu'n lleol, a chreu trefniadau 'profi a dysgu' pwrpasol ar gyfer pob un.
- ysgogi rhwydwaith What Works a sefydliadau tystiolaeth eraill i weithio gyda phartneriaid lleol i gefnogi tystiolaeth a'i rhoi ar waith. Dylai'r Canolfannau What Works ac eraill ganolbwyntio ar arfogi'r rhai sy'n darparu ymyrraeth gynnar i gynhyrchu tystiolaeth sy'n drylwyr ac yn ddefnyddiol ar gyfer llywio penderfyniadau lleol, ac ar ddatblygu offer ymchwil sy'n berthnasol ac yn hygyrch i gomisiynwyr, rheolwyr ac ymarferwyr lleol.
- archwilio sut i frocera a chryfhau perthnasoedd rhwng ardaloedd lleol a phartneriaid academaidd i feithrin mwy o hyder a gallu lleol i gynllunio gwerthusiadau cymesur a chynhyrchu tystiolaeth leol
- hyrwyddo mwy o ffocws ar ddefnyddio offer mesur safonol, dilys a dibynadwy i asesu cynnydd plant yn rheolaidd ar draws gwasanaethau plentyndod cynnar lleol
- ystyried sut y gallai fframweithiau arolygu a rheoleiddio sy'n berthnasol i wasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar neu wasanaethau plant yn ehangach, wneud mwy i adolygu sut mae ardaloedd wedi defnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau am wasanaethau.

## 4. Codi a chynnal y proffil

Mae systemau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yn faromedr da o ansawdd ac effeithiolrwydd y system ehangach. Maent yn dibynnu ar integreiddio da oherwydd ni all yr un sefydliad unigol gyflawni deilliannau teuluol da ar ei ben ei hun, a rhennir y prif gyfrifoldeb gan lywodraeth leol a'r GIG. Maent yn cyfuno gwasanaethau i oedolion a phlant, ac yn cefnogi pob teulu trwy gynnig cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol.

Gallai polisi cenedlaethol ysgogi pwyslais ar famolaeth a'r blynyddoedd cynnar a'i gwneud yn haws cynllunio cynnig plentyndod cynnar cydlynol ar lefel leol, fel y dangosir gan fentrau fel Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru[56] a *Best Start for Life* yn Lloegr.[57] Gallai'r Llywodraeth fynd ymhellach drwy:

- ddangos pwysigrwydd y cysylltiad rhwng polisi mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar wrth lunio polisïau cenedlaethol, gan gynnwys mewn datblygiadau ehangach yn y GIG megis systemau gofal integredig yn Lloegr, ac atgyfnerthu'r cydweddiad â pholisi teulu ehangach
- symleiddio'r fanyleb, y cyllid a gofynion adrodd mentrau ym maes mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar i'w gwneud yn haws dylunio cynnig lleol cydlynol
- ei gwneud yn ofynnol i ardaloedd lleol gyhoeddi strategaeth mamolaeth a blynyddoedd cynnar leol sy'n ymateb i bolisi cenedlaethol, ac sydd wedi'i seilio ar y ffactorau llwyddiant ar gyfer cynllunio systemau lleol a nodir yn yr adroddiad hwn.

## Casgliad

Mae hwn yn asesiad gonest o rai o'r cryfderau a'r heriau sy'n wynebu ardaloedd lleol wrth iddynt geisio adnewyddu gwasanaethau mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar yng nghyd-destun pandemig byd-eang a degawd o fuddsoddiad cyfyngedig.

Mae partneriaid lleol yn aml yn angerddol ac yn arloesol fel y dengys yr enghreifftiau lleol niferus. Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar yn ymrwymiad oes i lawer o'r bobl a gymerodd ran wrth ddefnyddio'r matrics aeddfedrwydd, o Ynys Môn i Warrington, a Calderdale i Wrecsam.

Ac eto mae partneriaid lleol hefyd dan bwysau ac yn wynebu symptomau lleol heriau cenedlaethol. Mae problemau sylfaenol i ymdrin â nhw ar lefel genedlaethol os yw ardaloedd lleol i ymateb yn effeithiol i gyd-destun heriol parhaus anghydraddoldebau, cyfyngiadau ar adnoddau a chanlyniadau'r pandemig.

Os ydym am wireddu potensial ymyrraeth gynnar yn y cyfnod holl bwysig hwn yn natblygiad plant, yna bydd hyn yn gofyn am ymateb cydgysylltiedig, hirdymor gydag adnoddau digonol, gan weithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol.

56 Gweler https://www.exchangewales.org/cy/

57 Gweler https://www.gov.uk/government/publications/the-best-start-for-life-a-vision-for-the-1001-critical-days

# Atodiad A: Sut y gweithiodd EIF gydag ardaloedd lleol


Cynhaliodd ardaloedd lleol arolwg rhanddeiliaid ar-lein dechreuol, gan geisio barn ystod eang o unigolion am raddau aeddfedrwydd systemau plentyndod cynnar lleol.

Yna daethant â rhanddeiliaid strategol a gweithredol ynghyd i gwblhau'r hunanasesiad gyda'i gilydd. Roedd yr hunanasesiad yn ymdrin ag elfennau o fewn pedwar dimensiwn y matrics aeddfedrwydd: cynllunio, arwain, darparu a gwerthuso.

Cymerodd cyfanswm o 20 ardal leol ran yn y broses:

| Cymru | Lloegr |
|---|---|
| Ynys Môn | Calderdale |
| Caerffili | Dwyrain Swydd Gaer |
| Caerdydd | Dyfnaint |
| Sir Gaerfyrddin | Hammersmith a Fulham |
| Ceredigion | Islington |
| Sir y Fflint | Kirklees |
| Casnewydd | Newham |
| Torfaen | Solihull |
| Bro Morgannwg | Tower Hamlets |
| Wrecsam | Warrington |

Roedd yr hunanasesiad yn ymdrin ag elfennau o fewn pedwar dimensiwn:



Defnyddiodd ardaloedd lleol ddisgrifyddion i hunanasesu pob elfen ar raddfa o sylfaenol i aeddfed.

| 1 | 2 | 3 | 4 |
|---|---|---|---|
| **CYNNYDD SYLFAENOL** | **CYNNYDD DECHREUOL** | **CYNNYDD SYLWEDDOL** | **AEDDFED** |
| Yr egwyddor wedi'i derbyn ac ymrwymiad i weithredu | Datblygiad dechreuol | Cyflawnwyd y canlyniadau dechreuol ac mae deilliannau cadarnhaol yn amlwg | Arfer da wedi'i wreiddio, a phobl eraill yn dysgu o'r hyn a gyflawnwyd |

Cyflwynodd pob ardal leol eu hunanasesiad i EIF, gan ddefnyddio'r llyfr gwaith matrics aeddfedrwydd. Fe wnaethant nodi pa fath o wybodaeth oedd ganddynt i gefnogi eu hasesiad, ond nid oedd angen iddynt ddarparu unrhyw fanylion, ac eithrio mewn adran nodiadau fer. Fe wnaeth pob ardal leol hefyd gofnodi rhwystrau canfyddedig rhanddeiliaid i newid, a'r camau gweithredu â blaenoriaeth (tymor byr, canolig a hir) yr oeddent wedi'u nodi ar y cyd.

Derbyniodd pob cydlynydd ardal leol gefnogaeth ysgafn o bell gan un oedd â chyswllt ag EIF, gan gynnwys trafodaeth ddechreuol i egluro unrhyw agweddau ar y cyflwyniad a oedd yn aneglur.

Adolygwyd pob hunanasesiad o lyfr gwaith gan banel o staff a rhai oedd â chyswllt ag EIF, y bu eu casgliadau'n sail i sesiwn adborth byr ac adroddiad ysgrifenedig ar gyfer yr ardal leol, gan nodi cryfderau allweddol ac agweddau y gallai eraill ddysgu ohonynt, a gwneud awgrymiadau ar gyfer camau nesaf, gan gynnwys ffyrdd posibl o ymdrin â'r rhwystrau presennol i gynnydd.

# Atodiad B: Data ar lefelau cynnydd y Matrics Aeddfedrwydd

## LEFELAU CYNNYDD: CYNLLUNIO

| | Lefelau cynnydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru a Lloegr | | | | Cymru | | | | Lloegr | | | |
| **Elfennau allweddol** | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed |
| Strategaeth: gweledigaeth, strategaeth a chynllun | 8 | 12 | | | 6 | 4 | | | 2 | 8 | | |
| Strategaeth: anghenion y boblogaeth | 4 | 14 | 2 | | 3 | 7 | | | 1 | 7 | 2 | |
| Comisiynu / adnoddau | 15 | 5 | | | 8 | 2 | | | 7 | 3 | | |
| Cynllunio'r gweithlu | 13 | 6 | 1 | | 7 | 3 | | | 6 | 3 | 1 | |
| *Lefel gyfartalog ar gyfer dimensiwn y Cynllunio* | *50%* | *46%* | *4%* | | *60%* | *40%* | | | *40%* | *52%* | *8%* | |

## LEFELAU CYNNYDD: ARWAIN

| | Lefelau cynnydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru a Lloegr | | | | Cymru | | | | Lloegr | | | |
| **Elfennau allweddol** | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed |
| Partneriaeth | 7 | 11 | 1 | 1 | 4 | 5 | 1 | | 3 | 6 | | 1 |
| Arweinyddiaeth | 1 | 14 | 4 | | 1 | 8 | 1 | | | 6 | 4 | |
| Cysylltu cymunedol | 8 | 11 | 1 | | 5 | 5 | | | 3 | 6 | 1 | |
| Asedau cymunedol | 8 | 9 | 1 | | 5 | 5 | | | 3 | 4 | 1 | |
| *Lefel gyfartalog ar gyfer y dimensiwn Arwain* | *31%* | *58%* | *9%* | *1%* | *38%* | *58%* | *5%* | | *24%* | *58%* | *16%* | *3%* |

## LEFELAU CYNNYDD: DARPARU

| | Lefelau cynnydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru a Lloegr | | | | Cymru | | | | Lloegr | | | |
| **Elfennau allweddol** | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed |
| Ansawdd | 3 | 12 | 3 | 1 | 2 | 7 | 1 | | 1 | 5 | 2 | 1 |
| Rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth | 1 | 12 | 6 | | | 6 | 4 | | 1 | 6 | 2 | |
| Gweithio cydgysylltiedig | 7 | 9 | 2 | | 3 | 7 | | | 4 | 2 | 2 | |
| Rhannu data personol | 8 | 11 | | | 4 | 6 | | | 4 | 5 | | |
| Gwybodaeth i deuluoedd | 4 | 12 | 2 | | 2 | 6 | 1 | | 2 | 6 | 1 | |
| *Lefel gyfartalog ar gyfer y dimensiwn Darparu* | *25%* | *60%* | *14%* | *1%* | *22%* | *65%* | *12%* | | *27%* | *55%* | *16%* | *2%* |

## LEFELAU CYNNYDD: GWERTHUSO

| | Lefelau cynnydd | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru a Lloegr | | | | Cymru | | | | Lloegr | | | |
| **Elfennau allweddol** | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed | Sylfaenol | Cynnar | Sylweddol | Aeddfed |
| Fframwaith canlyniadau | 10 | 9 | 1 | | 7 | 3 | | | 3 | 6 | 1 | |
| Mynediad i deuluoedd a phrofiad | 6 | 12 | 2 | | 3 | 7 | | | 3 | 5 | 2 | |
| Defnyddio tystiolaeth yn dda | 5 | 10 | 2 | 1 | 3 | 5 | 1 | | 2 | 5 | 1 | 1 |
| Gwerthusiad lleol | 3 | 16 | 1 | | 2 | 8 | | | 1 | 8 | 1 | |
| *Lefel gyfartalog ar gyfer y dimensiwn Gwerthuso* | *31%* | *60%* | *8%* | *1%* | *38%* | *59%* | *3%* | | *23%* | *61%* | *13%* | *3%* |